plaid.cymru

Plaid Cymru

# DROS GYMRU

## Manifffesto 2026



ARWAIN CYMRU O'R NEWYDD

4 Rhagair
6 Ein Blaenoriaethau
10 Arwain Cymru o’r Newydd
16 Iechyd, Gofal a Llesiant
24 Menter, Arloesedd a Chysylltedd
34 Y Blynyddoedd Cynnar ac Addysg
42 Cynaliadwyedd, Adnoddau a Gwytnwch Gwledig
52 Tai, Llywodraeth Leol a Chynllunio
58 Cyfiawnder a Thegwch Cymdeithasol
66 Diwylliant, Chwaraeon a’r Gymraeg



# Yr etholiad ar 7 Mai fydd yr un pwysicaf ers dechrau datganoli.



## Mae'n etholiad sy'n cynnig gobaith go iawn ar gyfer dyfodol Cymru. Plaid Cymru sy'n cynrychioli'r gobaith hwnnw drwy ein prosbectws ar gyfer adnewyddu, gweithredu go iawn o'r cychwyn cyntaf, ac addewid i sefyll dros Gymru bob amser.

Mae'r cyfle hwn am newid yn gwbl groes i hanes Llafur o reoli dirywiad a gwrthod gwneud safiad dros les ein gwlad yn wyneb difaterwch San Steffan.

A'r gobaith hwn sy'n hollbwysig er mwyn atal bygythiad Reform. Dydyn nhw ddim yn cynnig unrhyw atebion go iawn i heriau ein gwlad, gan ddibynnu yn hytrach ar eiriau gwag a chodi cynnen rhwng pobl.

Rydw i'n falch o gyflwyno maniffesto Plaid Cymru. Dyma ein cynllun ar gyfer Cymru fodern a hyderus – Cymru lle mae pob person a chymuned yn gallu cyfrannu at lwyddiant ein cenedl, ac elwa ar y llwyddiant hwnnw.

Mae Plaid Cymru'n barod i ffurfio llywodraeth newydd yng Nghymru gydag egni a phenderfyniad go iawn i fynd i'r afael â'r materion sy'n bwysig i chi. Ac mae'r blaenoriaethau pwysicaf yn glir i ni.

Byddwn ni'n lleihau amseroedd aros y GIG, er mwyn sicrhau bod amser, lle ac adnoddau i adeiladu gwasanaeth iechyd a gofal cynaliadwy ac integredig i Gymru – gwasanaeth sy'n gwneud mwy i gadw pobl yn iach, yn hytrach na dim ond trin salwch.

Byddwn ni'n cefnogi teuluoedd ac yn rhoi'r dechrau gorau posib i bob plentyn drwy ein cynnig sy'n torri tir newydd i blant. A bydd Cynnal, ein cynllun peilot ar gyfer taliadau plant uniongyrchol, yn profi'r hyn rydyn ni'n ei gredu – nad yw tlodi plant yn anochel.

Drwy Asiantaeth Datblygu Cenedlaethol newydd, byddwn ni'n datgloi potensial economaidd Cymru – gan adeiladu ar ein cryfderau i greu swyddi diogel sy'n talu'n dda, a rhannu ffyniant o Fôn i Fynwy.

Drwy ymgyrch newydd, feiddgar a diwyro ar gyfer sgiliau rhifedd a llythrennedd, byddwn yn codi'r safonau yn ein hysgolion, gan roi pob plentyn yng Nghymru ar y llwybr at lwyddiant.

Rydw i'n addo arwain llywodraeth sy'n gweithio'n galed bob dydd i wella eich bywyd chi – llywodraeth sy'n fwy penderfynol, yn fwy uchelgeisiol ac yn fwy unedig o ran ei phwrpas a'i gweledigaeth nag unrhyw lywodraeth a fu.

Wna i byth betruso rhag sefyll dros Gymru – y wlad rydw i'n ei charu a gwlad sy'n rhannu'r un gwerthoedd â fi – cymuned, cyfiawnder, gwaith caled a chwarae teg.

Wna i fyth dderbyn dim llai na thegwch i fy ngwlad – o ran cyllid, holl fanteision ein hadnoddau naturiol, a'r pwerau sydd eu hangen arnom i wella bywydau pobl.

Rydw i'n gofyn i chi ymddiried ynom ni wrth i ni baratoi ar gyfer y cam nesaf ar daith ein cenedl.

Gyda'n gilydd, gallwn ni achub ar y cyfle hanesyddol hwn a rhoi arweinyddiaeth newydd, egni newydd a syniadau newydd i Gymru.



# Ein Blaenoriaethau



# Torri rhestrau aros, a datblygu gwasanaeth iechyd a gofal sy'n addas ar gyfer y dyfodol





**Mae tua 1 o bob 5 o bobl yng Nghymru ar restr aros y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) ar hyn o bryd, gyda mwy na 5,000 o bobl yn aros dros 2 flynedd am driniaeth.**

Mae yna bobl go iawn y tu ôl i'r ffigurau hyn – pobl sy'n byw mewn poen, anghysur a phryder. Mae pawb yng Nghymru yn adnabod rhywun sy'n aros am driniaeth.

Mae gan Blaid Cymru gynllun pwrpasol wedi'i gostio i dorri rhestrau aros, fel cam cyntaf ac angenrheidiol i drawsnewid ein gwasanaethau iechyd a gofal.

Er mwyn i fwy o bobl allu gweld meddyg teulu pan fo angen, ac er mwyn helpu i leihau'r baich ar wasanaethau iechyd rheng flaen, byddwn yn cyflogi hyd at 100 o feddygon teulu newydd i ddarparu mwy o ofal y tu allan i oriau, ac yn buddsoddi mwy mewn digideiddio a thelefeddygaeth.

Drwy neilltuo amser ac adnoddau ar gyfer gofal wedi'i gynllunio, byddwn yn sicrhau bod mwy o bobl yn cael eu trin, a hynny'n gyflymach.

Gan ddilyn argymhellion Coleg Brenhinol y Llawfeddygon, byddwn yn creu 10 hwb llawfeddygol newydd i gynnig triniaethau yn gynt, triniaethau fel gosod clun a phen-glin newydd, llawdriniaethau hernia a thynnu cataractau – gan ddatblygu'r rhain i fod yn ganolfannau rhagoriaeth newydd ar gyfer meysydd arbenigol fel orthopedeg ac offthalmoleg.

Drwy dorri rhestrau aros, byddwn yn tynnu'r pwysau mwyaf uniongyrchol oddi ar y GIG – gan greu lle i fuddsoddi mewn gwasanaeth iechyd a gofal integredig sy'n sicrhau gwell mynediad at eich deintydd neu feddyg teulu, sy'n darparu gofal cymdeithasol mwy cynaliadwy, ac sy'n cadw pobl yn iachach yn hirach.

Drwy greu swydd newydd Gweinidog dros Iechyd Cyhoeddus, byddwn yn sicrhau bod mwy o bwyslais ar hybu llesiant corfforol a meddyliol pobl ym mhopeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud.

Dan arweinyddiaeth Plaid Cymru, bydd ein GIG bob amser ar gael am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen.

## Helpu teuluoedd gyda chostau byw drwy ofal plant sy'n fforddiadwy ac o safon



**Mae mynediad at ofal plant fforddiadwy ac o ansawdd uchel yn datgloi cyfleoedd. Mae'n rhoi rhyddid i rieni – yn enwedig mamau – ddychwelyd i waith neu i hyfforddiant, neu i weithio mwy o oriau. Ac mae'n gallu arwain at fanteision sylweddol i bob plentyn – cyfle i gymdeithasu a chael dechrau da er mwyn ffynnu mewn addysg gynradd.**

Ond mae costau gofal plant yng Nghymru ymhlith yr uchaf yn y DU ar hyn o bryd. Mae teuluoedd sydd â phlant ifanc yn gwario mwy ar ofal plant nag ar dai, a dydy llawer ohonynt ddim yn gallu fforddio gofal plant o gwbl.

Bydd llywodraeth Plaid Cymru yn darparu cynnig gofal plant trawsnewidiol newydd i bob plentyn rhwng 9 mis a 4 blwydd oed, gan roi arian yn ôl ym mhocedi teuluoedd, cefnogi rhieni i fynd yn ôl i weithio, a rhoi'r dechrau gorau i bob plentyn, beth bynnag fo'i gefndir.

Erbyn i'n cynnig newydd gael ei gyflwyno'n llawn, bydd gan bob plentyn rhwng 9 mis a 4 blwydd oed hawl i 20 awr o ofal plant am ddim bob wythnos, am 48 wythnos y flwyddyn. Ac i blant rhwng 3 a 4 oed y mae eu rhieni mewn gwaith, addysg neu hyfforddiant, byddwn yn anrhydeddu'r cynnig presennol – sef 30 awr yr wythnos o ofal plant wedi'i ariannu.

Pan fydd y cynnig cyffredinol hwn yn cael ei gyflwyno'n llawn, bydd werth mwy na £30,000 mewn costau gofal plant ym mhedair blynedd gyntaf bywyd plentyn, sy'n golygu mai dyma'r rhaglen gofal plant fwyaf hael a ariennir gan y llywodraeth yn unrhyw le yn y DU.

## Datgloi potensial economi Cymru, a chreu swyddi da sy'n talu'n dda



**Mae llawer o fusnesau yng Nghymru eisoes yn cystadlu â'r goreuon yn y byd. Ond mae gan economi Cymru botensial heb ei gyffwrdd hefyd.**

Bydd ein cynllun economaidd yn datgloi'r potensial hwnnw drwy dyfu a chynnal busnesau sydd mewn dwylo Cymreig, darparu swyddi da, adfywio canol ein trefi, a hybu safonau byw.

Drwy Asiantaeth Datblygu Cenedlaethol newydd wedi'i harwain gan fusnes, byddwn yn helpu busnesau Cymru i sicrhau buddsoddiad, i fasnachu ac i arloesi. Byddwn yn sicrhau bod rhagor o'n busnesau llwyddiannus yn parhau i fod dan berchnogaeth Gymreig – gan ddarparu swyddi cynaliadwy sy'n talu'n dda yn ein cymunedau, ac ailfuddsoddi mewn cadwyni cyflenwi lleol yn y tymor hirach.

Byddwn yn defnyddio caffael cyhoeddus i gefnogi busnesau yng Nghymru yn well, gyda'r nod o gynyddu lefel y gwariant ar gaffael nwyddau a gwasanaethau gan gyflenwyr yng Nghymru – o 55% (y lefel ar hyn o bryd) i o leiaf 70% o holl wariant caffael cyhoeddus Cymru.

Byddwn yn diwygio ardrethi busnes i sicrhau tegwch i fusnesau ar y stryd fawr, ac yn unioni'r anghydbwysedd sydd ar hyn o bryd yn ffafrio siopa y tu allan i drefi dros ddarpariaeth lletygarwch, hamdden a manwerthu yng nghanol ein trefi.

A drwy ddatblygu system sgiliau sy'n barod at y dyfodol yng Nghymru, byddwn yn sicrhau bod gan bawb y sgiliau i lwyddo. Byddwn yn sicrhau bod cyfleoedd hyfforddi ac addysg yn cyd-fynd ag anghenion cyflogwyr a diwydiannau ar lawr gwlad yng Nghymru, ac yn adlewyrchu cyfleoedd y dyfodol yn economi Cymru.

## Codi safonau yn ein hysgolion a sicrhau'r amodau gorau ar gyfer dysgu

**Mae sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cefnogi i ddysgu ac i adael yr ysgol gyda'r lefelau uchaf posib o lythrennedd a rhifedd yn hanfodol er mwyn rhoi'r sylfaen orau iddynt ar gyfer eu dyfodol.**

Ond ar hyn o bryd, mae ein system addysg yn methu gormod o'n disgyblion o ran cefnogi eu dysgu, hybu eu llesiant, a datblygu eu sgiliau beirniadol a'u gwybodaeth ym meysydd darllen, mathemateg a gwyddoniaeth. Yn 2022, cafodd Cymru ei sgoriau isaf erioed yn asesiadau rhyngwladol PISA.

Bydd Plaid Cymru yn cyflwyno strategaeth feiddgar, ymarferol a chynhwysol i godi'r safonau addysgol craidd yn ein hysgolion.

Byddwn yn rhoi Cynllun Llythrennedd a Rhifedd Sylfaenol newydd ar waith i sefydlu meincnodau cenedlaethol, darparu cymorth wedi'i dargedu, sicrhau addysgu o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gyda phroses olrhain cynnydd dryloyw ar gyfer pob myfyriwr. A byddwn yn sicrhau bod y Cwricwlwm i Gymru yn llwyddo i ddarparu gwybodaeth ddofn sy'n benodol-i-bwnc.

Erbyn 2030, bydd gan bob ysgol gynradd yng Nghymru lyfrgell bwrpasol, a bydd darllen yn cael ei wreiddio ar draws pob pwnc – nid dim ond Cymraeg a Saesneg.

Bydd llywodraeth Plaid Cymru hefyd yn buddsoddi yn nyfodol addysg yng Nghymru drwy gefnogi'r gwaith o recriwtio a chadw'r athrawon gorau – gan ddarparu gwell cymhellion i athrawon dan hyfforddiant, gwella amodau gwaith yn ein hysgolion, a sicrhau gwell cyfleoedd datblygu gyrfa i'n gweithlu addysg.

## Mynd i'r afael â thlodi plant

**Mae Plaid Cymru eisiau rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn, ac rydyn ni'n gwrthod derbyn nad oes gan 1 plentyn o bob 3 ddim dewis ond byw mewn tlodi.**

Mae magu plant mewn tlodi yn effeithio ar bob agwedd ar eu bywydau – o'u hiechyd i'w cyrhaeddiad addysgol, a'u rhagolygon gwaith yn y dyfodol. Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar bawb oherwydd ei fod yn rhoi mwy o bwysau ar ein GIG a gofyn mwy gan y wladwriaeth les.

Felly, torri'r cylch tlodi yw'r peth iawn i'w wneud, a'r peth doeth i'w wneud.

Dyna pam y byddwn yn cyflwyno cynllun radical newydd wedi'i dargedu i fynd i'r afael â thlodi plant.

Bydd ein cynnig gofal plant newydd yn rhoi hwb i incwm aelwydydd ac yn helpu i godi teuluoedd allan o dlodi. Byddwn hefyd yn adeiladu ar y gwaith a wnaethom i ddarparu prydau ysgol am ddim i bob disgybl ysgol gynradd, drwy ehangu'r cynllun i ysgolion uwchradd.

Gan ddysgu o'r dystiolaeth am yr hyn sydd wir yn gweithio i fynd i'r afael â thlodi plant, byddwn yn cyflwyno Cynnal – Taliad Plant Cymru. Byddwn yn treialu taliad wythnosol o £10 ar gyfer hyd at 15,000 o blant 0-6 oed mewn aelwydydd incwm isel, ac yn llunio'r achos dros ddatganoli'r pwerau sydd eu hangen arnom i gyflwyno'r taliad yn llawn ledled Cymru.

# Arwain Cymru o'r Newydd

Mae Plaid Cymru yn barod i arwain, ac i achub ar y cyfle sydd gennym ni i adeiladu'r genedl.

Byddwn yn sefyll dros Gymru, ac yn cynnig dechrau newydd i'n pobl a'n cymunedau – gan ganolbwyntio ar sicrhau newid go iawn yn erbyn set glir o flaenoriaethau.



## Rydyn ni'n addo llywodraeth newydd – gydag egni newydd, syniadau newydd a chred newydd yn yr hyn sy'n bosib i Gymru.

## Bydd ein llywodraeth ni yn un radical a chyfrifol, ac yn cael ei harwain gan weledigaeth uchelgeisiol o Gymru sy'n hyderus ynddi'i hun a'i lle yn y byd.

## Yn ogystal ag edrych at ddyfodol y tu hwnt i San Steffan, byddwn yn mynd ati heb ofn nac ymddiheuriad i sicrhau bod llais ein cenedl yn cael ei glywed yno.

### Canolbwyntio ar ein blaenoriaethau

Byddwn yn newid y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i sicrhau ei bod wir yn cyflawni dros bobl Cymru.

Yn hytrach na gwasgaru adnoddau'n rhy denau ar draws gormod o fentrau'r llywodraeth, byddwn yn eu targedu at ein blaenoriaethau allweddol – torri rhestrau aros, cefnogi teuluoedd gyda chostau byw, creu swyddi da sy'n talu'n dda, codi safonau addysgol a mynd i'r afael â thlodi plant.




Byddwn yn gweithio gyda gwasanaeth sifil Cymru i adolygu a diwygio ffyrdd o weithio er mwyn cyflawni ein blaenoriaethau, gan greu gwasanaeth cyhoeddus cydlynol ac effeithiol yng Nghymru sy'n agored, yn gydweithredol ac yn canolbwyntio ar wella bywydau pobl. Byddwn yn gosod targedau heriol, yn sbarduno newid diwylliannol ac yn seilio ein gwaith ar dystiolaeth a data o ansawdd uchel. A byddwn yn bwrw ymlaen â chynlluniau ar gyfer Ysgol Lywodraethu Genedlaethol Cymru.

Fel rhan o Strategaeth Ddigidol ehangach i Gymru, bydd llywodraeth Plaid Cymru yn blaenoriaethu arloesedd, gan gynnwys o ran sut mae technolegau digidol yn cael eu defnyddio ar draws y llywodraeth – gan wella mynediad at wasanaethau a chryfhau'r defnydd o ddata i sbarduno'r gwaith o lunio polisïau ar sail tystiolaeth.

Byddwn yn penderfynu a yw'r strategaethau a'r strwythurau presennol yn cyflawni eu pwrpas, ac yn arwain at ganlyniadau ystyrlon. Os nad ydyn nhw, byddwn yn eu disodli neu'n eu dirwyn i ben.

Rydyn ni'n falch iawn o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, sy'n gosod esiampl yn fyd-eang. Fodd bynnag, mae gweithredu'r Ddeddf wedi arwain yn rhy aml at gynlluniau a strategaethau ailadroddus sy'n gorgyffwrdd, yn hytrach na chanlyniadau gwirioneddol sy'n gwella bywydau pobl.

Bydd Plaid Cymru yn adolygu'r Ddeddf ac yn gweithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i sicrhau ei bod yn arwain at newid ystyrlon a mesuradwy, ac yn gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl yng Nghymru.

## Gwario'n glyfrach ac ariannu'n decach

Byddwn yn cael ein harwain gan ein blaenoriaethau ac yn gweithio i wneud yn siŵr bod bob punt o gyllideb Cymru yn cyfrif, ac i sicrhau bod gwariant cyhoeddus yn arwain at y canlyniadau gorau posib. Mae hyn yn golygu sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n effeithlon a'i ddefnyddio'n effeithiol i wella gwasanaethau cyhoeddus, yn hytrach nag i nodi problemau dro ar ôl tro sydd wedyn yn mynd heb eu datrys.

Yn ystod 100 diwrnod cyntaf llywodraeth Plaid Cymru, byddwn yn dechrau cysoni gwariant Llywodraeth Cymru â'n blaenoriaethau fel rhan o'r gwaith o baratoi ein cyllideb gyntaf.

Rydyn ni'n gwybod bod Cymru'n cael ei dal yn ôl oherwydd nad yw San Steffan yn ei hariannu'n ddigonol, a byddwn yn brwydro i sicrhau tegwch economaidd go iawn er mwyn gallu buddsoddi yn ein cymunedau a'n gwasanaethau cyhoeddus.

Rydyn ni wedi ymrwymo i'r canlynol:

- Sicrhau bod Cymru'n cael yr hyn sy'n ddyledus iddi yn sgil HS2 a phrosiectau rheilffyrdd eraill sy'n rhai yn Lloegr yn unig, er mwyn i ni allu buddsoddi mewn system drafnidiaeth integredig sy'n gweithio i Gymru.
- Disodli fformiwla Barnett, sydd wedi dyddio ac sy'n annheg, gan sicrhau bod Cymru'n cael ei chyfran deg o fuddsoddiad cyhoeddus.
- Mwy o bwerau treth, er mwyn i ni allu adeiladu system dreth sy'n gweithio i Gymru, gan gynnwys gallu gosod bandiau treth incwm i wneud y dreth yn fwy teg a blaengar. Byddai Treth ar Dir Gwag yn creu cymhelliant i greu defnydd preswyl a busnes newydd ar gyfer mwy o dir gwag.
- Rhagor o ddiwygiadau i'r fframwaith cyllidol, gan gynnwys codi terfynau tynnu i lawr blynyddol Cronfa Wrth Gefn Cymru i'r un lefel â'r Alban, a chynyddu terfyn dyled cyfalaf y Senedd o £1bn i £3bn – fel camau cyntaf uniongyrchol at sicrhau pwerau benthyca darbodus llawn i Gymru.

Byddwn hefyd yn edrych ar ffyrdd newydd ac arloesol o gyllido, gan gynnwys:

- Gweithio gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru – sy'n cyfuno cronfeydd pensiwn awdurdodau lleol sydd, ers 2025, yn rheoli £25bn mewn asedau – i ddatblygu dull newydd o fuddsoddi'n foesegol ac yn lleol, gan gynnwys mewn tai cymdeithasol a busnesau yng Nghymru.
- Creu Cronfa Cyfoeth Cymru, gan sicrhau cyfran deg o elw o ynni adnewyddadwy Cymru i fuddsoddi mewn prosiectau sy'n cael eu harwain gan y gymuned mewn meysydd fel tai ac ynni.

## Trethi datganoledig

Rydyn ni'n gwybod ei bod yn hen bryd diwygio'r system Treth Gyngor bresennol, felly byddwn ni'n gweithio i'w gwneud yn decach. Byddwn hefyd yn edrych ar sut gellir diwygio'r Dreth Trafodiadau Tir i wella'r cymorth i'r rhai sy'n prynu eu tŷ cyntaf.

Byddwn yn diwygio ac yn ailgydbwyso ardrethi busnes i roi gwell cymorth i fusnesau lletygarwch, hamdden a manwerthu'r stryd fawr, sy'n rhan annatod o ganol trefi ffyniannus.

Byddwn yn sicrhau bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o'r pwerau trethu presennol, gan roi pwysau ar Lywodraeth y DU i ddatganoli pwerau i gyflwyno Treth ar Dir Gwag ac i osod bandiau treth incwm sydd wedi'u gwneud yng Nghymru.



## Sefyll dros Gymru yn San Steffan

Bydd llywodraeth Plaid Cymru yn sefydlu perthynas newydd rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Byddwn bob amser yn rhoi anghenion a buddiannau pobl Cymru yn gyntaf. Byddwn yn anelu at feithrin perthynas gydweithredol a chynhyrchiol â Llywodraeth y DU, gan barhau i fod yn gadarn ynghylch ein blaenoriaethau ar yr un pryd. Rhaid parchu datganoli a byddwn yn defnyddio ein mandad i gyflawni'r newid y mae pobl yng Nghymru angen ei weld, ac yn disgwyl ei weld.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda phartneriaid yn Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i amddiffyn datganoli, ac ar feysydd eraill o ddiddordeb cyffredin fel cyllid tecach, polisïau economaidd ac ynni, a mynd i'r afael â thlodi plant.

## Ystad y Goron

Mae Ystad y Goron yn cynnwys asedau ar y môr a'r tir sy'n eiddo i'r brenin – gan gynnwys ar wely'r môr am hyd at 12 milltir forol – sy'n cynhyrchu incwm sylweddol o weithgareddau fel ynni adnewyddadwy ar y môr.

Yn yr Alban, mae rheolaeth dros Ystad y Goron wedi cael ei datganoli, gan alluogi Llywodraeth yr Alban i gadw'r elw llawn o brydlesu asedau Ystad y Goron a'i ailfuddsoddi mewn blaenoriaethau cenedlaethol.

Nid yw hynny'n wir yng Nghymru. Mae refeniw o dir a dyfroedd Cymru yn cael ei ddychwelyd i'r Trysorlys yn Llundain, gyda chyfran yn cael ei dyrannu i'r Teulu Brenhinol.

Does dim rheswm pam na ddylai pobl yng Nghymru elwa ar gyfoeth naturiol eu gwlad yn yr un modd â phobl yn yr Alban.

Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru o blaid datganoli Ystad y Goron. Bydd llywodraeth Plaid Cymru yn defnyddio ei mandad i sicrhau bod datganoli Ystad y Goron yn flaenoriaeth allweddol, gan ddechrau trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ar unwaith.

## Datganoli Cyfiawnder a Phlismona

Does dim amau'r achos dros ddatganoli cyfiawnder a phlismona i Gymru – fel yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae Comisiwn Silk, Comisiwn Thomas ac, yn fwyaf diweddar, y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru wedi cyflwyno'r achos yn bendant.

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am feysydd sy'n rhyngweithio'n uniongyrchol â phlismona a'r system gyfiawnder – iechyd, addysg, tai a gwasanaethau cymdeithasol – gan gynnwys darparu'r gwasanaethau hyn mewn carchardai ac i droseddwyr ifanc. Ond mae plismona, y llysoedd a'r carchardai eu hunain i gyd wedi'u cadw'n ôl i San Steffan. Mae hyn yn golygu ei bod yn amhosib diwygio'r system gyfiawnder yng Nghymru mewn ffordd ystyrlon, ac mae'n llawer anoddach darparu gwasanaethau mewn ffordd gydlynol ac effeithlon sy'n sicrhau'r gwerth am arian neu'r canlyniadau sydd eu hangen a'u heisiau arnom.

Tynnu sylw oddi wrth yr hyn sy'n bwysig fyddai unrhyw waith pellach ynghylch *a ddylid* datganoli cyfiawnder a phlismona, ac mae penderfyniad Llywodraeth y DU i gael gwared ar Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn gymhelliad arall dros ddatganoli'r pwerau hyn.

Byddwn yn pwyso am ddatganoli cyfiawnder a phlismona fel blaenoriaeth.

## Democratiaeth Cymru yn y dyfodol

Nid rhestrau caeedig oedd yr opsiwn roedden ni'n ei ffafrio i ddiwygio system etholiadol y Senedd. Mae angen system bleidleisio deg ar Gymru sy'n gymesur, yn gynrychioliadol, ac yn rhoi dewis go iawn i bleidleiswyr.

Wrth i ni weithio i gryfhau ein democratiaeth, byddwn yn:

- Defnyddio'r mecanwaith adolygu yn Neddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) i gynnal adolygiad llawn o drefniadau etholiadol y Senedd, gan archwilio iechyd democratiaeth yng Nghymru. Ar yr un pryd, byddwn yn nodi llwybrau cyfreithiol i sicrhau cynrychiolaeth gyfartal rhwng y rhywiau.
- Ystyried cyngor gan y Grŵp Cynghori ar Arloesi Democratiaeth ar sut i roi mwy o lais i bobl yng Nghymru wrth wneud penderfyniadau ar bob lefel o lywodraeth.
- Gweithio i greu mwyafrif trawsbleidiol ar gyfer mabwysiadu'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy ar gyfer etholiadau'r Senedd yn y dyfodol, ac archwilio opsiynau ar gyfer arloesi, fel rhannu swyddi ar gyfer ymgeiswyr y Senedd, er mwyn gwella amrywiaeth y gynrychiolaeth ymhellach.
- Adnewyddu'r broses o ddiwygio etholiadol mewn awdurdodau lleol, gyda'r nod o fabwysiadu'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy ar gyfer etholiadau llywodraeth leol.
- Cryfhau addysg llythrennedd gwleidyddol a llythrennedd yn y cyfryngau mewn ysgolion i sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn deall sut mae democratiaeth yng Nghymru yn gweithio, a bod ganddynt y sgiliau beirniadol i adnabod camwybodaeth a thwyllwybodaeth.

Byddwn yn cryfhau uniondeb mewn gwleidyddiaeth a bywyd cyhoeddus, ac yn sicrhau bod twyll bwriadol yn arwain at ganlyniadau – gan gynnwys deddfu i ymestyn egwyddorion Cyfraith Hillsborough a'r ddyletswydd gonestrwydd lle nad yw deddfwriaeth y DU yn ymdrin yn llawn â swyddogaethau datganoledig a chyrff cyhoeddus yng Nghymru.

Byddwn yn amddiffyn datganoli ac yn gwrthsefyll ymdrechion i'w danseilio neu ei wanhau, gan sicrhau mwy o'r dulliau sydd eu hangen arnom i adeiladu Cymru fwy teg a ffyniannus.

Rydyn ni'n gwybod bod y DU yn cael ei strwythuro a'i llywodraethu mewn ffordd anghynaliadwy ar hyn o bryd. Mae newid yn angenrheidiol ac yn debygol, a rhaid i lywodraeth gyfrifol baratoi ar gyfer hynny. Mae ein cenedl ar daith at annibyniaeth a byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â phobl Cymru i nodi'r camau posib nesaf ar y daith honno.

Byddwn yn sefydlu Comisiwn Cenedlaethol newydd i Gymru, a fydd yn gyfrifol am y canlynol:

- Cyflwyno a goruchwylio prosesau ar gyfer datganoli Ystad y Goron, gwasanaethau rheilffyrdd a seilwaith, a chyfiawnder a phlismona. Roedd y rhain i gyd yn argymhellion gan y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru.
- Cynnwys dinasyddion mewn sgwrs genedlaethol barhaus am yr opsiynau ar gyfer dyfodol cyfansoddiadol Cymru – gan adeiladu ar yr arferion gorau gafodd eu sefydlu gan y Comisiwn Cyfansoddiadol o ran cysylltu newid cyfansoddiadol â'r materion sy'n bwysig i bobl ac sy'n effeithio arnynt yn eu bywydau o ddydd i ddydd.
- Ymchwilio i gwestiynau gwleidyddol ac economaidd allweddol sy'n berthnasol i ddyfodol cyfansoddiadol Cymru, er mwyn llywio trafodaethau a phenderfyniadau.
- Gosod y sylfeini ar gyfer Papur Gwyn yn y dyfodol ar annibyniaeth i Gymru – gan fynd i'r afael â'r heriau a nodi'r cyfleoedd a'r newidiadau cadarnhaol y byddai annibyniaeth yn eu cynnig i Gymru.

Rydyn ni'n credu yn y bôn mai pobl Cymru ddylai benderfynu ar ddyfodol gwleidyddol a chyfansoddiadol eu gwlad.

Byddwn felly'n gofyn yn ffurfiol am ddatganoli'r hawl i benderfynu ar yr amserlen, y cwestiwn a'r broses ar gyfer refferendwm annibyniaeth.

### Cymru a'i lle yn y byd

Bydd llywodraeth Plaid Cymru yn falch o fod ag agwedd ryngwladol, ac yn cymryd ei chyfrifoldebau byd-eang o ddifrif. Byddwn yn meithrin cysylltiadau rhyngwladol yn seiliedig ar ein gwerthoedd – gan hybu democratiaeth a chyfiawnder cymdeithasol, cydweithio i fynd i'r afael â newid hinsawdd, diogelu hawliau cenhedloedd bach ac ieithoedd lleiafrifol, a hybu heddwch a chydweithrediad drwy sefydliadau rhyngwladol.

Bydd llywodraeth Plaid Cymru yn sefyll dros heddwch, cyfiawnder a pharch at gyfraith ryngwladol – yn union fel y gwnaeth Plaid Cymru safiad cadarn ac egwyddorol ar Gaza.

Y ffordd orau o ofalu am les pennaf Cymru yw dychwelyd i fod yn aelod llawn o'r Undeb Ewropeaidd. Yn y tymor byr, byddwn yn:

- Parhau i ddadlau y dylai'r DU geisio ailymuno â'r farchnad sengl a'r undeb tollau ar frys – i hybu masnach a dechrau dad-wneud y difrod gwerth £4 biliwn y mae Brexit wedi'i achosi i economi Cymru.
- Mynnu bod Llywodraeth Cymru yn cael cymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau am faterion Ewropeaidd sy'n effeithio'n uniongyrchol ar Gymru.
- Cyflwyno Strategaeth Ewropeaidd newydd, wedi'i hategu gan Ddeddf Cydweddu Ewropeaidd – i'n galluogi i fod yn gyson â safonau blaenllaw Ewrop mewn meysydd sy'n cynnwys diogelu'r amgylchedd, iechyd cyhoeddus, a safonau bwyd.
- Gweithio i sicrhau bod pobl ifanc yng Nghymru yn gallu byw, astudio a gweithio yn Ewrop – gan gynnwys drwy fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i fyfyrwyr o Gymru nawr bod y DU wedi ailymuno â chynllun Erasmus, ac archwilio opsiynau ar gyfer dyfodol y rhaglen Taith, sy'n benodol i Gymru.

Fel ein cymydog Ewropeaidd agosaf a gwlad y mae gan Gymru berthynas ddiwylliannol a masnachol â hi ers tro byd, byddwn yn ceisio adeiladu ar ein cysylltiadau ag Iwerddon drwy ddatblygu fframwaith cydweithredu dwyochrog newydd a chynhwysfawr.

### Estyn allan at y Cymry byd-eang

Yn ôl yr amcangyfrifon, mae 3-4 miliwn o bobl o Gymru yn byw y tu allan i'r wlad.

Mae'r Cymry sydd ar wasgar yn ased – yn ffynhonnell creadigrwydd, sgiliau a buddsoddiad. Gydag arweinyddiaeth gadarn gan lywodraeth Plaid Cymru, bydd modd manteisio ar arbenigedd a phrofiad y gymuned Gymreig fyd-eang, a'i pharodrwydd i fuddsoddi, er mwyn sbarduno arloesedd a thwf yng Nghymru.

Byddwn yn datblygu ac yn gweithredu Strategaeth Genedlaethol gynhwysfawr ar gyfer Cymry ar Wasgar, gan hyrwyddo Cymru fel lle i entrepreneuriaid ar wasgar fuddsoddi ynddo a sicrhau bod ymfudwyr diweddar yn cael eu hannog a'u cymell i ddychwelyd.

Bydd y strategaeth yn cynnwys:

- Sefydlu Tasglu Cymry ar Wasgar traws-sector – gan ddod â busnesau, y byd academaidd, sefydliadau diwylliannol a'r llywodraeth at ei gilydd i gydlynu'r gwaith o estyn allan, rhannu'r arferion gorau, a gosod blaenoriaethau ar gyfer cydweithio â Chymry ar wasgar.
- Fframweithiau buddsoddi strwythuredig – gan greu llwybrau clir a hygyrch i Gymry ym mhedwar ban byd fuddsoddi mewn busnesau, ymchwil a phrosiectau datblygu rhanbarthol yng Nghymru.
- Ehangu adnoddau diwylliannol ac adnoddau'r Gymraeg – i ddarparu mwy o gyfleoedd digidol ac wyneb yn wyneb i ddysgu Cymraeg a mwynhau diwylliant Cymru.
- Hyrwyddo rhaglenni dychwelyd a chyfnewid gwybodaeth – gan helpu ymfudwyr medrus i ddychwelyd i Gymru a hwyluso lleoliadau tymor byr ar gyfer gweithwyr proffesiynol sydd ar wasgar mewn sefydliadau, busnesau newydd a mentrau ymchwil yng Nghymru.
- Datblygu rhwydweithiau ar-lein ac all-lein i gysylltu Cymry ledled y byd gyda'i gilydd a gyda chyfleoedd yng Nghymru, gan gynnwys gweithio gyda sefydliadau Cymry ar wasgar sefydledig i sicrhau'r canlyniadau gorau.

# Iechyd, Gofal a Llesiant

Yng Nghymru y ganwyd y GIG.

Bron i 80 mlynedd ers sefydlu ein gwasanaeth cyhoeddus mwyaf gwerthfawr, mae'r heriau sy'n ei wynebu yn dra gwahanol.

Dyna pam mae gan Blaid Cymru gynllun radical i adnewyddu ac i ailadeiladu'r GIG ar ôl blynyddoedd o gamreoli.



## Mae miloedd o bobl yn defnyddio gwasanaethau'r GIG yng Nghymru bob dydd, ac mae ein meddygon, ein nyrsys a'n gweithwyr iechyd proffesiynol ymroddedig eraill yn rhoi gofal rhagorol.

Er mwyn y cleifion ac er mwyn ein gweithlu gofal iechyd, mae angen sicrhau bod ein GIG yn y sefyllfa orau bosib i ddarparu gofal prydlon ac o safon i bawb sydd ei angen.

Byddwn yn buddsoddi mewn cadw pobl yn iachach yn hirach – gan leihau'r angen i drin salwch drwy roi mwy o gefnogaeth i bobl wella eu hiechyd a'u llesiant.

Drwy fynd ati o'r newydd i gynnig arweinyddiaeth benderfynol a thrawsnewidiol i'n GIG, bydd llywodraeth Plaid Cymru yn mynd i'r afael â'r pwysau mwyaf uniongyrchol ar ein gwasanaethau iechyd a gofal, gan greu'r lle sydd ei angen i sicrhau gwell cydbwysedd rhwng atal a thrin afiechyd.

Byddwn yn mynd i'r afael â rhestrau aros hir ac yn dechrau symud ffocws ac adnoddau tuag at hybu iechyd cyhoeddus gwell, sicrhau gwell mynediad at y gwasanaethau iechyd o ddydd i ddydd a ddarperir gan ddeintyddion a meddygon teulu, a gwireddu ein huchelgais o integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn llawn.

### Mynd i'r afael â rhestrau aros

Ar hyn o bryd, mae tua 600,000 o bobl ar restrau aros y GIG yng Nghymru. Mae dros 5,000 o gleifion yng Nghymru yn aros mwy na dwy flynedd am driniaeth, o'i gymharu â llai na 200 yn Lloegr.

Mae gennym gynllun wedi'i gostio, wedi'i dargedu, ac wedi'i arwain gan arbenigwyr i dorri rhestrau aros, a lleihau'r niferoedd hyn.

Byddwn yn:

- Recriwtio hyd at 100 o feddygon teulu cyflogedig ychwanegol, gan ganolbwyntio ar wella mynediad at ofal y tu allan i oriau arferol a lleddfu'r pwysau ar wasanaethau yn ein hysbytai, yn enwedig adrannau damweiniau ac achosion brys.
- Buddsoddi mewn digideiddio a gwasanaethau teleiechyd, er mwyn sicrhau rhagor o fynediad at feddygon teulu a gwasanaethau iechyd cysylltiedig drwy apwyntiadau o bell ac ar-lein.
- Gweithredu argymhellion Coleg Brenhinol y Llawfeddygon i ddarparu 10 hwb llawfeddygol newydd. Bydd y canolfannau pwrpasol hyn yn darparu niferoedd uchel o driniaethau yn y meysydd arbenigol lle mae cleifion yn aros hiraf, gan gynnwys offthalmoleg, orthopaedeg a llawfeddygaeth gyffredinol.
- Mynd i'r afael â gofal mewn coridorau drwy gynyddu nifer y gwelyau ar wardiau ysbytai Cymru, ar ôl blwyddyn ar ôl blwyddyn o ostyngiadau.
- Rhoi diwedd ar y loteri cod post ym maes gofal iechyd drwy wella sut mae gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu ar draws y GIG yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys deddfu i sefydlu cydweithrediad rhwng byrddau iechyd, er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael mynediad prydlon at driniaethau penodol a bod argaeledd, dibynadwyedd ac ansawdd y gofal maen nhw'n ei gael yr un fath lle bynnag maen nhw'n byw.
- Cyflawni yn unol â Chynllun Iechyd Menywod GIG Cymru a gweithio i'w gryfhau – gan leihau'r oedi cyn cael diagnosis a lleihau triniaethau hwyr i fenywod a merched mewn meysydd fel canser, diabetes ac iechyd meddwl, yn ogystal â chyflyrau sy'n effeithio'n bennaf ar fenywod fel endometriosis a'r menopos.

## Diogelu ein GIG at y dyfodol

Dan arweinyddiaeth Plaid Cymru, bydd ein GIG bob amser am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen, a byddwn yn diogelu presgripsiynau am ddim.

Dim ond drwy ddatblygu GIG sy'n mynd i'r afael â heriau yfory y gallwn ddelio'n briodol â phwysau heddiw.

Wrth i ni edrych ymlaen at ddathlu pen-blwydd y GIG yn 80 oed, a'r tu hwnt, byddwn yn rhoi sylfaen newydd a chynaliadwy i'n gwasanaethau iechyd a gofal er mwyn ymateb i heriau'r 21ain ganrif.

### Y Gweithlu

Does dim GIG heb ei staff. Byddwn yn sicrhau bod staff yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi, a bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr amodau gorau posib yng nghontractau'r GIG. Byddwn yn gweithio i alluogi nyrsys i weithio'n fwy hyblyg ac i sicrhau amser wedi'i neilltuo ar gyfer eu datblygiad proffesiynol parhaus.

Byddwn yn cynnal Bwrsariaeth GIG Cymru ac yn rhoi cynllun cynhwysfawr, hirdymor ar waith i gefnogi ac i dyfu gweithlu'r GIG.

Bydd ein cynllun yn canolbwyntio ar greu'r nifer a'r cydbwysedd cywir o leoliadau addysg a hyfforddiant ar gyfer nyrsys, meddygon a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill – gan gynnwys ehangu mynediad at gymwysterau proffesiynol drwy lwybrau newydd, fel prentisiaethau.

### Llywodraethiant

Mae pob un o saith prif fwrdd iechyd Cymru yn destun rhyw fath o ymyrraeth wedi'i thargedu ar hyn o bryd. Mae rhai, fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, wedi bod mewn mesurau arbennig ers blynyddoedd.

Mae angen i ni dorri'r cylch diddiwedd o reoli argyfyngau yn ein GIG – cylch sy'n adlewyrchu system sy'n rhy gymhleth, diffyg meddwl mewn ffordd gydgysylltiedig, gormod o flaenoriaethau sy'n gwrthdaro, a llinellau atebolrwydd aneglur.

Er mwyn sicrhau bod trefniadau llywodraethu GIG Cymru yn addas i'r diben, byddwn yn:

- **Symleiddio'r prosesau cynllunio ac adrodd ar gyfer gofal iechyd – gyda blaenoriaethau cliriach a llai o dargedau, a'u bod yn fwy penodol a realistig.**
- **Ailddiffinio cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru ac ailwampio Gweithrediaeth y GIG – gyda'r cyntaf o'r rhain yn gyfrifol am bennu'r cyfeiriad polisi cyffredinol, a'r ail yn goruchwylio'r materion gweithredol o ddydd i ddydd.**
- **Datblygu safonau proffesiynol ar gyfer rheolwyr y GIG ac ymgynghori ar gyflwyno corff rheoleiddio, i sicrhau bod gan arweinwyr yr arbenigedd a'r sgiliau arbenigol sydd eu hangen ar y GIG.**
- **Gwella sut mae data am berfformiad y GIG yn cael ei gasglu a'i rannu.**
- **Ei gwneud yn gliriach pryd a pham y dylid rhoi byrddau iechyd mewn mesurau arbennig neu eu tynnu ohonynt, a thynnu'r wleidyddiaeth o'r broses hon drwy ei rhoi yn nwylo Gweithrediaeth y GIG.**
- **Sefydlu diwylliant newydd, sy'n canolbwyntio mwy ar berfformiad ar draws GIG Cymru, sy'n croesawu cwynion a chael ei herio, a lle mae llais y cleifion wir yn cael ei werthfawrogi.**
- **Sicrhau bod enghreifftiau o arferion da yn cael eu nodi, eu rhannu a'u rhoi ar waith ledled Cymru.**

Gyda'i gilydd, bydd y diwygiadau hyn yn golygu bod modd gwneud penderfyniadau yn gyflymach ac yn fwy effeithiol, yn erbyn set fwy rhesymegol o nodau a thargedau, a gydag amlinelliad cliriach o bwy sy'n gyfrifol am beth. Bydd hyn yn gosod sylfaen newydd i ddarparu'r gwasanaethau gofal iechyd mwy cadarn a chynaliadwy y mae pobl yng Nghymru eu hangen ac yn eu haeddu.

Gan fynnu mwy gan y strwythurau llywodraethiant presennol, byddwn yn parhau i adolygu a yw'r strwythurau hyn yn addas i'r diben, ac yn cyflwyno cynlluniau i'w newid lle bo angen.

Yn benodol, byddwn yn datblygu cynllun pwrpasol i ddelio â'r gamreolaeth barhaus ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, gan archwilio'r holl opsiynau ar gyfer diwygio i ddarparu gwell gwasanaethau iechyd a gofal yn y Gogledd fel mater o frys.

**Data a Thechnoleg Ddigidol**
Yn rhy aml, mae'r GIG yng Nghymru yn wasanaeth analog sy'n gweithredu mewn oes ddigidol – mae'n parhau i fod yn orddibynnol ar gofnodion papur sy'n hawdd eu colli neu eu difrodi, sy'n anodd i gleifion gael gafael arnynt, ac sy'n ei gwneud yn anodd rhannu data. Mae hefyd yn anoddach cael apwyntiadau'n ddigidol neu drwy wasanaethau teleiechyd nag y dylai fod.

I wneud ein gwasanaethau iechyd yn fwy effeithiol a chynhyrchiol, byddwn yn hybu mwy o ddigideiddio a gwell prosesau rheoli data.

Byddwn yn:

- **Gwella mynediad at deleiechyd a thelefeddygaeth fel rhan o'n cynllun i fynd i'r afael â rhestrau aros.**
- **Gwella Ap GIG Cymru, a'i wneud yn adnodd sy'n helpu pobl i reoli eu hiechyd a chymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau am eu gofal iechyd.**
- **Deddfu i wella safonau data iechyd, ei gwneud yn haws rhannu data ar draws byrddau iechyd, a chysylltu cofnodion ar draws y systemau iechyd a gofal cymdeithasol.**
- **Gweithredu strategaeth ddigidol 10 mlynedd newydd ar gyfer Iechyd a Gofal Digidol Cymru – gan hybu arloesedd a'r defnydd strategol o ddeallusrwydd artiffisial a thechnolegau newydd eraill yn y GIG er mwyn lleihau'r baich gweinyddol ar weithwyr gofal iechyd proffesiynol, cyflymu prosesau sgrinio, gwella diagnosteg, a helpu i ddatblygu cynlluniau triniaeth wedi'u personoli.**

**Ystad y GIG**
Er mwyn diogelu a hybu diogelwch staff a chleifion, byddwn yn gweithio i fynd i'r afael â'r gwaith cynnal a chadw sydd wedi cronni yn ystâd y GIG, drwy raglen fuddsoddi newydd ar gyfer Cyfleusterau Iechyd a Gofal Cynaliadwy. Yn benodol, byddwn yn lleihau'r gwaith cynnal a chadw risg uchel sydd wedi cronni fel mater o flaenoriaeth, ac yn gwneud y gwaith atgyweirio ac uwchraddio mwyaf brys.

### Adfer gwasanaethau meddygon teulu

Mae meddygfeydd ar reng flaen ein GIG – nhw yw'r pwynt mynediad i gael gafael ar wasanaethau iechyd. Mewn dros 90% o achosion, mae cyswllt cyntaf cleifion â'r GIG yng Nghymru yn digwydd drwy wasanaeth iechyd sylfaenol.

Do, mae arian wedi cael ei roi i'n hysbytai dros y degawd diwethaf, ond roedd hynny ar draul ein meddygfeydd. Ac mae hyn wedi cyfrannu at ostyngiad yn nifer y meddygon teulu sy'n gweithio yng Nghymru.

Byddwn yn cymryd camau ar unwaith i wrthdroi'r tueddiadau hyn, gyda'r nod o adfer Cymru i gymhareb gyfartalog yr OECD o 1.08 meddyg teulu fesul 1,000 o bobl, a'i gwneud yn haws ac yn gyflymach i bawb weld meddyg teulu pan fydd angen un arnynt.

Byddwn yn:

- **Recriwtio hyd at 100 o feddygon teulu cyflogedig newydd, a gwella mynediad drwy wasanaethau digidol a theleiechyd, fel rhan o'n cynllun i fynd i'r afael â rhestrau aros.**
- **Mynnu bod pob bwrdd iechyd yn llunio cynllun i adfer cyllid ar gyfer gwasanaethau meddygon teulu.**
- **Adolygu a diwygio'r model cyllido ar gyfer gwasanaethau meddygon teulu, i sicrhau cyllid teg a chyson ar draws pob meddygfa, a sefydlu cronfa grantiau cyfalaf i helpu meddygfeydd gyda gorbenion a chostau rhedeg cynyddol.**
- **Gwneud gwasanaethau meddygon teulu yn fwy cynaliadwy drwy hybu'r syniad o ffederaleiddio meddyfgeydd a lleihau biwrocratiaeth, a lliniaru'r pwysau ymhellach drwy gefnogi mynediad at wasanaethau iechyd sylfaenol drwy fferyllfeydd cymunedol.**

### Cynnydd tuag at Wasanaeth Gofal Cenedlaethol

Mae Plaid Cymru'n credu y dylid darparu gofal cymdeithasol, fel gofal iechyd, yn rhad ac am ddim i bawb sydd ei angen. Bydd llywodraeth Plaid Cymru yn gweithio i wireddu'r weledigaeth hon.

Mae'r rhaniad presennol rhwng gofal iechyd – sy'n cael ei ddarparu gan GIG Cymru – a gofal cymdeithasol – sy'n gyfrifoldeb ar awdurdodau lleol yn bennaf – yn artiffisial, yn aneffeithlon, ac yn anghynaliadwy. Mae'n gohirio prosesau trosglwyddo gofal – gan atal pobl rhag gadael yr ysbyty, blocio gwelyau, a gwneud rhestrau aros yn hirach.

Er mwyn cymryd y camau nesaf tuag at greu Gwasanaeth Iechyd a Gofal cwbl integredig i Gymru, byddwn yn:

- Mynnu cydweithrediad cryfach rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, drwy gynllunio mewn modd mwy cydgysylltiedig, cydlynu adnoddau'n well, a rhannu'r cyfrifoldeb dros gyflawni yn gliriach.
- Cyfarwyddo'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth newydd i ddatblygu ac i weithredu canllawiau cenedlaethol safonol ar ofal cymdeithasol – ar gyfer comisiynu gwasanaethau, casglu data, ac asesu anghenion.
- Gweithio gydag awdurdodau lleol a darparwyr gofal i sicrhau mai'r Cyflog Byw Gwirioneddol yw'r gyfradd isafswm cyflog ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru.
- Cefnogi ac ehangu modelau gofal cymdeithasol cydweithredol a mentrau cymdeithasol.

Mae gofal lliniarol a diwedd oes yn rhan hanfodol o'n system iechyd a gofal, a byddwn yn gweithio i fynd i'r afael â'r heriau allweddol sy'n wynebu'r gwasanaethau hyn drwy wneud y canlynol:

- Gweithio gyda byrddau iechyd, darparwyr gofal a rhanddeiliaid perthnasol eraill i ddatblygu model cyllid cynaliadwy newydd.
- Mynnu bod byrddau iechyd yn asesu anghenion gofal lliniarol a diwedd oes yn eu dalgylchoedd ac yn defnyddio hyn i lywio'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau – gan gyhoeddi cynlluniau cyflawni lleol ar gyfer gofal lliniarol.
- Sicrhau bod pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cynnwys arweinydd gofal lliniarol a diwedd oes.

### Cefnogi gofalwyr di-dâl

Mae o leiaf 300,000 o ofalwyr di-dâl yng Nghymru. Byddai disodli'r gofal maen nhw'n ei ddarparu yn costio dros £10 biliwn y flwyddyn, sydd gymaint â chyllideb gyfan GIG Cymru.

Byddwn yn gwarchod y cymorth presennol y mae gofalwyr di-dâl yn ei gael yng Nghymru. Gan gydnabod maint eu cyfraniad at iechyd a llesiant yng Nghymru, gan gydnabod bod angen i'w llywodraeth eu cefnogi'n well, a'u bod yn haeddu hynny, byddwn hefyd yn:

- Gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod Asesiadau o Anghenion Gofalwyr yn cael eu cwblhau o fewn 28 diwrnod, a bod gofalwyr yn gallu manteisio ar eu hawl i gael seibiant.
- Datblygu hyfforddiant wedi'i deilwra i ofalwyr di-dâl sy'n gofalu am rywun ar ddiwedd ei oes, a sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar gysylltiadau gofal iechyd allweddol, gan gynnwys cymorth a gofal lliniarol a diwedd oes 24/7.
- Pwyso ar Lywodraeth y DU i wneud y Lwfans Gofalwyr yn decach, a rhoi cymorth pwrpasol i ofalwyr di-dâl hawlio'r holl fudd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt ar hyn o bryd – gan gynnwys Credyd Pensiwn, tariffau cymdeithasol a gostyngiadau eraill ar filiau cyfleustodau.
- Cydnabod gofalwyr di-dâl fel grŵp blaenoriaeth, gan gynnwys wrth lunio ymyriadau costau byw a gwrth-dlodi, a pholisïau gwaith teg.

### Trin y pethau sy'n achosi salwch, nid dim ond y symptomau

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydyn ni wedi gweld mwy a mwy o arbedion ffug wrth reoli a chyllido ein gwasanaethau iechyd yng Nghymru.

Rydyn ni wedi bod yn buddsoddi llai nag y dylem mewn mesurau sy'n cadw pobl yn iach, ac yna'n talu'r pris pan fyddant wedyn yn mynd yn sâl, angen triniaeth, neu'n gorfod rhoi'r gorau i weithio.

Bydd llywodraeth Plaid Cymru yn gweithio i liniaru'r anghydbwysedd hwn. Byddwn yn sicrhau bod y prosesau llunio polisïau ar draws y llywodraeth yn gweithio i fynd i'r afael â phenderfynyddion cymdeithasol iechyd – gan gynnwys ym meysydd tai, addysg a lleihau tlodi – ac yn ailflaenoriaethu iechyd cyhoeddus ac iechyd ataliol i gadw pobl yn iachach yn hirach.

Byddwn yn:

- **Creu Gweinidog Iechyd Cyhoeddus newydd yn Llywodraeth Cymru, sy'n gyfrifol am hybu iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pobl ym mhopeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud – gan sicrhau bod holl bolisïau'r Llywodraeth yn cyd-fynd â'r nod o greu poblogaeth iachach, a chanolbwyntio'n benodol ar gyflyrau cronig fel gordewdra a diabetes math 2.**
- **Datblygu Strategaeth a Fframwaith Iechyd Cyhoeddus newydd a chynhwysfawr ar gyfer Cymru, yn seiliedig ar adolygiad o'r bôn i'r brig o anghenion iechyd cyhoeddus nawr ac yn y dyfodol, gan gynnwys cynlluniau iechyd pwrpasol ar gyfer plant a phobl hŷn.**
- **Symud adnoddau'n raddol tuag at fesurau sy'n hybu gwell iechyd a llesiant – gan gynnwys hyrwyddo ffyrdd iach o fyw; cefnogi celfyddydau, diwylliant a chwaraeon cymunedol; a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a thai gwael.**
- **Hyrwyddo presgripsiynu cymdeithasol ac ymyriadau sy'n seiliedig ar natur i wella iechyd a llesiant pobl.**

### Gwell iechyd meddwl

Mae pwysau iechyd meddwl yng Nghymru wedi dwysáu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wrth i ni barhau i deimlo sgil-effaith pandemig Covid. Mae tua 30% o ymgynghoriadau â meddygon teulu yng Nghymru heddiw yn ymwneud ag iechyd meddwl i ryw raddau, ac mae 55% o bobl ifanc 16-25 oed wedi cysylltu â'u meddyg teulu gyda phryder iechyd meddwl.

Mae Plaid Cymru wedi arwain y ffordd o ran cryfhau gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru, gan gynnwys sicrhau canolfannau argyfwng iechyd meddwl newydd i bobl ifanc. Bydd llywodraeth Plaid Cymru yn adeiladu ar hyn.

Er mwyn cefnogi strategaeth iechyd meddwl a llesiant effeithiol, byddwn yn diogelu'r cyllid sydd wedi'i neilltuo i iechyd meddwl yng Nghyllideb Cymru.

Ar ben hynny, byddwn yn:

- **Sefydlu partneriaeth integredig a chydweithredol rhwng y sector statudol a'r trydydd sector i gyflenwi darpariaeth iechyd meddwl.**
- **Hyrwyddo'r model 'dim drws anghywir', gan wneud atgyfeiriadau iechyd meddwl yn haws, a galluogi mwy o bobl i hunanatgyfeirio.**
- **Gweithio tuag at well integreiddiad rhwng gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc (CAMHS) a gwasanaethau iechyd meddwl oedolion (AMHS), er mwyn atal pobl ifanc sy'n cael triniaeth am iechyd meddwl rhag teimlo eu bod 'ar ymyl y dibyn' pan fyddant yn troi'n 18 oed.**
- **Sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau iechyd meddwl amenedigol (PMH) ac ar gyfer y berthynas rhwng rhiant a babi (PIR) ar draws ardaloedd byrddau iechyd.**
- **Datblygu a chryfhau Llwybr Gofal Profedigaeth Cenedlaethol Cymru, a hyrwyddo'r arferion gorau o ran cefnogi rhieni a theuluoedd sydd wedi colli babi.**
- **Ehangu addysg ar atal hunanladdiad, a sefydlu tasglu pwrpasol i fynd i'r afael â'r cynnydd mewn achosion o hunanladdiad yng Nghymru, yn enwedig ymysg dynion.**

### Curo canser

Mae rhoi cymorth gwell a mwy prydlon i'r 1 o bob 2 o bobl yng Nghymru a fydd yn cael diagnosis o ganser yn ystod eu hoes yn un o brif flaenoriaethau Plaid Cymru.

Drwy ein Cynllun Canser newydd i Gymru, byddwn yn:

- **Blaenoriaethu atal. Mae modd atal hyd at 40% o ganserau – byddwn yn helpu pobl i ddeall eu risg o ganser yn well a lleihau'r risg honno.**
- **Rhoi mesurau newydd ar waith i sicrhau bod mwy o ganserau'n cael eu dal yn gynharach, gan gynnwys gwell prosesau sgrinio a hunansgrinio, ac ehangu hyfforddiant arloesol 'ThinkCancer!' i feddygon teulu a nyrsys practis.**
- **Gweithio i sicrhau mynediad teg at wasanaethau canser ym mhob rhan o Gymru. Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno cynlluniau ar gyfer Canolfan Diagnosis Cyflym newydd ym Mhowys – lle mae'n rhaid i gleifion deithio y tu allan i'r rhanbarth i gael asesiad arbenigol ar hyn o bryd oherwydd bod dim gwasanaethau diagnostig ar gael yn lleol.**
- **Sefydlu cronfa i gefnogi cleifion sydd angen teithio am driniaeth arbenigol ar gyfer canserau prin gyda'u costau cludiant a llety.**
- **Rhoi mwy o berchnogaeth a rheolaeth i gleifion dros driniaeth canser, drwy fframwaith Llwybrau Canser Optimaidd newydd ar gyfer Cymru – sy'n nodi'n union yr hyn y gall cleifion canser ei ddisgwyl a'r hyn y dylent ei ddisgwyl ar bob cam o'u triniaeth.**
- **Sicrhau nad yw pobl sy'n goroesi canser yn cael eu diffinio gan eu cyflwr am oes – gan gynnwys deddfu ar gyfer 'Hawl i anghofio' i'w hamddiffyn rhag gwahaniaethu ar ffurf premiymau yswiriant uwch neu anawsterau wrth gael morgais.**
- **Cryfhau'r rheolau cyfreithiol ynghylch caniatâd cleifion ar gyfer llawdriniaeth tiwmor ar yr ymennydd a storio meinwe tiwmor ar yr ymennydd.**

Mae natur gwaith diffoddwyr tân yn golygu eu bod yn fwy tueddol o gael mathau penodol o ganser. Byddwn yn gweithio gyda'r gwasanaethau tân ac achub i sicrhau eu bod yn cael eu hamddiffyn yn well rhag y canserau galwedigaethol hyn – gyda gwell trefniadau diheintio a monitro iechyd.

### Dementia

Mae dementia eisoes yn un o brif achosion marwolaethau yng Nghymru, ac mae Alzheimer's Cymru yn amcangyfrif y bydd 37% yn fwy o bobl yn byw gyda dementia erbyn 2040. Mae ei effaith yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r rhai sy'n cael diagnosis, gan roi baich emosiynol ac ymarferol trwm ar ffrindiau ac anwyliaid.

Bydd llywodraeth Plaid Cymru yn blaenoriaethu diagnosis cynharach, yn ogystal â gwell cefnogaeth i bobl sy'n byw gyda dementia a'r rhai sy'n gofalu amdanynt.

Byddwn yn:

- **Cyflwyno targed cenedlaethol i gael diagnosis dementia cychwynnol o fewn 12 wythnos – gan gyhoeddi data amseroedd aros yn fisol ac adroddiadau cynnydd yn flynyddol.**
- **Ehangu capasiti diagnostig, a sicrhau mynediad prydlon at driniaethau fel atalyddion AChE lle bo hynny'n briodol.**
- **Gweithio i sicrhau asesiadau prydlon o anghenion a darparu hyfforddiant wedi'i deilwra i ofalwyr di-dâl sy'n cefnogi pobl â dementia.**
- **Gwella mynediad at asesiadau cof drwy feddygfeydd ar gyfer pobl dros 70 oed, gan gefnogi'r gwaith o ganfod y cyflwr yn gynharach ac atgyfeirio cleifion yn brydlon.**
- **Cynnal ymgyrchoedd ymwybyddiaeth cenedlaethol i wella dealltwriaeth pobl o symptomau dementia a mynd i'r afael â stigma.**
- **Diogelu mynediad gofalwyr teulu dynodedig i leoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, ar yr un sail â staff iechyd a gofal cymdeithasol cyflogedig.**

### Gwella gofal ar gyfer cyflyrau cymhleth a hirdymor

Gan hyrwyddo gwell mesurau atal, diagnosis cynharach, a gofal a thriniaeth cyflymach sy'n canolbwyntio ar y claf, byddwn yn:

- Ehangu prosesau sgrinio ac ymwybyddiaeth o gyflyrau o bwys, gan gynnwys strôc, clefyd cardiofasgwlaidd a HIV, a sicrhau bod mesurau atal fel PrEP yn cyrraedd mwy o'r bobl sydd eu hangen.
- Sicrhau gofal teg, diogel, ac o ansawdd uchel ym mhob rhan o Gymru, drwy gryfhau llwybrau clinigol cenedlaethol – ar gyfer strôc, offthalmoleg ac iechyd cardiofasgwlaidd – gan wreiddio hawliau cleifion a lleihau amrywiadau rhwng rhanbarthau.
- Mynnu bod holl gynlluniau gofal a thriniaeth GIG Cymru yn dechrau gyda sgwrs 'Beth sy'n bwysig i chi', a bod canlyniadau'r holl brofion yn cael eu cyfleu'n glir i gleifion o fewn pythefnos.
- Gwella systemau a data – gwella cofnodion electronig, cryfhau prosesau monitro sy'n benodol i gyflyrau, a chyfathrebu â chleifion yn glir ac yn hygyrch.
- Datblygu a chryfhau gweithlu'r GIG, drwy gefnogi Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, ehangu prentisiaethau a lleoliadau, a gwella mynediad at staff arbenigol ar draws gwasanaethau menywod, plant a phobl hŷn.
- Cefnogi pobl i fyw'n dda gyda chyflyrau hirdymor, drwy wella mynediad at adsefydlu, ehangu canolfannau gofal sylfaenol amlddisgyblaethol, a hybu cymorth wedi'i deilwra i bobl sydd ag anghenion synhwyraidd, anghenion symudedd, neu anghenion cymhleth.

Byddwn yn adnewyddu Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer HIV, gyda'r bwriad o roi terfyn ar achosion newydd o HIV erbyn 2030.

### Iechyd Deintyddol

Dim ond 44% o bobl yng Nghymru sy'n gallu cael gafael ar ddeintyddiaeth drwy'r GIG ar hyn o bryd, ac mae recriwtio a chadw deintyddion yn fater hollbwysig.

Er mwyn mynd ati i adnewyddu gwasanaethau deintyddol, ac fel cam hollbwysig i sicrhau nad yw fforddiadwyedd yn rhwystro pobl rhag cael gofal iechyd y geg, byddwn yn ailedrych ar gontract deintyddiaeth y GIG, ac yn rhoi dyletswydd newydd ar fyrddau iechyd i asesu anghenion deintyddol lleol a chymryd pob cam rhesymol i sicrhau ac i gynnal lefelau staffio deintyddol digonol i ddiwallu'r anghenion hynny.

Mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n hyfforddi yng Nghymru yn fwy tebygol o aros yng Nghymru. Dyna pam mae Plaid Cymru wedi bod yn cefnogi cynnig Prifysgolion Bangor ac Aberystwyth i agor Ysgol Ddeintyddol newydd ers tro byd, a byddwn yn cefnogi hyn fel llywodraeth.

### Covid – dysgu gwersi ar gyfer Cymru

Mae angen atebion ar deuluoedd sydd wedi colli anwyliaid oherwydd Covid ac maen nhw'n haeddu tawelwch meddwl. Mae'n bwysig dysgu gwersi hanfodol yn sgil pandemig Covid er mwyn paratoi ar gyfer unrhyw argyfyngau iechyd cyhoeddus yn y dyfodol.

Rydyn ni wedi bod yn gyson glir nad yw'r ymchwiliad ar lefel y DU yn mynd yn ddigon pell i ddarparu atebolrwydd am y penderfyniadau a wnaeth Llywodraeth Cymru yn ystod y pandemig, nac i baratoi Cymru ar gyfer pandemig yn y dyfodol.

Oherwydd hyn, yn ystod blwyddyn gyntaf tymor nesaf y Senedd, byddwn yn sefydlu adolygiad o ymateb Cymru i Covid, ei sgil-effeithiau, a'r gwersi ar gyfer y dyfodol, gan ganolbwyntio ar faterion a chwestiynau sy'n benodol i Gymru nad ydynt yn cael sylw yn ymchwiliad y DU gyfan.

# Menter, Arloesedd a Chysylltedd

Nid oes prinder potensial yn economi Cymru.

Mae angen llywodraeth sydd â chynllun i'w ddatgloi.



## Ein gweledigaeth yw Cymru lle nad oes yr un plentyn yn tyfu i fyny yn dlawd, lle mae swyddi teilwng yn talu cyflog byw gwirioneddol, lle mae gan bob person ifanc fynediad at waith, addysg neu hyfforddiant boddhaus, a lle mae ffyniant yn cael ei rannu o fewn ac ar draws ein cymunedau.

Mae gennym gynllun i wireddu'r weledigaeth hon – cynllun a fydd yn adeiladu economi gynaliadwy sy'n gweithio i bawb, ac yn rhoi mwy o arian ym mhocedi pobl ym mhob rhan o Gymru.

Byddwn yn helpu busnesau Cymru i dyfu, arloesi a chreu swyddi.

Byddwn yn gwneud yn siŵr bod pobl yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen arnynt i ffynnu.

A byddwn yn cysylltu ein cymunedau ac yn rhoi mwy o reolaeth iddynt dros eu dyfodol economaidd eu hunain.

### Gosod targedau, mesur cynnydd

Bydd targedau clir yn cyd-fynd â'n gweledigaeth economaidd glir ac yn sail iddi, gan gynnwys ar gyfer y canlynol:

- Perchnogaeth busnesau yng Nghymru – gwneud yn siŵr bod mwy o'n heconomi dan berchnogaeth a rheolaeth Gymreig, a bod elw'n aros yng Nghymru.
- Swyddi a'r gweithlu – cadw golwg ar ansawdd a nifer y swyddi.
- Ymchwil ac arloesedd – cefnogi syniadau a thechnolegau newydd sy'n gwella cynhyrchiant.
- Cau'r bwlch rhwng rhanbarthau – gwneud yn siŵr bod pob rhan o Gymru yn elwa ar gynnydd economaidd.

Byddwn yn sefydlu Comisiwn Cyllidol ac Economaidd newydd i'n helpu i osod targedau, casglu a phrosesu data perthnasol, a mesur cynnydd.

Bydd hyn yn gwneud llywodraeth Plaid Cymru yn fwy atebol am ei phenderfyniadau economaidd ac yn helpu i sicrhau bod polisi economaidd wir yn gwneud yr hyn mae'n addo ei wneud, gan gynnwys cynyddu nifer y busnesau mewn dwylo Cymreig a chyfran yr elw sy'n cael ei chadw yng Nghymru, darparu gwaith teilwng a swyddi da, gwella llesiant a safonau byw, a lledaenu ffyniant i bob rhan o Gymru.

### Cefnogi busnesau Cymru a chreu ffyniant ym mhob rhan o Gymru

Mae arbenigwyr ac arweinwyr busnes yn cytuno bod angen asiantaeth datblygu hyd braich newydd i hyrwyddo brand Cymru a helpu busnesau Cymru i dyfu, arloesi a masnachu'n rhyngwladol, sicrhau mewnfuddsoddiad, a chynyddu nifer y swyddi cynaliadwy o ansawdd da sy'n talu'n dda.

Byddwn yn creu Asiantaeth Datblygu Cenedlaethol newydd i Gymru, sy'n cael ei harwain gan fusnesau a'i rhedeg hyd braich oddi wrth Lywodraeth Cymru.

Bydd yr Asiantaeth yn:

- Darparu siop-un-stop ar gyfer cymorth i fusnesau – gan roi cyngor ac arweiniad arbenigol, bod yn brif ryngwyneb rhwng busnesau Cymru a marchnadoedd rhyngwladol, a chyfeirio busnesau at y cyllid sydd ei angen arnynt i dyfu a chynllunio ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys gan Fanc Datblygu Cymru.
- Rhoi blaenoriaeth i gefnogi a thyfu busnesau bach a chanolig dan berchnogaeth Gymreig, sef asgwrn cefn ein heconomi, a chadw'r rhai sy'n llwyddo mewn dwylo Cymreig.
- Cydlynu twf busnesau rhanbarthol – gan weithio i nodi ac adeiladu ar gryfderau ein gwahanol economïau rhanbarthol a hybu ffyniant ym mhob rhan o Gymru.

- Datblygu a chynnal dealltwriaeth glir o anghenion economi Cymru fel y maen nhw'n newid, gan helpu busnesau Cymru i ymateb i heriau a chyfleoedd newydd – gan gynnwys mewn sectorau twf fel **ynni adnewyddadwy a thechnoleg werdd, deallusrwydd artiffisial a digidol, technolegau meddygol, systemau bwyd a thechnoleg amaethyddol,** a'r **diwydiannau creadigol.**
- Sicrhau mewnfuddsoddiad sy'n datblygu cadwyni cyflenwi lleol, yn cynyddu cynhyrchiant ac yn cefnogi twf busnesau domestig.
- Adeiladu ar waith Arfor o ran hybu twf busnes a datblygiad rhanbarthol sy'n sail i hyfywedd y Gymraeg mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn y Gogledd a'r Gorllewin.

Rydyn ni'n gwybod bod busnesau canolig (h.y. y rhai sy'n cyflogi rhwng 50 a 249 o bobl) yn tueddu i fod yn fwy cydnerth ac yn fwy tebygol o ailfuddsoddi yn eu cymunedau, o adeiladu cadwyni cyflenwi lleol mwy cadarn, ac o gynnig swyddi gwell dros y tymor hirach – felly byddwn yn ceisio cynyddu nifer y busnesau hyn yng Nghymru mewn ffordd gynaliadwy.

Byddwn yn diwygio'r Banc Datblygu a'r cynnyrch ariannol y mae'n ei gynnig i sicrhau ei fod mewn sefyllfa well i gefnogi'r twf hwn. Byddwn yn sicrhau bod cyllid gan Fanc Datblygu Cymru yn hybu ac yn gwreiddio gwaith teg a Chyflog Byw Gwirioneddol.



## Y sgiliau sydd eu hangen ar Gymru

Mae ysgolion, colegau, darparwyr hyfforddiant a chyflogwyr i gyd yn cytuno nad oes gennym ddealltwriaeth glir ar hyn o bryd o ofynion sgiliau Cymru a pha fathau o gyrsiau neu hyfforddiant y dylid eu blaenoriaethu, gan ba ddarparwyr, ac ymhle, er mwyn cyflenwi pobl â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i fanteisio ar gyfleoedd sy'n dod i'r amlwg ym marchnad lafur Cymru.

Byddwn yn cynnal archwiliad cenedlaethol cynhwysfawr o sgiliau fel sail i strategaeth newydd i Gymru ar gyfer sgiliau, hyfforddiant a datblygu'r gweithlu.

Bydd hyn yn rhoi dealltwriaeth gliriach i ni o anghenion sgiliau yn y dyfodol, gan arwain y gwaith o ddatblygu cymwysterau galwedigaethol, a chynllunio ac ariannu rhaglenni hyfforddi – gan gynnwys prentisiaethau – fel bod y rhain i gyd yn gweddu'n well i ddyheadau dysgwyr ac i ofynion economi Cymru yn y dyfodol.

Byddwn yn sicrhau bod gan bob person ifanc yng Nghymru fynediad ystyrlon at gyfleoedd o ansawdd uchel ar gyfer addysg, hyfforddiant a chyflogaeth sy'n cyd-fynd â'i ddyheadau ac anghenion cyflogwyr Cymru.

I fynd i'r afael â natur dameidiog y system sgiliau bresennol a'i gwneud yn haws ac yn symlach i bobl gael gafael ar gyfleoedd addysg a hyfforddiant priodol, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Gwella mynediad at gyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd, a chynyddu ymwybyddiaeth o'r ystod lawn o opsiynau ôl-16 sydd ar gael i ddysgwyr drwy'r chweched dosbarth a cholegau.
- Mynnu bod awdurdodau lleol, ysgolion a cholegau yn cydweithio'n well i sicrhau bod pob dysgwr yn gallu dewis y llwybr sgiliau sy'n gweddu orau.
- Gwreiddio cydweithio rhwng ysgolion, colegau a chyflogwyr i wneud yn siŵr bod mwy o gymwysterau galwedigaethol a chyfleoedd hyfforddi ar gael, a bod mwy yn manteisio arnynt.

Byddwn yn defnyddio ffrydiau ariannu presennol yn well, gan gynnwys ar gyfer Bargeinion Twf Dinesig a Rhanbarthol – sy'n tanberfformio ar hyn o bryd o ran cyflawni yn erbyn eu targedau sgiliau, hyfforddiant a swyddi – i gefnogi prentisiaethau'n well a darparu mwy o gyfleoedd, a gwell cyfleoedd, ar gyfer hyfforddiant galwedigaethol a hyfforddiant seiliedig ar waith. Byddwn hefyd yn sicrhau bod Cronfa Twf Lleol Cymru yn cefnogi sgiliau a hyfforddiant yn effeithiol.

### Cefnogi busnesau bach ac adfywio'r stryd fawr

Mae busnesau manwerthu a lletygarwch llwyddiannus yn rhan annatod o ganol ein trefi – y siopau, y bariau, y bwytai a'r caffis sydd, hyd yn oed mewn oes o siopa ar-lein, yn gwneud ein strydoedd mawr yn lleoedd bywiog ar gyfer gweithio a chymdeithasu.

Ond o ganlyniad i ardrethi busnes uchel, mae llawer o fusnesau'r stryd fawr yn ei chael yn anodd cadw eu drysau ar agor.

Bydd llywodraeth Plaid Cymru yn lleihau trethi busnes i fusnesau yng nghanol ein trefi – gan leihau ardrethi'r stryd fawr yn ogystal â sicrhau bod siopau y tu allan i drefi yn talu eu cyfran deg.

Byddwn yn gweithio i ddiogelu ac adfer gwasanaethau bancio wyneb yn wyneb ar ein strydoedd mawr, gan gynnwys drwy archwilio opsiynau i ddarparu banc cymunedol newydd.

A byddwn yn ei gwneud yn haws troi adeiladau gwag ar y stryd fawr a mannau uwchben siopau yn breswylfeydd.

### Cadw mwy o wariant cyhoeddus yng Nghymru

Mae caffael blaengar – dyfarnu contractau cyhoeddus mewn ffordd sy'n targedu busnesau lleol yn fwriadol ac yn ailddosbarthu arian y cyhoedd drwyddynt, wedi'i dreialu'n llwyddiannus mewn lleoedd fel Preston yn Swydd Gaerhirfryn – yn gallu trawsnewid economïau rhanbarthol, gwneud busnesau bach a chanolig yn fwy cystadleuol a phroffidiol, a helpu i greu degau o filoedd o swyddi sy'n talu'n dda.

Mae cyrff cyhoeddus Cymru yn gwario dros £8bn y flwyddyn yn caffael nwyddau a gwasanaethau – bron i draean o gyfanswm gwariant cyhoeddus Cymru. Ar hyn o bryd, mae tua 55% o hyn yn mynd i gyflenwyr yng Nghymru, o'i gymharu â'r 79% o gyfanswm y gwariant caffael gan sefydliadau angori allweddol yn Preston sydd wedi'i gadw'n lleol drwy Fodel Preston.

Drwy fabwysiadu agwedd newydd a phenderfynol at gaffael cyhoeddus blaengar, byddwn yn:

- **Ceisio cynyddu faint sy'n cael ei wario ar gaffael nwyddau a gwasanaethau gan gyflenwyr yng Nghymru o 55% ar hyn o bryd i o leiaf 70% o gyfanswm gwariant caffael cyhoeddus Cymru – gan greu dros 35,000 o swyddi.**
- **Sicrhau bod cynigion contract yn cael eu sgorio'n effeithiol nid yn unig ar y llinell waelod, ond ar yr effaith ar y gymuned, ar werth cymdeithasol ac ar sut maen nhw'n meithrin gallu busnesau yng Nghymru ac yn datblygu cadwyni cyflenwi lleol.**
- **Adolygu'r ffordd mae 'lleol' yn cael ei fesur mewn polisïau caffael cyhoeddus, a gwneud yn siŵr ei fod yn adlewyrchu'n fwy cywir pryd a ble mae arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ystyrlon yng Nghymru.**
- **Ei gwneud yn haws i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru gynnig am gontractau cyhoeddus, a gweithio gyda'i gilydd i gyflawni rhai mwy.**
- **Gweithio gyda phartneriaid mewn llywodraeth leol i hyfforddi cenhedlaeth newydd o swyddogion caffael ar yr arferion gorau ym maes caffael arloesol.**

## Digidol

Fel rhan o Strategaeth Ddigidol newydd i Gymru, bydd llywodraeth Plaid Cymru yn cefnogi digideiddio ac arloesi yn economi Cymru, ac yn hybu technoleg ddigidol fel sector twf allweddol, gan gynnwys drwy wneud y canlynol:

- **Sicrhau bod gan ein Hasiantaeth Datblygu Cenedlaethol newydd yr arbenigedd perthnasol sydd ei angen i roi cymorth wedi'i deilwra i fusnesau yn y sector – gan gynnwys helpu busnesau newydd i dyfu'n gynaliadwy a meithrin cysylltiadau arloesol rhwng prifysgolion, datblygwyr technoleg a busnesau yng Nghymru.**
- **Caffael mwy o wasanaethau digidol – gan gynnwys i gefnogi addysg ddigidol – yng Nghymru.**
- **Cyflenwi gweithwyr yng Nghymru â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i fanteisio ar dwf ac arloesedd digidol, fel rhan o strategaeth sgiliau genedlaethol ehangach.**
- **Cefnogi datblygiad parhaus clwstwr lled-ddargludyddion y De a sicrhau'r manteision llawn o gampysau data ar gyfer cadwyni cyflenwi lleol, gwaith datblygu sgiliau, a chyfleoedd swyddi o ansawdd uchel.**
- **Annog y sectorau cyhoeddus a phreifat i fabwysiadu deallusrwydd artiffisial (AI) a thechnolegau newydd mewn modd moesegol, arloesol, dan arweiniad gweithwyr, er mwyn gwella cynhyrchiant, cystadleurwydd a gwasanaethau, gan ddiogelu hawliau gweithwyr ar yr un pryd.**

Byddwn yn comisiynu Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru i gynnal astudiaeth o seilwaith digidol ac i wneud argymhellion annibynnol ar sut dylid ei ddatblygu yn y tymor canolig i'r tymor hir er mwyn cefnogi datblygiadau digidol yng Nghymru a hybu cynlluniau tymor hir ar gyfer gwella cysylltedd digidol.

### Cwblhau'r gwaith o gyflwyno band eang cyflym iawn

Mae hyd at 30,000 o adeiladau yng Nghymru nad ydynt ar hyn o bryd yn gallu cael mynediad at gyflymderau rhyngrwyd dros 30 Mbps, ond sydd y tu hwnt i gyrhaeddiad buddsoddiad gan naill ai'r sector preifat neu Lywodraeth y DU.

Byddwn yn buddsoddi lle mae bylchau mewn cynlluniau ar lefel fasnachol a chynlluniau'r sector cyhoeddus ar lefel y DU – gan gynnwys y Prosiect Gigabit – i sicrhau bod gan bob cartref a busnes yng Nghymru fynediad at fand eang cyflym iawn o leiaf (cyflymderau rhwng 30 a 100 Mbps).

Byddwn hefyd yn cynyddu ymwybyddiaeth o dariffau cymdeithasol ar gyfer y rhai sy'n cael budd-daliadau penodol, ac yn galw am gofrestru'r rhai sy'n gymwys ar eu cyfer yn awtomatig fel ffordd o fynd i'r afael â thlodi digidol.

## Ffermio, bwyd a'r economi wledig

Rydyn ni'n cydnabod rôl hanfodol ffermio a'r sector bwyd a diod ehangach yn economi Cymru. Mae ffermwyr Cymru yn cynhyrchu bwyd cynaliadwy, maethlon o ansawdd uchel, ac mae ein busnesau bwyd a diod yn troi'r cynnyrch o safon fyd-eang yn amrywiaeth helaeth o gynnyrch sy'n cael ei fwynhau ledled Cymru a'i allforio dramor, gan greu swyddi ac ychwanegu gwerth.

Er mwyn cefnogi ffermio, ein sector bwyd a diod, a'r economi wledig ehangach, byddwn yn:

- **Cefnogi'r sector amaethyddol mewn ffordd sy'n ategu cynaliadwyedd hirdymor busnesau ffermio.**
- **Darparu cymorth busnes wedi'i deilwra ar gyfer amaethyddiaeth, bwyd a diod drwy'r Asiantaeth Datblygu Cenedlaethol newydd, gan hybu arloesedd a thwf busnes yn y sector, a chefnogi prosesau olyniaeth sy'n sicrhau bod busnesau'n aros mewn dwylo Cymreig.**
- **Datblygu Strategaeth Fwyd genedlaethol newydd i Gymru i gryfhau cadwyni cyflenwi bwyd, gwella diogelwch bwyd, a defnyddio caffael cyhoeddus yn well i gefnogi cynhyrchwyr bwyd a diod Cymru.**
- **Gweithredu Strategaeth Datblygu Gwledig, gan gynnwys mesurau wedi'u targedu i fynd i'r afael â'r heriau penodol sy'n wynebu cefn gwlad Cymru a goresgyn y rhwystrau strwythurol i dwf yn yr economi wledig.**

## Hybu twristiaeth gynaliadwy

Mae Plaid Cymru yn cydnabod pwysigrwydd y diwydiant twristiaeth i Gymru. Bydd llywodraeth Plaid Cymru yn hyrwyddo Cymru fel cyrchfan twristiaeth o'r radd flaenaf, gan ganolbwyntio ar sicrhau bod twristiaeth yn gweithio'n gynaliadwy i gymunedau Cymru. Byddwn yn adolygu rôl Croeso Cymru ac yn ystyried ai dyma'r model gorau i gefnogi twristiaeth a hyrwyddo gyrfaoedd yn y diwydiant.

Byddwn yn hybu twristiaeth sy'n darparu'r budd mwyaf posib i'n pobl, ein hamgylchedd, ein hiaith a'n diwylliant – gan adeiladu ar yr arferion gorau fel *Cynllun Strategol Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035*, a gweithio i gynyddu perchnogaeth leol yn y sector.

Bydd trethi busnes is yn helpu busnesau hamdden a lletygarwch y stryd fawr, gan gynnwys tafarndai, bwytai a chaffis. Byddwn yn parhau i adolygu'r trothwy 182 diwrnod ar gyfer llety gwyliau, ac yn creu eithriadau newydd clir a rhesymol lle na fyddai'r llety hwnnw'n gymwys i fod yn gartref preifat.

Byddwn hefyd yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod unrhyw ardollau ymwelwyr yn cael eu defnyddio'n effeithiol i wella gwasanaethau cyhoeddus er budd cymunedau lleol, ac i wella'r cynnig i dwristiaid.

## Creu cyfoeth cymunedol

Ar hyd a lled Cymru – o Flaenau Gwent i Flaenau Ffestiniog – ceir enghreifftiau o gymunedau'n cymryd rheolaeth dros eu dyfodol economaidd eu hunain drwy sefydlu mentrau cymdeithasol, busnesau sy'n eiddo i'r gymuned, a mentrau cydweithredol.

Gan eu bod wedi'u gwreiddio yn eu cymunedau, mae'r busnesau hyn yn gallu bod yn fwy cynaliadwy ac maen nhw'n dueddol o allu gwrthsefyll ergydion economaidd yn well. Ydyn, maen nhw'n ceisio gwneud elw, ond mae cyfrifoldeb cymdeithasol a mynd i'r afael â phroblemau lleol yr un mor bwysig iddyn nhw, ac maen nhw'n ailgylchu cyfoeth yn ein pentrefi, ein trefi a'n dinasoedd.

I wella'r cymorth i gymunedau er mwyn cymryd perchnogaeth dros eu heconomïau lleol, byddwn yn deddfu ar gyfer hawl y gymuned i brynu. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i'r gymuned gymryd perchnogaeth dros asedau lleol gwerthfawr pan fyddant ar werth, gan gynnwys busnesau fel tafarndai, siopau a chaffis, yn ogystal ag adeiladau a thir.

Byddwn yn darparu cymorth mwy arbenigol i greu, tyfu a chynnal busnesau cydweithredol newydd, busnesau cymdeithasol newydd a busnesau newydd sy'n eiddo i'r gweithwyr, ac yn ei gwneud yn haws iddynt gael cyllid drwy Fanc Datblygu Cymru.

## Cysylltu Cymru

Bydd llywodraeth Plaid Cymru yn gwneud Cymru'n genedl sydd wedi'i chysylltu'n well.

Mae cysylltiadau gwell rhwng pobl, busnesau a chymunedau yng Nghymru yn hollbwysig er mwyn datgloi mwy o botensial economaidd Cymru. Yn y pen draw, mae gwella cysylltedd yn gwella safonau byw – gan ei gwneud yn haws i bobl gael mynediad at deulu a ffrindiau, addysg a hyfforddiant, gwaith ac apwyntiadau, a siopau a gwasanaethau.

Byddwn yn canolbwyntio ar greu rhwydwaith trafnidiaeth integredig i Gymru sy'n cael ei redeg ar gyfer teithwyr, nid cyfranddalwyr, ac sy'n fforddiadwy ac yn gynaliadwy – gydag amserlenni synhwyrol, prisiau tecach a thocynnau clyfar, ac yn sicrhau bod y rhwydwaith yn integreiddio rheilffyrdd, bysiau a theithio llesol yn llawn.

Gan ganolbwyntio'n glir ar hygyrchedd a diogelwch, byddwn yn sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus yn cludo teithwyr yn ddiogel ac yn ddibynadwy i ben eu taith.

Byddwn yn gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru (TrC) i sicrhau bod mwy o'i gyllid yn cael ei ddefnyddio i ddarparu gwell seilwaith a gwasanaethau trafnidiaeth ar y rheng flaen.

Ac fel rhan annatod o'n dull newydd o gynllunio strategol a gofodol, byddwn yn cyflwyno cynlluniau sy'n canolbwyntio mwy ar drafnidiaeth, gan wneud yn siŵr bod datblygiadau newydd yn cyd-fynd â rhwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio.



I gefnogi hyn, byddwn yn gweithredu fframwaith newydd ar gyfer gwneud penderfyniadau ar seilwaith trafnidiaeth – un sy'n targedu adnoddau at bortffolio mwy dichonadwy a graddol o brosiectau. Bydd y fframwaith yn asesu costau cymharol a manteision economaidd cynlluniau arfaethedig, gan sicrhau triniaeth deg i bob rhan o Gymru, gwella canlyniadau amgylcheddol ac iechyd, a gwella perfformiad a dibynadwyedd ar draws y rhwydwaith trafnidiaeth.

Bydd y fframwaith hwn yn berthnasol i'r holl seilwaith trafnidiaeth, gan gynnwys ffyrdd, a bydd yn sail i adolygiad o'r meini prawf presennol ar gyfer gwneud penderfyniadau ar ddatblygiadau ffyrdd yn y dyfodol.

Byddwn yn hybu diogelwch ar y ffyrdd ac yn sicrhau bod ein ffyrdd yn cael eu cynnal a'u cadw'n ddiogel. Hefyd, rydyn ni'n glir bod mawr angen adnewyddu'r broses o ddatblygu atebion i wella cadernid cysylltiadau trafnidiaeth ar draws y Fenai a mynd i'r afael â thagfeydd ar yr M4 o amgylch Casnewydd.

Byddwn yn gwreiddio egwyddorion dylunio strydoedd cynhwysol mewn safonau a chanllawiau perthnasol ar gyfer dylunio a darparu seilwaith trafnidiaeth newydd.

**Y rheilffyrdd**

Nid yw seilwaith rheilffyrdd wedi'i ddatganoli, ac er bod Cymru'n cynrychioli tua 5% o gyfanswm poblogaeth y DU, mae wedi cael llai na 2% o gyllid gwella rheilffyrdd y DU yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Mae prosiectau rheilffyrdd mawr fel HS2, Pwerdy Gogledd Lloegr ac East-West Rail i gyd wedi cael eu dynodi fel prosiectau 'Cymru a Lloegr', er nad oes un centimetr o gledrau'n cael ei osod yng Nghymru. Dydyn ni ddim yn cael unrhyw gyllid canlyniadol yn sgil y prosiectau hyn, yn wahanol i'r Alban a Gogledd Iwerddon.

Dyma Ladrad Mawr y Trên yng Nghymru, ac mae'n golygu ei bod yn heriol iawn buddsoddi yn rheilffyrdd Cymru a'r rhwydwaith trafnidiaeth ehangach.

Byddwn yn brwydro dros y cyllid rheilffyrdd sy'n ddyledus i ni ac sydd ei angen arnom ni i fuddsoddi yn rheilffyrdd Cymru – gan gynnwys £4bn mewn cyllid canlyniadol yn sgil HS2 – a dros ddatganoli'r rheilffyrdd.

Ar yr un pryd, byddwn yn cyflwyno piblinell newydd o brosiectau rheilffyrdd tymor byr, tymor canolig a thymor hir yng Nghymru. Byddwn yn sicrhau bod seilwaith rheilffyrdd

newydd yn cael ei ddylunio a'i ddarparu yn y ffordd fwyaf hygyrch bosib, a'i fod yn integreiddio'n llawn â gwasanaethau bysiau a dewisiadau teithio llesol.

Er ein bod yn gwybod na welwn ni'r math o drawsnewid sydd wir ei angen ar y rheilffyrdd yng Nghymru heb i ni gael ein cyfran deg o'r cyllid, mae ein blaenoriaethau mwyaf uniongyrchol ar gyfer y rheilffyrdd yn glir.

Mae'r gwaith ar gyflawni'r blaenoriaethau hyn yn gallu dechrau nawr, a bydd yn dechrau nawr, a byddwn yn gwneud yn siŵr bod popeth yn ei le i'w gyflymu ar ôl i ni sicrhau'r fargen well a thecach ar seilwaith rheilffyrdd y mae Cymru'n ei haeddu.

Dros dymor nesaf y Senedd, bydd y biblinell hon o brosiectau rheilffyrdd yn cynnwys:

- **Gwasanaethau bob dydd gwell ac amlach yn y De-ddwyrain, gan gynnwys cynyddu pa mor aml mae gwasanaethau'n rhedeg i 4 trên yr awr rhwng Caerdydd a Blaenau'r Cymoedd drwy Bontypridd a Chaerffili, a 2 drên yr awr ar gangen Maesteg a Llinell Bro Morgannwg y tu hwnt i'r Barri.**
- **Cam 2 Cledrau Croesi Caerdydd – gan gynnwys galluogi 4 trên yr awr ar Linellau Dinas Caerdydd a Choryton, gwaith trydaneiddio a threnau tram ar gyfer Penarth, cyswllt gorsafoedd a gorsafoedd ychwanegol.**
- **Datblygu parhaus ar Brif Linell De Cymru, gan gynnwys trydaneiddio'n raddol a gwasanaethau newydd, gan leihau'r amser teithio rhwng Caerfyrddin a Llundain.**
- **Cynyddu'r capasiti yn y Gogledd – gan adeiladu ar wasanaethau uniongyrchol newydd rhwng Llandudno a Lerpwl gyda gwelliannau i Brif Linell Gogledd Cymru o Gaer i Gaergybi, a chynyddu pa mor aml mae gwasanaethau'n rhedeg rhwng Wrecsam a Chaer.**
- **Uwchraddio signalau a dolenni pasio newydd i gynyddu capasiti ar Linell y Gororau.**

I sicrhau bod pob rhan o Gymru yn cael ei thrin yn deg, ac i gryfhau cysylltedd yng Nghymru yn ogystal â chysylltiadau trawsffiniol, byddwn hefyd yn:

- **Datblygu cynlluniau i gwblhau Cledrau Croesi Caerdydd ac i ehangu'r Metro ymhellach yn y De-ddwyrain.**
- **Cyflwyno cynlluniau ar gyfer Cam 1 Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru – gan ddod â'r Metro'n fyw gydag ymyriadau rheilffyrdd penodol (ar amlder gwasanaethau, cyflymder rheilffyrdd a gorsafoedd) a fydd yn gwella cymudo o ddydd i ddydd a mynediad at wasanaethau yn y De-orllewin.**
- **Datblygu opsiynau ar gyfer coridor rheilffordd newydd yn y Gogledd-orllewin, ac ar gyfer cysylltedd rheilffordd rhwng y Gogledd a'r De.**
- **Archwilio dichonoldeb cysylltiadau rheilffyrdd newydd yn y Gorllewin, gan gynnwys ailagor Llinell Dyffryn Aman.**

Byddwn yn gweithio gyda TrC i ddatblygu strwythur prisiau newydd, symlach a thecach, a chynllun capio prisiau ar gyfer teithiau trên yng Nghymru.

**Bysiau**
Bydd llywodraeth Plaid Cymru yn parhau i ddarparu tocynnau bws sengl am £1 a thocynnau diwrnod am £3 i blant a phobl ifanc rhwng 5 a 21 oed. Byddwn hefyd yn cadw tocynnau bws am ddim i bobl dros 60 oed a phobl anabl.

Fel rhan o ddarparu system drafnidiaeth gwbl integredig, byddwn yn ehangu tocynnau tap ymlaen, tap ymadael, talu wrth fynd gyda chapiau prisiau dyddiol ar draws bysiau a threnau, gan wneud teithio'n symlach ac yn fwy fforddiadwy.

Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol a gweithredwyr i fanteisio i'r eithaf ar ddiwygio gwasanaethau bysiau – i sicrhau bod masnachfreinio wir yn darparu gwasanaethau gwell, mwy hygyrch a fforddiadwy.

Byddwn yn sicrhau:

- Bod amserlenni bysiau yn cyd-fynd â'i gilydd ac â gwasanaethau rheilffyrdd ar draws y rhwydwaith, fel rhan o'r gwaith o adeiladu system drafnidiaeth gwbl integredig i Gymru.
- Bod cwmnïau bach a chanolig mewn sefyllfa dda i gynnig am gontractau bysiau newydd.
- Bod llwybrau bysiau newydd yn cael eu dylunio mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r angen i ddarparu cysylltiadau trafnidiaeth cynaliadwy i ysgolion, colegau, gweithleoedd a gwasanaethau iechyd a gofal.
- Bod llais ein pobl a'n cymunedau yn cael ei adlewyrchu go iawn yn y gwaith o ddylunio a darparu gwasanaethau bysiau.
- Bod y flaenoriaeth i fysiau'n cael ei hymestyn a thagfeydd yn cael eu lleihau ar ffyrdd presennol, a bod tai a gweithleoedd newydd yn cael eu cynllunio'n well ar sail mynediad at fysiau, a llwybrau cerdded a beicio.

Rydyn ni hefyd wedi ymrwymo i wella hygyrchedd a diogelwch safleoedd bysiau. Mae hyn yn cynnwys goleuadau gwell, croesfannau sebra mewn lleoliadau da, ac uwchraddio seilwaith. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod y gwelliannau hyn yn cael eu cyflawni'n effeithiol.

Byddwn yn darparu gwasanaeth bws Gogledd i'r De cyflym rhwng Bangor a Chaerfyrddin – gan dorri 90 munud oddi ar amseroedd teithio a chysylltu â gwasanaethau trên presennol i barhau â'r daith.

**Teithio llesol**
Bydd llywodraeth Plaid Cymru yn sicrhau bod teithio llesol wrth galon system drafnidiaeth Cymru, gan hybu iechyd da a sicrhau llwybrau diogel a hygyrch i bobl gerdded, beicio ac olwyno.

Byddwn yn:

- Sicrhau buddsoddiad cyhoeddus strategol ac effeithiol mewn teithio llesol, gan fesur llwyddiant ar sail newid ymddygiad ac ansawdd rhwydweithiau, nid ar sail lefelau gwariant yn unig.
- Rhoi canllawiau statudol clir i awdurdodau lleol, gan nodi blaenoriaethau, disgwyliadau a chanlyniadau ar gyfer teithio llesol.
- Gwreiddio teithio llesol ar draws y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau bysiau, ffyrdd a rheilffyrdd.
- Cefnogi mwy o fuddsoddiad mewn cynlluniau llogi beiciau mewn trefi a dinasoedd ledled Cymru.

**Ceir a cherbydau trydan**
Gan gydnabod y bydd llawer o bobl mewn rhannau o gefn gwlad Cymru yn enwedig yn parhau i ddibynnu ar geir, a bod costau tanwydd yn yr ardaloedd hyn yn anghymesur o uchel yn aml, byddwn yn parhau i alw ar Lywodraeth y DU i ymestyn ei Chynllun Rhyddhad Treth Tanwydd Gwledig i Gymru.

Mae prisiau is ar gyfer cerbydau trydan newydd ac ail-law yn golygu bod cyfle i gynyddu'r nifer sy'n eu defnyddio, os yw'r seilwaith cywir yn ei le.

Byddwn yn cyflwyno strategaeth gwefru cerbydau trydan newydd i Gymru a chynllun seilwaith wedi'i ddiweddaru ar gyfer trydaneiddio cerbydau. Byddwn yn ei gwneud yn haws targedu buddsoddiad i ehangu'r seilwaith gwefru mewn cymunedau sy'n cael eu gwasanaethu'n wael gan gynlluniau presennol ar gyfer y rhwydwaith gwefru, mewn ardaloedd gwledig yn bennaf.

**Porthladdoedd a theithiau awyr**
Mae ein porthladdoedd yn chwarae rhan allweddol mewn masnach, teithio a thwf economaidd. Gan bwyso am ddatganoli'r gwaith o reoleiddio porthladdoedd yn llawn i Lywodraeth Cymru, byddwn yn gweithio gydag awdurdodau porthladdoedd, gweithredwyr llongau fferi, cludwyr a rhanddeiliaid eraill i gryfhau cadernid porthladdoedd Cymru a chynyddu eu rôl yng nghadwyni cyflenwi Ewrop.

Byddwn yn sicrhau bod porthladdoedd Cymru mewn sefyllfa dda i elwa ar ddiwydiannau newydd, gan gynnwys gwynt arnofiol ar y môr a'r farchnad mordeithiau, sy'n tyfu.

Byddwn yn gweithio i sicrhau'r manteision gorau posib i Borthladd Rhydd Ynys Môn a'r Porthladd Rhydd Celtaidd, gan ddiogelu swyddi o ansawdd uchel a safonau gwaith teilwng ar yr un pryd.

Mae maes awyr rhyngwladol hyfyw yn hanfodol ar gyfer cysylltedd byd-eang Cymru. Byddwn yn mabwysiadu dull strategol o sicrhau cynaliadwyedd hirdymor Maes Awyr Caerdydd ac yn ceisio datganoli'r Doll Teithwyr Awyr.



# Y Blynyddoedd Cynnar ac Addysg

Addysg dda yw'r dechrau gorau y gallwn ei roi i'n plant ac i'n pobl ifanc, a dyma'r sylfaen y byddwn yn adeiladu dyfodol ein cenedl arni.

O'r crud i fyd gwaith a'r tu hwnt, byddwn yn canolbwyntio ar gael y pethau hanfodol yn iawn, ac yn darparu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar bawb i lwyddo.



## Mae addysg wrth galon ein huchelgais ar gyfer Cymru – dyma'r allwedd i ddatgloi cyfleoedd newydd a gwell, ac i ddatblygu Cymru i fod yn wlad fwy hyderus, arloesol a chynhyrchiol, fel y gwyddom sy'n bosib.

Rydyn ni'n gwybod pa mor bwysig yw'r blynyddoedd cynnar o ran gosod y sylfeini ar gyfer llesiant a datblygiad gydol oes. Bydd llywodraeth Plaid Cymru yn ehangu mynediad at ofal plant o ansawdd, er mwyn rhoi'r dechrau gorau posib i bob plentyn, cefnogi teuluoedd gyda biliau'r cartref, a chreu cyfleoedd newydd i rieni ddychwelyd i'r gwaith.

Byddwn yn codi'r safonau addysgol yn ein hysgolion, ac yn grymuso ein gweithlu addysg ymroddedig i wneud yr hyn maen nhw'n ei wneud orau – addysgu.

Byddwn yn sicrhau bod ein holl ddysgwyr yn gallu cael mynediad at y llwybr sy'n iawn iddyn nhw, gan wneud yn siŵr bod addysg alwedigaethol a thechnegol yn cael yr un statws â llwybrau academaidd.

A byddwn yn gosod ein prifysgolion ar sylfeini newydd sy'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.



### Cynnig gofal plant newydd i Gymru

Mae'r dystiolaeth yn glir – mae buddsoddi mewn gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar o ansawdd da yn talu ar ei ganfed yn y tymor hir. Mae'n rhoi dechrau da i'n plant, ac yn rhoi mwy o ryddid i rieni ddychwelyd i'r gwaith, cynyddu eu horiau, neu ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant. Caiff y manteision eu teimlo yn y tymor byr a'r tymor hir.

Gyda biliau gofal yng Nghymru yn uwch nag yn unman arall yn y DU ar hyn o bryd, mae miloedd o rieni'n gweithio dim ond i dalu am gost gynyddol gofal plant, ac mae llawer yn methu fforddio gofal o gwbl.

Ar ben hyn, mae'r broses o wneud cais am gynlluniau gofal plant yn aml yn ddryslyd ac yn rhy gymhleth i deuluoedd.

Bydd llywodraeth Plaid Cymru yn darparu cynnig gofal plant newydd trawsnewidiol i bob plentyn rhwng 9 mis a 4 blwydd oed.

Bydd ein cynnig newydd yn:

- **Cynyddu'n raddol i 20 awr o ofal yr wythnos ar gyfer pob plentyn rhwng 9 mis a 4 blwydd oed, am 48 wythnos y flwyddyn, gan anrhydeddu'r cynnig 30 awr presennol ar gyfer plant 3 a 4 oed y mae eu rhieni mewn gwaith, addysg neu hyfforddiant.**
- **Cyflwyno un system ymgeisio symlach er mwyn i deuluoedd allu ei defnyddio'n hawdd.**
- **Edrych ar ffyrdd o wella mynediad at ofal plant i rieni sy'n gweithio oriau afreolaidd ac sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, gan gynnwys ehangu'r ddarpariaeth drwy warchodwyr plant.**
- **Cefnogi ac ehangu gofal plant cyfrwng Cymraeg, gan gryfhau'r llwybr o'r blynyddoedd cynnar i addysg cyfrwng Cymraeg.**

Wrth i ni gyflwyno'r cynnig newydd hwn yn ofalus fesul cam, byddwn yn gweithio'n agos gyda darparwyr gofal plant i feithrin capasiti ar draws y sector a thyfu'r gweithlu er mwyn ymdopi â'r ehangiad.

Er mwyn sicrhau cyflog teilwng i weithwyr a chynaliadwyedd ariannol i fusnesau yn y sector, byddwn yn gosod cyfraddau teg fesul awr ar gyfer cyllid sy'n cael ei hawlio, ac yn eu hadolygu'n rheolaidd. Byddwn hefyd yn defnyddio'r arferion rhyngwladol gorau wrth i ni geisio gwneud yn siŵr bod gofal plant yn yrfa werthfawr – gyda chyfleoedd da o ran dilyniant gyrfa a datblygiad proffesiynol.

Byddwn yn gweithio gyda'r sector i sicrhau bod darpariaeth gofal plant y tu hwnt i'r blynyddoedd cynnar – gan gynnwys darpariaeth ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau – yn parhau i ddatblygu er mwyn diwallu anghenion teuluoedd ar hyd a lled Cymru.

## Gosod safonau newydd mewn addysg

Darllen, ysgrifennu a mathemateg yw rhai o'r sgiliau bywyd pwysicaf y gall ein hysgolion eu haddysgu. Ond mae canlyniadau diweddaraf PISA Cymru yn dangos bod gormod o bobl ifanc yn gadael yr ysgol heb y cymwyseddau hanfodol hyn.

Yn 2022, fe wnaeth ein sgoriau darllen, mathemateg a gwyddoniaeth ostwng i'w lefelau isaf erioed – llawer is na chyfartaledd yr OECD.

Codi safonau llythrennedd a rhifedd yw un o'r heriau mwyaf brys sy'n wynebu ein system addysg. Bydd llywodraeth Plaid Cymru yn sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei gefnogi i ddatblygu'r sgiliau sylfaenol cryf sydd eu hangen arno.

Gan ddefnyddio'r arferion rhyngwladol gorau, bydd ein Cynllun Llythrennedd a Rhifedd Sylfaenol newydd yn:

- **Sefydlu targedau llythrennedd a rhifedd ar lefel genedlaethol ac ar lefel ysgolion, ochr yn ochr â thargedau unigol wedi'u teilwra ar gyfer pob disgybl.**
- **Rhoi eglurder ynghylch yr hyn y mae angen i blant ei ddysgu a phryd, olrhain cynnydd disgyblion, a rhoi cymorth uniongyrchol i'r rhai sydd ar ei hôl hi.**
- **Gosod meini prawf craidd sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer addysgu llythrennedd a rhifedd, gyda phob plentyn yn cael ei addysgu i ddarllen gan ddefnyddio ffoneg synthetig systematig – gan ddysgu sut i gyfateb llythrennau a seiniau'n effeithiol.**

Bydd y Cynllun yn cael ei ategu gan y canlynol:

- **Llyfrgell ym mhob ysgol gynradd, sy'n rhoi mynediad i bob plentyn at leoliad pwrpasol sy'n meithrin cariad gydol oes at ddarllen yn Gymraeg a Saesneg.**
- **Darllen ar draws y cwricwlwm – ymgorffori llythrennedd ym mhob pwnc ysgol uwchradd, gyda strategaethau darllen penodol-i-bwnc a chefnogaeth gryfach i ddisgyblion yn ystod y cyfnod pontio hollbwysig o addysg gynradd i addysg uwchradd.**

Er mwyn helpu athrawon i roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith mewn modd cyson, ac i sicrhau pontio llyfnach rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd, byddwn yn darparu canllawiau ac adnoddau ychwanegol sy'n nodi disgwyliadau cliriach ar gyfer cynnydd ar draws y cwricwlwm. Bydd hyn yn cael gwared ar yr amwysedd a'r ansicrwydd y mae athrawon wedi'u hwynebu o ran yr hyn mae'r Cwricwlwm i Gymru yn gofyn iddyn nhw ei wneud.

Byddwn yn cynnal adolygiad ehangach o'r Cwricwlwm i Gymru i sicrhau ei fod yn mynd ati'n effeithiol i ddarparu'r wybodaeth penodol-i-bwnc ddofn ac eang sydd ei hangen ar ddisgyblion yng Nghymru.

Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth lawn ag awdurdodau lleol i sicrhau'r enillion mwyaf posib ar wariant addysg. Bydd hyn yn cynnwys cynnal archwiliad ar y cyd i fynd i'r afael â gwahaniaethau mewn cyllid fesul disgybl ac i sicrhau bod buddsoddi mewn blaenoriaethau y cytunwyd arnynt yn sicrhau gwelliannau gwirioneddol i ddysgwyr.

Mae Plaid Cymru yn cefnogi'r rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Bydd llywodraeth Plaid Cymru yn adolygu sut mae'r polisi hwn yn cael ei weithredu, gan sicrhau bod penderfyniadau ar ad-drefnu ysgolion yn cael eu harwain yn flaenaf oll gan les pennaf disgyblion.



## Ehangu'r Cynllun Prydau Ysgol Am Ddim

Plaid Cymru sy'n gyfrifol am y ffaith bod gan bob plentyn ysgol gynradd yng Nghymru bellach yr hawl i gael prydau ysgol am ddim – gan wneud yn siŵr nad oes yr un plentyn yn llwgu yn ystod y diwrnod ysgol, cefnogi myfyrwyr i ddysgu, a rhoi un gost yn llai i deuluoedd boeni amdani.

Ers i'r rhaglen Prydau Ysgol am Ddim i Bob Plentyn Ysgol Gynradd ddechrau ym mis Medi 2022, mae dros 50 miliwn o giniawau ysgol am ddim wedi cael eu darparu i ddysgwyr cynradd yng Nghymru.

Byddwn yn adeiladu ar hyn drwy ehangu mynediad at brydau ysgol am ddim i ysgolion uwchradd, gan ddechrau drwy sicrhau bod pob disgybl ym Mlynyddoedd 7-11 o aelwydydd sy'n hawlio Credyd Cynhwysol yn gallu hawlio prydau ysgol am ddim, heb gyfyngiad incwm.

Fel rhan o Strategaeth Fwyd genedlaethol newydd ac ehangach i Gymru, byddwn yn sicrhau bod prydau ysgol yn iachach ac yn cynnwys mwy o gynnyrch o Gymru.

## Cefnogi a thyfu ein gweithlu addysg

Bob dydd mewn ystafelloedd dosbarth ym mhob cwr o Gymru, mae athrawon a chynorthwywyr addysgu ymroddedig yn mynd yr ail filltir i rannu gwybodaeth, meithrin sgiliau bywyd, ac ysbrydoli eu myfyrwyr. Rydyn ni wedi ymrwymo i gefnogi a gweithio mewn partneriaeth â'n gweithlu addysg a sicrhau bod addysgu yn yrfa uchel ei pharch, ddeniadol, a gwerth chweil.

Er mwyn cyflawni hyn, bydd llywodraeth Plaid Cymru yn gweithio gyda'r proffesiwn i wneud y canlynol:

- **Lleihau'r llwyth gwaith drwy gael gwared ar fiwrocratiaeth a gwaith papur diangen.**
- **Darparu canllawiau ac adnoddau cliriach ar gynllunio'r cwricwlwm, gan roi mwy o hyder i athrawon o ran yr hyn y mae disgwyl iddynt ei addysgu, a'r hyn y mae disgwyl i ddysgwyr ei gyflawni.**
- **Gwneud contractau addysgu yn fwy hyblyg, gan gynnwys ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.**

Byddwn yn sicrhau bod cyfleoedd datblygiad proffesiynol o ansawdd uchel ar gael i bob addysgwr, gan gynnwys cyfleoedd ehangach i ddysgu Cymraeg.

Byddwn yn gwella telerau ac amodau athrawon llanw ac yn gweithio gydag ysgolion, awdurdodau lleol a phartneriaid cymdeithasol eraill i ddatblygu dewisiadau amgen cynaliadwy yn lle'r model presennol sy'n cael ei arwain gan asiantaethau.

Gwyddom fod prinder dybryd o athrawon cymwysedig mewn pynciau allweddol – gan gynnwys gwyddoniaeth, mathemateg ac ieithoedd tramor modern – a bod angen mwy o athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn ogystal â gwell amodau i athrawon a chyfleoedd newydd ar gyfer datblygiad proffesiynol, bydd llywodraeth Plaid Cymru yn cynnig cymhellion mwy cystadleuol i ddenu a chadw'r genhedlaeth nesaf o athrawon. Byddwn yn cau'r bwlch yn raddol rhyngom ni a Lloegr fel nad yw athrawon dan hyfforddiant yng Nghymru dan anfantais ariannol am ddewis astudio a gweithio yma.

Erbyn 2030, bydd Cymhellion Addysg Gychwynnol i Athrawon ar gyfer Pynciau â Blaenoriaeth yng Nghymru yn cyfateb i'r rhai yn Lloegr, gyda hyd at £30,000 ar gael ar gyfer y pynciau sydd fwyaf o flaenoriaeth – dwbl y £15,000 presennol.

Er mwyn sicrhau bod y buddsoddiad cyhoeddus hwn yn arwain at fanteision hirdymor i ysgolion Cymru, bydd angen i'r rhai sy'n cael bwrsariaethau barhau i addysgu yng Nghymru am hyd at bum mlynedd, gan adeiladu ar fodelau llwyddiannus a ddefnyddir yn GIG Cymru.

## Dull cofleidiol o ymdrin ag ymddygiad, presenoldeb a llesiant

Ers pandemig Covid, mae absenoldebau cyson yn ysgolion Cymru wedi cynyddu, mae achosion o ymddygiad gwael wedi cynyddu, ac mae iechyd meddwl myfyrwyr wedi gwaethygu. Mae mwy o gynnwys niweidiol ar-lein, ac mae mwy o blant a phobl ifanc yn ei weld. Mae athrawon yn dweud eu bod yn treulio llai o amser yn addysgu a mwy o amser yn rheoli'r heriau hyn, ac mae'r cyfan yn effeithio ar ddysgu a llesiant myfyrwyr.

Byddwn yn:

- **Datblygu fframwaith sy'n dwyn ynghyd ysgolion, iechyd a gofal cymdeithasol, a gwasanaethau ieuenctid i fynd i'r afael â'r materion hyn sy'n gorgyffwrdd yn fwy effeithiol.**
- **Sicrhau bod yr arferion gorau o ran mynd i'r afael ag ymddygiad gwael ac absenoldeb yn cael eu rhannu'n fwy cyson rhwng ysgolion, yn lleol ac yn genedlaethol, a bod digwyddiadau'n cael eu trin, eu cofnodi a'u hadrodd mewn ffordd gyson.**
- **Ehangu cyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n canolbwyntio ar reoli ymddygiad, a datblygu canllawiau newydd ar ddiogelwch ar-lein.**
- **Pan fydd disgybl yn symud i ysgol newydd ar ôl gwaharddiad neu symudiad wedi'i reoli, gwneud yn siŵr bod yr ysgol sy'n derbyn y disgybl hwnnw yn cael yr wybodaeth bwysig sydd ei hangen arni am ei ymddygiad, gan barchu rheolau preifatrwydd a diogelu data ar yr un pryd.**

Byddwn yn treialu rhaglen gofleidiol newydd 'Ysgolion Cymunedol a Mwy', gan edrych ar sut y gellir cyfuno ffrydiau cyllido gwahanol i integreiddio gwasanaethau ieuenctid a gwreiddio cymorth arbenigol sy'n ystyriol o drawma mewn ysgolion – er mwyn mynd i'r afael yn well â'r pethau sylfaenol sy'n achosi absenoldeb, heriau ymddygiadol, ac anghydraddoldeb addysgol.

Byddwn yn grymuso awdurdodau lleol i hybu diogelwch, dysgu a llesiant myfyrwyr drwy gyfyngu ar y defnydd o ffonau clyfar mewn ysgolion ymysg plant dan 16 oed, gan weithio gyda chynghorau ac arweinwyr ysgolion i weithredu hyn mewn ffordd ymarferol a chymesur, gydag eithriadau priodol lle bo angen.

### Anghenion Dysgu Ychwanegol

A Plaid Cymru government will address Bydd llywodraeth Plaid Cymru yn mynd i'r afael â heriau allweddol yn y system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yng Nghymru. Byddwn yn cymryd camau ar unwaith i ddechrau adfer cynaliadwyedd hirdymor y system ar ôl blynyddoedd o bwysau difrifol a pharhaus.

Byddwn yn:

- Symleiddio ac egluro'r system ADY ar gyfer ysgolion a cholegau, dysgwyr a theuluoedd – gan sicrhau ei bod yn adlewyrchu'n well yr hyn y gall ysgolion ei gyflawni, a bod gweithrediad y Cod a'r Ddeddf ADY yn gyson ar draws pob awdurdod lleol.
- Paratoi pob addysgwr i gefnogi dysgwyr ag ADY drwy wneud hyfforddiant ADY yn orfodol i bob athro a chynorthwyydd addysgu – fel rhan o addysg gychwynnol athrawon ac fel rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus.
- Cwblhau'r gwaith o drosglwyddo Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol i raddfa gyflog arweinwyr, a chysoni eu hamodau gwaith ag arweinwyr ysgolion eraill, gan gydnabod pwysigrwydd strategol eu rôl.
- Gweithio i ehangu darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg, gan sicrhau bod plant a theuluoedd yn gallu cael gafael ar gymorth yn eu hiaith gyntaf neu eu hiaith darged.

### Addysg cyfrwng Cymraeg

Bydd llywodraeth Plaid Cymru yn cymryd camau i sicrhau bod gan bob plentyn hawl i fod yn siaradwr Cymraeg hyderus drwy ddefnyddio'r pwerau yn Neddf y Gymraeg ac Addysg yn llawn.

Byddwn yn cynyddu cyfran a nifer y plant a phobl ifanc sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg, gyda tharged o sicrhau bod o leiaf 50% o ddisgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2050, a bod y ddarpariaeth hon yn hygyrch, yn gynhwysol, ac yn gallu manteisio ar adnoddau digonol.

Byddwn yn cryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg mewn addysg bellach ac uwch.

### Cadw ein plant a'n pobl ifanc yn ddiogel

Roedd Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig diweddar Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru yn tynnu sylw at fethiannau difrifol mewn arferion diogelu a chydlynu aml-asiantaeth. Byddwn yn mynd i'r afael â'r methiannau hyn ac yn sicrhau bod pawb sy'n gweithio gyda phlant ac yn gofalu amdanynt yn deall eu cyfrifoldebau, ac yn gweithredu'n gyflym pan fydd pryderon diogelu'n codi.

Gan dderbyn holl argymhellion yr Adolygiad ac ymrwymo i weithredu arnynt, byddwn yn:

- Sicrhau bod lleisiau plant yn rhan ganolog o benderfyniadau diogelu, gan gynnwys pan nad ydyn nhw wedi gwneud datgeliad ffurfiol ond eu bod yn dangos arwyddion y gallai fod angen help arnynt.
- Datblygu deddfwriaeth sy'n cyflwyno dyletswyddau newydd i roi gwybod am achosion o gam-drin plant yn rhywiol, yn unol ag argymhellion yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.
- Cyflwyno safonau diogelu cenedlaethol newydd fel bod pob gwasanaeth sy'n gweithio gyda phlant yn dilyn yr un disgwyliadau clir.

- Sicrhau bod gan ddysgwyr ac addysgwyr ddealltwriaeth lawn o sut i adnabod a riportio arwyddion grŵmio drwy hyfforddiant proffesiynol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.
- Gosod gweithdrefnau cenedlaethol cyson ar gyfer ymateb i bryderon, gan sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n brydlon a bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar y cyd ar draws asiantaethau perthnasol.
- Cryfhau arweinyddiaeth a llywodraethiant, gyda dyletswyddau diogelu penodol ar gyfer cyrff llywodraethu ac uwch arweinwyr ysgolion, a phrosesau i graffu'n annibynnol ar sut maen nhw'n eu bodloni.
- Creu dull cenedlaethol cyson lle dysgir o bryderon diogelu, fel bod gwersi'n arwain at welliannau ledled Cymru, nid dim ond o fewn gwasanaethau unigol.

Byddwn yn sicrhau bod safonau addysgol a safonau diogelu yn cael eu cynnal yn gyson wrth addysgu gartref, a byddwn yn adolygu trefniadau llywodraethu ysgolion i sicrhau bod ein hysgolion yn cael eu rheoli'n effeithiol ac yn dryloyw.

Bydd pob dysgwr yng Nghymru yn cael addysg gynhwysfawr am ddiogelwch digidol ac ar-lein, llythrennedd yn y cyfryngau, a sut mae adnabod camwybodaeth a thwyllwybodaeth.

### Ystâd ysgolion sy'n addas i'r diben

Ar hyn o bryd, nid oes gennym ddarlun clir o hyd a lled yr ôl-groniad o waith cynnal a chadw sydd i'w wneud mewn ysgolion yng Nghymru, gan nad yw'r data yma'n cael ei gasglu'n systematig. Nid yw rhai awdurdodau lleol yn gallu darparu data ar atgyweirio ysgolion.

Byddwn yn comisiynu arolwg cenedlaethol o gyflwr adeiladau ysgolion er mwyn cael darlun cliriach o gyflwr yr ystâd ysgolion yng Nghymru. Byddwn yn nodi'r gwaith atgyweirio ac uwchraddio mwyaf brys, ac yn sicrhau bod rhaglen ar waith i ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol.

### Teithio gan Ddysgwyr

Drwy ddiwygio'r gwasanaethau bysiau yng Nghymru, byddwn yn sicrhau bod dyluniad llwybrau bysiau a'u darpariaeth yn ystyried angen dysgwyr i gyrraedd ysgolion, colegau a phrifysgolion.

Byddwn hefyd yn parhau i ddarparu tocynnau bws sengl am £1 a thocynnau diwrnod am £3 i blant a phobl ifanc rhwng 5 a 21 oed.

Ar ben hynny, byddwn yn adolygu'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr ac yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod cynifer o deuluoedd â phosib yn gallu cael gafael ar gludiant i'r ysgol, gan fynd i'r afael â rhwystrau penodol sy'n atal pobl rhag cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg.

### Llwybr sgiliau sy'n gweithio i bob myfyriwr

Bydd hyrwyddo addysg bellach, cryfhau hyfforddiant a llwybrau galwedigaethol, a rhoi dewis go iawn i ddysgwyr a'u cyfeirio'n glir at eu hystod lawn o opsiynau, yn flaenoriaeth i lywodraeth Plaid Cymru.

Byddwn yn datblygu system sgiliau sy'n gweithio i bob dysgwr ac sy'n darparu cyfleoedd ystyrlon ar gyfer addysg, gwaith a hyfforddiant i bob person ifanc – gyda strategaeth genedlaethol glir ar gyfer addysg a chymwysterau galwedigaethol sy'n diwallu anghenion Cymru nawr ac yn y dyfodol, ac sy'n cyd-fynd â chyfleoedd swyddi go iawn.

Byddwn yn cryfhau cysylltiadau â chyflogwyr, yn ehangu cyfleoedd profiad gwaith a phrentisiaethau, ac yn cefnogi llwybrau cyfrwng Cymraeg o ansawdd uchel. Drwy hybu cydweithrediad agosach rhwng ysgolion a cholegau, byddwn yn cefnogi'r broses o gyflwyno'r Dystysgrif Alwedigaethol Addysg Uwchradd (TAAU), ac yn sicrhau bod Prentisiaethau Iau ar gael drwy bob coleg.

Byddwn hefyd yn parhau i ehangu cyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes ac ailhyfforddi oedolion, er mwyn i ddysgwyr o bob oed allu pontio'n ddidrafferth o addysg i waith ac i astudiaethau pellach.

Byddwn yn diogelu'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg o £40 i ddysgwyr cymwys rhwng 16 a 18 oed.

### Sector Addysg Uwch cynaliadwy sy'n darparu ar gyfer ein myfyrwyr ac yn sbarduno arloesedd

Mae gan Gymru hanes hir a balch o ragoriaeth mewn addysg uwch. Mae ein prifysgolion wedi'u gwreiddio'n ddwfn yn eu cymunedau, ac yn sbarduno twf mewn economïau lleol a rhanbarthol. Nhw hefyd yw porth Cymru i'r byd ehangach.

Ond mae'r sector dan bwysau ariannol difrifol, ac mae canran y bobl ifanc 18 oed yng Nghymru sy'n dewis mynd i'r brifysgol yn gostwng.

Fel mater o flaenoriaeth, bydd llywodraeth newydd Plaid Cymru yn comisiynu adolygiad annibynnol a chynhwysfawr o'r sector addysg uwch cyfan a sut y caiff ei ariannu yng Nghymru. Bydd yr adolygiad yn datblygu consensws trawsbleidiol ar ffordd gynaliadwy ymlaen i'n prifysgolion.

Un o brif elfennau'r adolygiad fydd sicrhau bod mwy o'r arian y mae Llywodraeth Cymru yn ei wario ar addysg uwch yn cael ei gadw yng Nghymru. Rydyn ni eisiau annog mwy o'n talent ifanc i aros yng Nghymru neu ddychwelyd yma, yn ogystal â denu mwy o bobl i ddod i Gymru i astudio ac i weithio.

Bydd llywodraeth Plaid Cymru yn adolygu ac yn diwygio rhaglen Seren, fel ei bod yn cefnogi myfyrwyr yn well i wneud cais i fynd i brifysgolion Cymru, ac yn targedu cymorth i gau'r bwlch cyfranogiad rhwng myfyrwyr o gymunedau mwyaf a lleiaf difreintiedig Cymru.

Byddwn yn parhau i alw am ddatganoli cyfran Cymru o gyllid ymchwil y DU.

Byddwn hefyd yn cefnogi'r cynnig ar y cyd rhwng Prifysgolion Bangor ac Aberystwyth i agor Ysgol Ddeintyddol newydd, ac Ysgol Filfeddygol annibynnol yn Aberystwyth.

# Cynaliadwyedd, Adnoddau a Gwytnwch Gwledig

Byddwn yn mynd i'r afael â newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth, yn ogystal â meithrin mwy o annibyniaeth o ran ynni a gwella diogeledd bwyd a chadernid cymunedol.

Drwy roi cymorth cryf i'n ffermwyr ac i'n cymunedau gwledig, gallwn lunio dyfodol sy'n gweithio i bobl ac i'r blaned.



## Mae gennym lond gwlad o adnoddau naturiol – gwynt, dŵr a thonnau – sy'n golygu bod Cymru mewn sefyllfa dda i fod yn arweinydd pontio gwyrdd teg. Gyda hyn daw cyfleoedd cyffrous ar gyfer datblygu economaidd a chymunedol.

Mae ein gallu i gynhyrchu bwyd cynaliadwy o ansawdd eithriadol hefyd yn ased allweddol – un y mae'n rhaid i ni ei ddiogelu a'i ddatblygu.

Bydd llywodraeth Plaid Cymru yn cymryd camau newydd beiddgar i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur sy'n gorgyffwrdd.

Byddwn yn sicrhau bod pobl, teuluoedd a busnesau yng Nghymru yn elwa go iawn ar ein potensial ynni adnewyddadwy.

A byddwn yn cryfhau ein cymunedau gwledig, yn cefnogi ein ffermwyr, ac yn gweithio i adeiladu system fwyd gynaliadwy i Gymru.

### Llywodraethu'r pontio gwyrdd

Mynd i'r afael â newid hinsawdd fydd un o brif flaenoriaethau llywodraeth Plaid Cymru.

Byddwn yn cynhyrchu Cynllun Gweithredu Hinsawdd a Natur wedi'i ddiweddaru ar gyfer Cymru, a fydd yn canolbwyntio ar fapio llwybr ymarferol at sero net erbyn 2040 a blaenoriaethu ynni cymunedol, sgiliau a swyddi gwyrdd, trafnidiaeth lanach, cartrefi sy'n defnyddio ynni'n effeithlon, a diogelu ac adfer tirweddau sy'n llawn natur.

I sicrhau bod gweithredu ar yr hinsawdd a natur yn cael ei flaenoriaethu a'i gydlynu'n effeithiol ar draws y llywodraeth, byddwn yn:

- Gwreiddio datgarboneiddio, cynaliadwyedd a diogelu'r amgylchedd fel cyfrifoldebau trawsbynciol ar lefel cabinet ar draws pob maes portffolio.
- Cryfhau atebolrwydd drwy ddarparu adroddiadau cyhoeddus clir ar gynnydd Cymru at sero net drwy ddangosfwrdd ar-lein hygyrch.
- Sicrhau bod Cymru'n fwy parod ar gyfer effeithiau'r hinsawdd drwy gyhoeddi asesiad risg hinsawdd sy'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd.
- Sefydlu Bwrdd Pontio Teg i arwain y strategaeth sero net – gan ddod ag arbenigwyr perthnasol at ei gilydd a sicrhau bod gan randdeiliaid allweddol rôl ystyrlon yn y gwaith o lunio polisïau.

Byddwn yn defnyddio pwerau newydd ar lywodraethu amgylcheddol i osod targedau uchelgeisiol ar adfer natur – gan leihau'r lefelau colli bioamrywiaeth a sicrhau adferiad sylweddol erbyn 2050. O dan Ddeddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth), byddwn yn sefydlu Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru (OEGW) sy'n gryf, yn annibynnol ac yn gallu dal awdurdodau cyhoeddus i gyfrif am gyflawni targedau amgylcheddol.

Byddwn yn cefnogi Gwasanaeth Natur Cenedlaethol Cymru fel cyfrwng i gynyddu eco-lythrennedd, i ddatblygu sgiliau gwyrdd ac i greu swyddi newydd a chyfleoedd bywoliaeth ym maes adfer natur.

Byddwn yn gweithio gyda gwledydd eraill y DU i wahardd gwerthu mawn garddwriaethol ac i barhau i weithio ar adfer mawndiroedd.

Wrth adolygu a diwygio cynlluniau gofodol, ein nod fydd taro'r cydbwysedd iawn rhwng diogeledd bwyd, adfer natur a mynediad at natur, anghenion datblygu lleol, ac ynni adnewyddadwy o ran defnydd tir. Byddwn hefyd yn gwella cynlluniau morol ac yn hybu cynaliadwyedd ein hamgylcheddau arfordirol a morol.

Byddwn yn sicrhau bod rheoliadau cynllunio yn hwyluso'r pontio gwyrdd yn well, gan gynnwys drwy amserlenni cydsynio mwy cadarn ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy a hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer pympiau gwres, paneli solar ar gartrefi, ac ynni adnewyddadwy arall ar raddfa fach.

### Y daith at annibyniaeth ynni

Er mwyn i Gymru sicrhau mwy o ddiogeledd ynni a chyrraedd sero net erbyn 2040, gwyddom fod yn rhaid i ni gynhyrchu llawer mwy o ynni adnewyddadwy. Os caiff hyn ei wneud yn iawn, mae'r pontio hwn yn cynnig cyfleoedd mawr i'n pobl, ein busnesau a'n cymunedau – gan greu swyddi, meithrin sgiliau a denu buddsoddiad – a bydd llywodraeth Plaid Cymru yn sicrhau bod Cymru'n manteisio i'r eithaf.

Un o'n blaenoriaethau cyntaf mewn llywodraeth fydd datblygu Strategaeth Ynni Genedlaethol, gan fapio anghenion ynni Cymru nawr ac yn y dyfodol, ac amlinellu cynllun clir a hirdymor ar gyfer y seilwaith sydd ei angen i fodloni'r anghenion hyn. Bydd hyn yn rhoi mwy o sicrwydd i ddatblygwyr a chymunedau fel ei gilydd, yn nodi lle mae angen seilwaith newydd, ac yn sicrhau bod Cymru'n manteisio i'r eithaf ar dechnolegau gwyrdd newydd, gan gynnwys hydrogen gwyrdd.

Bydd Bargen Sector newydd ar gyfer Ynni Adnewyddadwy yn cydlynu camau gweithredu rhwng y llywodraeth, y diwydiant ynni adnewyddadwy, addysg bellach ac uwch, a chymunedau ac undebau llafur, gan ddarparu gofynion cynllunio cliriach ac amserlenni cydsynio cadarn a rhagweladwy ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy.

Mae pontio teg yn golygu sicrhau bod gan bobl a chymunedau fwy o berchnogaeth dros ynni adnewyddadwy yng Nghymru a'u bod yn gweld mwy o fanteision hynny – a'u bod yn cael eu cyfran deg o'r elw hefyd.

Rhan ganolog o'r uchelgais hon yw datganoli Ystad y Goron a chadw gwerth llawn prydlesu tir Cymru a gwely ein môr ar gyfer ynni adnewyddadwy.

Byddwn yn pwyso am ddatganoli Ystad y Goron ar frys, er mwyn cadw a buddsoddi ei helw yng Nghymru yn y tymor hir drwy Gronfa Cyfoeth Cymru newydd, i gefnogi ynni cymunedol, tai fforddiadwy ac ynni-effeithlon, a seilwaith cenedlaethol hanfodol.

Byddwn yn gweithio i sicrhau'r manteision llawn i gymunedau Cymru o brosiectau ynni sydd y tu allan i'r setliad datganoli ar hyn o bryd, ac yn cefnogi seilwaith ynni strategol allweddol – gan gynnwys y seilwaith newydd sydd ei angen i alluogi'r ffwrnais arc drydan ym Mhort Talbot. Byddwn yn parhau i bwyso am ddatganoli rhagor o bwerau, gan gynnwys dros reoleiddio a phrisio.

Bydd llywodraeth Plaid Cymru yn cynyddu perchnogaeth ystyrlon Cymru ar ynni adnewyddadwy, gan sicrhau bod elw'n cael ei ailfuddsoddi yn ein cymunedau a'n gwasanaethau cyhoeddus. Byddwn yn ehangu Trydan Gwyrdd Cymru drwy integreiddio Ynni Cymru a Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru – gan greu un cwmni ynni cenedlaethol cryfach gyda mwy o rym, mwy o gapasiti i gynyddu perchnogaeth gymunedol ar ynni adnewyddadwy, a chylch gwaith clir i helpu i leihau biliau ynni yn y tymor canolig i'r tymor hir.

Er mwyn sicrhau ymhellach bod ein cymunedau wir yn elwa ar ynni adnewyddadwy yng Nghymru, byddwn yn:

- **Blaenoriaethu perchnogaeth gymunedol ystyrlon a chefnogi'r gwaith o ddatblygu cymunedau ynni – i helpu cymunedau i ddod at ei gilydd i gynhyrchu, defnyddio a chadw cymaint o drydan a gwres ag y gallant yn lleol ac ar y cyd, gan feithrin hunangynhaliaeth ynni a helpu i leihau biliau.**
- **Ymestyn y datblygu sy'n cael ei ganiatáu i roi llawer mwy o hyblygrwydd i gartrefi, ffermydd a busnesau osod eu tyrbinau gwynt bach eu hunain, yn ogystal â phaneli solar ar y to a rhai bach ar y ddaear, batris a phympiau gwres.**
- **Mynnu bod gan bob prosiect ynni dros 10 MW, fel un o'r prif amodau cydsynio, gyfran perchnogaeth gymunedol sylfaenol rhwng 15% a 25%, model budd lleol cyfatebol, taliad Cronfa Gyfoeth, neu ffordd gyfatebol o sicrhau buddion i'r gymuned. Byddwn hefyd yn sicrhau bod ardrethi busnes ar ffermydd gwynt a solar yn cael eu cadw gan yr awdurdod lleol perthnasol.**

- Sicrhau bod graddfa, lleoliad ac effaith gronnol datblygiadau ynni – gan gynnwys seilwaith trawsyrru a dosbarthu – yn cael eu hystyried yn briodol drwy'r system gynllunio, gan ffafrio prosiectau sydd wedi'u dylunio'n dda ac wedi'u gwasgaru'n briodol sy'n cydbwyso effaith leol â darpariaeth effeithlon, yn ogystal â diogelu tir amaethyddol cynhyrchiol.
- Mynd ati ar unwaith i wahardd peilonau delltog dur mawr ar gyfer llinellau 11-132 kV newydd yng Nghymru, gyda rhagdybiaeth glir o blaid gosod ceblau o dan y ddaear a chaniatáu dewisiadau uwchben dim ond pan fyddant yn cael eu gosod gyda pholion pren isel neu seilwaith cyfatebol, llai ymwthiol.
- Edrych ar opsiynau arloesol ar gyfer ariannu cymunedau ynni, ynni adnewyddadwy i gartrefi a chydberchnogaeth ar ddatblygiadau ar raddfa fwy, gan gynnwys drwy Gronfa Cyfoeth Cymru a Banc Datblygu Cymru.

### Adennill rheolaeth ar ein dŵr

Dŵr yw un o asedau naturiol mwyaf gwerthfawr Cymru – ac mae'n ased â hanes hir a chymhleth. Bydd llywodraeth Plaid Cymru yn cymryd camau ar unwaith i sicrhau bod pwerau dros ddŵr yn cael eu datganoli'n llawn, gan ddefnyddio'r pwerau hyn i wella ansawdd dŵr, i fynd i'r afael â llygredd ac i gefnogi mwy o fforddiadwyedd tymor hir i gartrefi.

Byddwn yn:

- Gofyn yn ffurfiol am ddatganoli pwerau dros ddŵr yn llawn i Gymru, fel sy'n bosib o ganlyniad i Ddeddf Cymru 2017.
- Sefydlu rheoleiddiwr dŵr newydd i Gymru, gyda phwerau i osod rheolaethau prisiau wedi'u gwneud yng Nghymru, cyfyngu ar daliadau bonws gormodol cwmnïau dŵr, a chyfeirio buddsoddiad cyfalaf er mwyn lleihau gollyngiadau carthion, uwchraddio dŵr gwastraff a draeniau, a gwneud gwelliannau amgylcheddol ehangach.
- Cynyddu'r nifer sy'n defnyddio mesuryddion dŵr ac archwilio tariffau blociau cynyddol fel ffordd o leihau biliau dŵr.
- Amlinellu llwybrau at wladoli dŵr Cymru ac archwilio opsiynau ar gyfer ardoll ar drosglwyddo dŵr dros y ffin.

Byddwn yn gosod targedau newydd, gorfodol i leihau llygredd yn ein hafonydd a'n moroedd, yn seiliedig ar yr egwyddor 'y llygrwr sy'n talu', ac yn erlyn y rhai sy'n llygru dro ar ôl tro, ac yn ddifrifol.

Byddwn yn casglu mwy o ddata a gwell data ar ddigwyddiadau llygredd ac yn gweithio i sicrhau bod pob corff dŵr yng Nghymru yn ennill statws 'da' o leiaf – gan gynnwys drwy symud o'r dull 'ffermio yn ôl y calendr' hen ffasiwn o fynd i'r afael â dŵr ffo o amaethyddiaeth, i system sy'n cael ei harwain gan wyddoniaeth, sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac sy'n briodol i risg, ac sy'n atal llygredd gan gefnogi ffermio cynaliadwy ar yr un pryd.

### Adeiladu cymunedau sy'n gallu gwrthsefyll llifogydd

Mae Plaid Cymru wedi arwain yr agenda ar wella ymatebolrwydd Cymru i lifogydd, gan sicrhau miliynau o bunnoedd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer buddsoddiad newydd mewn amddiffynfeydd llifogydd a chymorth i fusnesau a chartrefi sy'n teimlo'r effeithiau.

Mae llawer o gymunedau'n wynebu llifogydd yn amlach ac ar lefel fwy difrifol, felly mae angen cymryd camau pellach ar frys i baratoi ar gyfer llifogydd a'u hatal, ac i ymateb yn gyflym pan fydd llifogydd yn digwydd.

Bydd llywodraeth Plaid Cymru yn:

- Creu Fforwm Gwytnwch a Pharodrwydd Llifogydd i Gymru, gan ddod ag awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, y gwasanaethau brys a sefydliadau cymunedol at ei gilydd i gydlynu strategaeth genedlaethol ar lifogydd.

- Sefydlu Canolfannau Gwrthsefyll Llifogydd mewn cymunedau sydd mewn perygl – gan ddarparu canolfannau lleol ar gyfer cynllunio, offer, gwybodaeth a hyfforddiant ar gyfer argyfyngau.
- Datblygu strategaethau gwrthsefyll llifogydd sy'n benodol i ranbarth ar gyfer pob dalgylch, wedi'u hategu gan well data, gwaith monitro llifogydd mewn amser real a systemau rhybuddio cynnar i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl, a'u paratoi.
- Galw am ymestyn cynllun Flood Re y DU y tu hwnt i 2036 ac archwilio opsiynau ar gyfer creu Cronfa Gwarant Yswiriant Llifogydd i warantu rhwymedigaethau yswiriant ar gyfer busnesau bach, gan eu helpu i gael yswiriant llifogydd fforddiadwy mewn ardaloedd uchel eu risg lle mae costau yswiriant yn amhosib eu fforddio.
- Adolygu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Rhanbarthau Draenio Mewnol i roi'r cymorth gorau i dirfeddianwyr a chymunedau ar gyfer rheoli llifogydd yn effeithiol.
- Defnyddio dull dalgylch cyfan o fuddsoddi mewn amddiffynfeydd llifogydd – gan gynnwys atebion i fyny'r afon sy'n seiliedig ar natur – gan sicrhau bod y buddsoddiad hwn yn darparu amddiffyniad hirdymor a chadarn rhag llifogydd, yn ogystal â gwerth am arian.
- Ehangu gwasanaethau cwnsela a chymorth iechyd meddwl mewn cymunedau sy'n teimlo effeithiau llifogydd.

### Mynd i'r afael â sgil-effeithiau diwydiannol Cymru a chefnogi cymunedau'r meysydd glo

Mae cymunedau ledled Cymru yn parhau i deimlo sgil-effeithiau diwydiannau cloddiol a thrwm y gorffennol – tomennydd glo anniogel, safleoedd cloddio glo brig, tir halogedig, a'r bygythiad gan 'gemegau am byth' peryglus fel PFAS.

Mae angen gweithredu ar frys i wneud hen dir diwydiannol yn ddiogel, diogelu iechyd cyhoeddus, a sicrhau cyfiawnder amgylcheddol hir-ddisgwyliedig i'r cymunedau sydd wedi teimlo'r effeithiau mwyaf. Mae Plaid Cymru yn credu'n glir mai San Steffan ddylai dalu'r bil am fynd i'r afael â'r peryglon hyn, sy'n bodoli ymhell cyn datganoli yng Nghymru.

Byddwn yn:

- Cyflawni rhaglen genedlaethol i ddiogelu ac adfer tomennydd glo segur, gan sicrhau bod pob tomen yn cael ei monitro, ei chynnal a'i hadfer yn briodol. Byddwn yn parhau i fynnu bod Llywodraeth y DU yn ariannu'r gwaith hwn yn briodol ac yn llawn.
- Sefydlu strategaeth Cymru gyfan ar adfer tir halogedig – mapio, blaenoriaethu ac adfer tir ôl-ddiwydiannol yn raddol i sicrhau nad yw cymunedau bellach yn gartrefi i safleoedd diffaith, priddoedd gwenwynig, a dyfrffyrdd llygredig.
- Archwilio ffyrdd o gryfhau'r egwyddor 'y llygrwr sy'n talu', ar y cyd â Llywodraeth y DU, er mwyn sicrhau bod y rhai sydd wedi elwa ar effeithiau diwydiant trwm yn cael eu dal yn gyfreithiol gyfrifol am adfer y tir yn llawn.
- Cryfhau'r gwaith o fonitro a rheoleiddio sylweddau niweidiol, gan gynnwys sylweddau poly- a perfflworoalcyl (PFAS), gyda phrofion gorfodol mewn ardaloedd uchel eu risg a chynlluniau gweithredu clir i ddiogelu iechyd cyhoeddus.
- Gweithio gyda Llywodraeth y DU i wahardd 'cemegau am byth' sy'n parhau i halogi ein tir, ein hafonydd a'n moroedd.
- Adolygu polisïau cynllunio sy'n ymwneud â chwarela agregau i ddiogelu ansawdd aer lleol.
- Hybu technegau adfer cynaliadwy sy'n seiliedig ar natur, fel creu gwlyptiroedd, adfer pridd, a chynlluniau plannu sy'n helpu i amsugno llygryddion, sefydlogi llethrau, a gwella bioamrywiaeth.

Mae Plaid Cymru wedi ymrwymo i sicrhau tegwch go iawn i'r cymunedau sy'n teimlo sgil-effeithiau mwyaf diwydiant trwm yng Nghymru.

Bydd adfer yr amgylchedd yn mynd law yn llaw â'n cynlluniau i dyfu busnesau, darparu swyddi da, adeiladu cyfoeth cymunedol, ac adnewyddu canol trefi mewn cymunedau glofaol sy'n dal i deimlo effeithiau diwydiannol Cymru ar yr amgylchedd, ar yr economi ac ar iechyd.

Byddwn yn gweithio i droi'r gorffennol diwydiannol hwn yn fantais – gan gefnogi prosiectau sy'n addasu dŵr cynnes o byllau glo llawn dŵr fel ffynhonnell gwres glân a fforddiadwy i gymunedau glofaol. Byddwn yn datblygu partneriaethau newydd ac yn edrych ar opsiynau ariannu arloesol i gysylltu mwy o leoedd â rhwydweithiau gwres dŵr pyllau glo, ac yn cefnogi'r gwaith o greu swyddi lleol medrus yn y sector hwn.

## Cymru sy'n fwy glân ac iach

Bydd Plaid Cymru yn cymryd camau beiddgar i lanhau ein haer, lleihau gwastraff a lleihau llygredd – i ddiogelu iechyd cyhoeddus a gwella'r lleoedd lle rydyn ni'n byw.

Byddwn yn:

- **Gweithio gydag awdurdodau lleol i fabwysiadu safonau aer glân Sefydliad Iechyd y Byd a lleihau llygredd aer – yn enwedig o amgylch ysgolion, cartrefi gofal a mannau eraill lle mae llygredd aer yn fwyaf tebygol o effeithio ar bobl agored i niwed – wedi'i gefnogi gan fonitro cryf, camau gorfodi, ac adroddiadau tryloyw i'r cyhoedd.**
- **Cael gwared ar blastigau un-tro diangen yn raddol, gan ddechrau gyda phecynnau ffrwythau a llysiau ffres sydd ddim yn ymestyn yr oes silff rhyw lawer, gan leihau faint o blastig sy'n troi'n sbwriel neu'n ficroblastigau yn ein bwyd a'n hecosystemau.**
- **Cyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes Cymru ar gyfer cynwysyddion diod plastig a metel – gan gynnwys gwydr pan fydd hyn yn ymarferol bosib, a gydag eithriadau perthnasol i atal costau ychwanegol i fusnesau bach.**
- **Sicrhau dull teg 'y llygrwr sy'n talu', er mwyn i'r rhai sy'n creu llygredd ysgwyddo'r gost o'i lanhau – nid cymunedau lleol na busnesau cyfrifol.**

## Economi wledig gadarn sy'n seiliedig ar fwyd a ffermio

Mae cryfhau'r economi wledig yn flaenoriaeth allweddol i Blaid Cymru. Byddwn yn cynnal ac yn datblygu cymorth i'r sector amaethyddol fel prif gyfrwng datblygu gwledig, ac yn grymuso ein cymunedau gwledig.

### Cefnogi ein ffermwyr

Mae ffermwyr Cymru yn cynhyrchu bwyd o ansawdd eithriadol. Ffermio yw asgwrn cefn ein heconomi wledig a chalon ein cymunedau cefn gwlad – mae'n cefnogi'r Gymraeg a'i diwylliant, ac yn gwarchod amgylchedd naturiol Cymru. Am y rhesymau hyn a mwy, mae Plaid Cymru yn falch o gefnogi ein ffermwyr.

Bydd llywodraeth Plaid Cymru yn diogelu dyfodol ffermydd teuluol Cymru mewn hinsawdd sy'n newid.

Byddwn yn parhau i gydweithio'n gryf â'r gymuned ffermio wrth i ni roi'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar waith, a pharhau i'w ddatblygu a'i fireinio – gan helpu busnesau fferm ffyniannus a chynaliadwy i gynhyrchu bwyd, yn ogystal â chyflawni canlyniadau amgylcheddol allweddol yn raddol.

Byddwn yn:

- **Sefydlu cylch ariannu aml-flwyddyn ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, gan roi sefydlogrwydd a sicrwydd tymor hir i ffermwyr. Y gyllideb flynyddol gyntaf fydd y llinell sylfaen ar gyfer hyn.**
- **Comisiynu adolygiad annibynnol o'r baich biwrocrataidd ar ffermydd teuluol yng Nghymru, gyda'r bwriad o symleiddio'r gofynion ar ffermydd a lleihau dyblygu a gwaith papur diangen.**
- **Rhoi dull newydd ar waith sy'n seiliedig ar wyddoniaeth ac ar ganlyniadau, ac sy'n gymesur â'r risg, ar gyfer rheoli perygl nitradau ar draws dalgylchoedd – gan symud y tu hwnt i'r dull 'ffermio yn ôl y calendr' hen ffasiwn a helpu ffermwyr i fabwysiadu technolegau ac arferion newydd i leihau llygredd dŵr amaethyddol.**

- Cynnal safonau bioddiogelwch cadarn a defnyddio cyngor y Grŵp Cynghori Technegol TB i roi dull newydd o reoli TB Gwartheg ar waith – un sy'n cydnabod bywyd gwyllt fel ffynhonnell haint ac sy'n galluogi dulliau rheoli sydd wedi'u dilysu'n wyddonol.
- Diogelu tir amaethyddol o ansawdd uchel rhag cael ei golli i blanhigfeydd gwrthbwyso carbon corfforaethol ar raddfa fawr neu ddatblygiadau solar gormodol, gan ei gwneud yn haws i ffermwyr a chymunedau gwledig fuddsoddi yn eu prosiectau ynni adnewyddadwy eu hunain.

Bydd Plaid Cymru yn hybu olyniaeth a newydd-ddyfodiaid i fwyd a ffermio – gan weithio drwy Fanc Datblygu Cymru i helpu ffermwyr ifanc i ymuno â'r diwydiant. Byddwn yn parhau i roi pwysau ar Lywodraeth y DU i sicrhau na fydd unrhyw newidiadau i'r dreth etifeddiaeth yn tanseilio dyfodol ffermydd teuluol yng Nghymru.

Gan fynnu bod Llywodraeth Cymru'n cael ei chynnwys ym mhob penderfyniad am Gymru ac ar gyfer Cymru, byddwn yn ceisio sicrhau bod ffermio yng Nghymru yn cael ei ddiogelu mewn unrhyw gytundebau masnach yn y dyfodol, a pharhau i wella mynediad cynhyrchwyr yng Nghymru at farchnadoedd Ewropeaidd a marchnadoedd eraill.

**Strategaeth fwyd genedlaethol**
Mae Cymru'n cynhyrchu bwyd o ansawdd uchel sydd gyda'r gorau yn y byd. Ond er hyn, dydy ein diogeledd bwyd ddim yn ddigon cadarn. Mae yna ormod o bobl yng Nghymru sy'n methu cael gafael ar fwyd maethlon a fforddiadwy. Hefyd rydyn ni'n or-ddibynnol ar fewnforion a dydyn ni ddim yn gweld gwerth llawn y bwyd sy'n cael ei gynhyrchu yma.

Bydd llywodraeth Plaid Cymru yn gwneud mwy i gynyddu diogeledd a llythrennedd bwyd, cwtogi a chryfhau cadwyni cyflenwi bwyd, a defnyddio'r plât cyhoeddus i gefnogi a datblygu diwydiant bwyd a diod Cymru.

Fel rhan o Strategaeth Fwyd newydd gynhwysfawr i Gymru, byddwn yn:

- Datblygu brand newydd, swyddogol 'Gwnaed yng Nghymru' sy'n rhoi gwybodaeth glir i ddefnyddwyr am darddle cynnyrch ac arbedion cost carbon drwy brynu'n lleol.
- Gweithio gyda siopau mawr i sicrhau bod gan bob archfarchnad adran bwrpasol ar gyfer cynnyrch o Gymru.
- Hyrwyddo a chefnogi hybiau a mentrau bwyd cymunedol sy'n gwella llythrennedd bwyd, a sicrhau bod bwyd iach, wedi'i gynhyrchu yn lleol ar gael yn ehangach a'i fod yn fwy fforddiadwy.
- Gweithio'n strategol, gan gynnwys drwy ein Hasiantaeth Datblygu Cenedlaethol newydd, i sbarduno arloesedd a datblygu busnesau ym maes bwyd a ffermio, pysgodfeydd a dyframaethu, a chynyddu prosesu bwyd sy'n ychwanegu gwerth yng Nghymru.
- Targedu a chymell cynnydd graddol mewn cynhyrchiant garddwriaethol, gyda'r uchelgais y bydd 25% o'r llysiau sy'n cael eu gweini yn Ysgolion Cymru yn dod o Gymru erbyn 2030.
- Defnyddio caffael cyhoeddus i gefnogi ein sector bwyd a diod yn well, gan gynyddu cyfran y bwyd sy'n cael ei gaffael yn gyhoeddus ac sy'n dod o Gymru o 23% i 50% o leiaf.
- Cyflwyno agwedd ysgol gyfan at fwyd (gyda llythrennedd bwyd a choginio yn rhan greiddiol o'r cwricwlwm), system archwilio ar gyfer cinio ysgol, a hybu rhagoriaeth o ran arlwyo mewn ysgolion.

**Cytundeb newydd i gefn gwlad Cymru**

Mae dros 80% o Gymru yn wledig. Mae pobl sy'n byw yn yr ardaloedd hyn yn aml yn wynebu costau uwch, ond yn ennill incwm is. Mae gwasanaethau cyhoeddus yn gallu bod yn dameidiog, ac yn aml dydy'r modelau ariannu presennol ddim yn ystyried costau ychwanegol eu darparu mewn cymunedau gwledig.

Drwy sicrhau bod sail statudol i brawfesur gwledig cadarn ar gyfer yr holl gynlluniau gwario a rhaglenni polisi, bydd Plaid Cymru yn sicrhau bod ymateb i anghenion penodol cymunedau gwledig yn rhan annatod o bopeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud. A byddwn yn adolygu ac yn diwygio fformiwla ariannu llywodraeth leol er mwyn sicrhau ei bod yn adlewyrchu'n deg y realiti o wasanaethu poblogaethau gwledig yn bennaf.

Byddwn hefyd yn datblygu Strategaeth Datblygu Gwledig wedi'i theilwra i Gymru, gan ddefnyddio'r arferion rhyngwladol gorau i fynd i'r afael â thlodi a chreu cyfleoedd economaidd a chymdeithasol newydd.

Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol i weithredu argymhellion y Comisiwn Cymunedau Cymraeg, gan gefnogi'r Gymraeg fel iaith fyw mewn ardaloedd gwledig.

**Y goeden iawn yn y lle iawn**

Mae plannu coed yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o adfer byd natur, gwella ansawdd aer a dŵr, lleihau'r perygl o lifogydd, a mynd i'r afael â newid hinsawdd – a dydy Cymru ddim wedi gwireddu llawn botensial ei phren fel adnodd cynaliadwy eto.

Er mwyn tyfu gorchudd coed Cymru a helpu i adeiladu diwydiant pren ffyniannus, byddwn yn gwneud y canlynol:

- **Hybu'r gwaith o blannu coed a gwrychoedd, a helpu ffermwyr i integreiddio coed i'w busnesau drwy amaeth-goedwigaeth, coedwigaeth fasnachol ar raddfa fach, a bio-olosg.**



- **Rhoi blaenoriaeth i greu coetiroedd brodorol, adfer coetiroedd a choetiroedd cymysg – gan ddiogelu tir amaethyddol o ansawdd uchel ac osgoi planhigfeydd corfforaethol ar raddfa fawr sy'n cael eu creu dim ond er mwyn gwrthbwyso carbon.**
- **Ymestyn targedau gorchudd coed a gwrychoedd i dir sy'n eiddo i gyrff cyhoeddus neu'n cael ei reoli ganddynt.**
- **Cynyddu gorchudd coed trefol, gan roi blaenoriaeth i geisiadau a chyllid ar gyfer cymunedau sydd â'r gorchudd isaf.**
- **Defnyddio caffael cyhoeddus i ddatblygu'r gadwyn gyflenwi ar gyfer pren Cymru, hybu arloesedd a thwf busnes yn y sector drwy'r Asiantaeth Datblygu Cenedlaethol newydd, a gweithio gyda'r sector i gyflawni Strategaeth Ddiwydiannol Pren Cymru.**

## Lles anifeiliaid

Mae Plaid Cymru yn credu y dylai Cymru osod safonau uchel ar gyfer trin pob anifail. Gan adeiladu ar y safonau lles anifeiliaid uchel sydd eisoes ar waith yng Nghymru, byddwn yn:

- **Datblygu Cynllun Iechyd a Lles Anifeiliaid newydd sy'n cael ei arwain gan wyddoniaeth, ac a fydd yn rhoi sylw i les anifeiliaid anwes ac anifeiliaid fferm.**
- **Cyflwyno fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer sefydliadau lles anifeiliaid – gan sicrhau safonau cyson y gellir eu gorfodi ledled Cymru i ddiogelu lles anifeiliaid a hybu arferion cyfrifol.**
- **Annog pobl i fridio a chadw anifeiliaid anwes yn gyfrifol, gan archwilio cosbau cryfach am berchnogaeth anghyfrifol, hysbysiadau rheoli cŵn, pwerau gorfodi sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a chynllun cofrestru neu drwyddedu cŵn.**
- **Cyflwyno hawl gyfreithiol i rentwyr ofyn am gael cadw anifail anwes, lle nad yw landlordiaid yn gallu gwrthod yn afresymol.**

Bydd llywodraeth Plaid Cymru hefyd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu Ysgol Filfeddygol annibynnol yn Aberystwyth – i helpu i hyfforddi, recriwtio a chadw milfeddygon yng Nghymru, gan hybu darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Cefnogi pysgodfeydd Cymru a gwarchod ein moroedd

Mae moroedd Cymru yn cynnal cyfoeth o fywyd morol, ac mae ein harfordir yn fyd-enwog am ei harddwch a'i fioamrywiaeth. Os caiff ei reoli'n dda, gall ein hamgylchedd morol barhau i gefnogi pysgota, dyframaethu, twristiaeth a chymunedau arfordirol cynaliadwy, gan chwarae rôl hanfodol yn y gwaith o fynd i'r afael â newid hinsawdd.

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- **Hyrwyddo pysgodfeydd Cymru, gan gefnogi'r diwydiant pysgota fel rhan hanfodol o system fwyd ac economi arfordirol Cymru, a gweithio i wella'r mynediad at farchnadoedd Ewropeaidd a byd-eang ehangach ar gyfer pysgod a bwyd môr Cymru.**
- **Darparu cyllid tymor hir wedi'i deilwra drwy Gynllun Môr a Physgodfeydd Cymru i gefnogi busnesau pysgota cynaliadwy, gwella cydnerthedd, a helpu fflyd pysgota Cymru i addasu i heriau yn y dyfodol.**
- **Datblygu Fframwaith Cynllunio Morol newydd i ddisodli dulliau rheoli morol sy'n dameidiog ac yn gorgyffwrdd. Bydd y fframwaith hwn yn seiliedig ar gyd-reolaeth wirioneddol, gyda physgotwyr masnachol a physgotwyr ar raddfa fach yn cymryd rhan lawn yn y gwaith o wneud penderfyniadau, ochr yn ochr â rhanddeiliaid amgylcheddol, cymunedol a'r diwydiant.**
- **Hyrwyddo arferion pysgota a dyframaethu cynaliadwy, a chryfhau gwarchodaeth o fewn y rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig drwy roi'r gorau'n raddol i weithgareddau niweidiol fel carthu a threillrwydo môr-waelodol lle mae'r dystiolaeth yn dangos bod hyn yn bygwth cynefinoedd sensitif. Bydd cymorth pontio teg, gwyddoniaeth gadarn, a phrosesau monitro a gorfodi effeithiol yn mynd ochr yn ochr â hyn, gan weithio gyda Llywodraeth y DU a phartneriaid eraill i sicrhau bod mesurau cadwraeth Cymru yn cael eu defnyddio'n gyson ac yn deg.**
- **Cefnogi Cynllun Morwellt Cenedlaethol a thwf diwydiant gwymon Cymru – gan symleiddio trwyddedu morol, hybu arferion trin cyfrifol, a helpu i adeiladu cadwyn gyflenwi gadarn a gwydn ar gyfer gwymon yng Nghymru.**
- **Gweithredu strategaeth cadwraeth adar môr a chynnal mesurau bioddiogelwch cryf i warchod ardaloedd bridio a bwydo pwysig.**



# Tai, Llywodraeth Leol a Chynllunio

Dylai pawb yng Nghymru gael yr hawl i gartref diogel y gallan nhw ei fforddio. A dylen nhw allu cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus effeithiol mewn cymunedau bywiog a ffyniannus sydd â chysylltiadau da.

Fe wnawn ni'n siŵr bod yr hanfodion hyn yn eu lle.



## Mae cartref cynnes, diogel a fforddiadwy yn hanfodol er mwyn cael bywyd iach a hapus. Ond i ormod o bobl yng Nghymru, mae hyn yn dal y tu hwnt i'w cyrraedd. Bydd llywodraeth Plaid Cymru yn gweithio i newid hyn.

Byddwn yn diogelu rhentwyr, yn adeiladu mwy o dai cymdeithasol, ac yn gwella ansawdd ac effeithlonrwydd ynni tai yng Nghymru.

Byddwn yn sicrhau bod ein hawdurdodau lleol yn y sefyllfa gryfaf bosib i ddarparu'r gwasanaethau rydyn ni i gyd yn dibynnu arnynt.

A byddwn yn diwygio'r system gynllunio er mwyn iddi wasanaethu ein pobl, ein cymunedau a'n busnesau'n well, a helpu i greu Cymru fwy cysylltiedig a ffyniannus.

### Yr hawl i gartref digonol

Mae materion sy'n gorgyffwrdd – cyflenwad tai annigonol, a phrisiau tai a rhenti sy'n codi – i gyd wedi cyfrannu at yr argyfwng tai presennol yng Nghymru.

Er mwyn rhoi sylfaen gref i ymateb llywodraeth Plaid Cymru i'r argyfwng hwn, ac i sbarduno camau pellach, byddwn yn deddfu ar gyfer hawl i gartref digonol yng Nghymru.

Bydd polisi tai yn canolbwyntio ar fynd ati'n raddol i wireddu'r hawl hon, mynd i'r afael â digartrefedd, sicrhau bod costau tai yn adlewyrchu incwm lleol yn well, cefnogi perchnogaeth gymunedol, hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant, a helpu pobl ifanc i aros yn eu cymunedau.

Byddwn yn:

- Sefydlu dull Tai yn Gyntaf o fynd i'r afael â digartrefedd, sy'n ystyriol o drawma ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Yn ogystal â hyn, byddwn yn sicrhau bod deddfwriaeth digartrefedd newydd yn cael ei rhoi ar waith yn effeithiol a'i bod yn cael ei hadolygu'n gyson.
- Blaenoriaethu ymyrraeth gynnar a rhoi cyfrifoldeb ar awdurdodau cyhoeddus penodol i adnabod unigolion sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, ac ymateb yn effeithiol.
- Gweithio gydag awdurdodau lleol i adolygu effeithiolrwydd y mesurau presennol ar ail gartrefi a llety gwyliau – gan gynnwys premiymau'r Dreth Gyngor, cyfarwyddyd Erthygl 4, a Chynllun Peilot Ail Gartrefi a Fforddiadwyedd Dwyfor – gan rannu'r arferion gorau a'r gwersi sy'n cael eu dysgu, ac asesu pa gamau pellach y mae angen eu cymryd.
- Gweithio i fynd i'r afael â ffioedd sy'n blingo tenantiaid, neu 'fleeceholds' – lle mae perchnogion tai yn cael eu llethu gan ffioedd preifat afresymol am gynnal a chadw mannau cyffredin a mannau a rennir – gan sicrhau tryloywder wrth reoli ystadau a bod ffyrdd, mannau gwyrdd a seilwaith hanfodol arall yn eiddo cyhoeddus ac yn cael eu cynnal er budd y cyhoedd.
- Cefnogi gwasanaethau sy'n darparu addasiadau i dai a gwelliannau i gartrefi, ac adeiladu ar hynny, er mwyn i bobl hŷn allu byw'n annibynnol ac yn ddiogel mewn cartrefi hygyrch.
- Mynd ati i gyflymu'r gwaith o adfer eiddo sydd â chladin anniogel a diffygion eraill o ran diogelwch tân, gan gynnwys cryfhau goruchwyliaeth a gorfodaeth lle bo datblygwyr a rhydd-ddeiliaid yn peidio â chadw at amserlenni y cytunwyd arnynt.

## Rhagor o dai cymdeithasol

Bydd llywodraeth Plaid Cymru yn cyflymu'r gwaith o ddarparu tai cymdeithasol dros dymor nesaf y Senedd, gan fynd i'r afael â digartrefedd, cadw pobl allan o lety dros dro anaddas, torri rhestrau aros, a gwneud tai'n fwy fforddiadwy i bawb.

Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol i ddarparu cartrefi newydd o ansawdd uchel, ac i adfer tai gwag i'w defnyddio fel tai cymdeithasol – gan ddarparu o leiaf 20,000 o gartrefi cymdeithasol newydd erbyn 2030.

Byddwn yn:

- **Datblygu ein dealltwriaeth o'r angen am dai drwy gynnal Arolwg Tai Cymru yn rheolaidd a sicrhau gwell safonau data.**
- **Lleihau'r rhwystrau rheoleiddiol sy'n atal rhagor o dai cymdeithasol rhag cael eu hadeiladu a'u prynu, gan gynnwys drwy ofynion effeithlonrwydd ynni mwy cytbwys.**
- **Annog cronfeydd pensiwn Cymru i fuddsoddi mewn adeiladu tai, ac edrych ar yr opsiynau ar gyfer datblygu cynnyrch ariannol newydd drwy Fanc Datblygu Cymru, a drwy ddefnyddio pwerau benthyca Llywodraeth Cymru yn well.**

Byddwn hefyd yn sefydlu hawl gymunedol i brynu, gan gynnwys prynu tir ar gyfer tai, ac yn cefnogi tai dan arweiniad y gymuned fel ffordd o ddarparu tai fforddiadwy sy'n diwallu anghenion lleol.

Er mwyn gwella mynediad at dai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig yn benodol, byddwn yn edrych ar opsiynau i ymestyn hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer anheddau sengl a throsi adeiladau fferm ar gyfer defnydd preswyl.

### Unnos

I gyflymu'r gwaith o ddarparu tai cymdeithasol, byddwn yn sefydlu Unnos – corff datblygu cenedlaethol newydd a hwylusydd tai cymdeithasol. Bydd Unnos yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol a chymdeithasau tai a bydd yn gyfrifol am y canlynol:

- **Cydosod tir a nodi safleoedd – gweithredu fel brocer i ganfod, caffael a dad-risgio safleoedd ar gyfer tai cymdeithasol, ac arwain y defnydd o bwerau prynu gorfodol.**
- **Cynorthwyo gyda cheisiadau cynllunio a rheoli prosiectau, a helpu prosiectau i gydymffurfio â rheolau a safonau.**
- **Hwyluso mynediad at gyllid a helpu prosiectau i sicrhau buddsoddiad.**
- **Cysylltu prosiectau â chyflenwyr, contractwyr a darparwyr gwasanaethau lleol, a chefnogi prosesau caffael.**
- **Hybu arloesedd ym maes tai cymdeithasol, gan gynnwys o ran dulliau adeiladu a chaffael deunyddiau adeiladu o Gymru.**

## Rhenti teg

Mae nifer y rhentwyr yng Nghymru wedi tyfu'n gyflym yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gydag 1 cartref o bob 6 bellach yn rhentu'n breifat. Mae rhentwyr yng Nghymru yn fwy agored i niwed na'u cymheiriaid mewn rhannau eraill o'r DU ac nid oes ganddynt fesurau diogelu tebyg.

Byddwn yn cyflwyno mesurau newydd i ddiogelu rhentwyr yn well, gan gynnwys:

- **Rhoi diwedd ar droi tenantiaid allan heb fai, a rhoi mwy o sicrwydd deiliadaeth i rentwyr, yn ogystal â chyfyngu ar ddarpar denantiaid yn bidio am rent drwy fynnu bod eiddo'n cael ei osod ar y pris a hysbysebir, a chyfyngu ar y rhent sy'n daladwy ymlaen llaw.**
- **Gosod rhenti teg – drwy gyfyngu ar godiad blynyddol rhent yn unol â thwf cyflogau neu chwyddiant y mynegai prisiau defnyddwyr – pa bynnag un sydd isaf, neu feincnod cyfatebol sydd wedi'i ddiffinio'n glir.**

- Rhoi hawl gyfreithiol i rentwyr ofyn am gael cadw anifail anwes, lle nad yw landlordiaid yn gallu gwrthod yn afresymol.
- Gwella ansawdd cyffredinol eiddo rhent, gan adfer peryglon fel lleithder a llwydni yn brydlon.
- Cryfhau gorfodaeth, gwella diogelwch tenantiaid, ac ehangu rôl reoleiddiol Rhentu Doeth Cymru – gan weithio i sicrhau bod arian sy'n cael ei gasglu drwy ddirwyon yn cael ei gadw yng Nghymru, yn hytrach na'i ddychwelyd i Drysorlys y DU.

Er mwyn sicrhau bod llochesi i ddioddefwyr cam-drin domestig yn cael eu gweithredu'n ddiogel ac yn briodol, byddwn yn eu heithrio o'r Ddeddf Rhentu Cartrefi. Byddwn hefyd yn sicrhau bod y diwygiadau pellach rydyn ni'n eu hamlinellu yma wedi'u llunio i ddiwallu anghenion unigryw'r gwasanaethau hanfodol hyn.

Byddwn yn parhau i alw ar Lywodraeth y DU i ddad-rewi'r Lwfans Tai Lleol i leihau'r bwlch rhwng rhent a budd-dal tai, lleihau'r risg o ddigartrefedd i filoedd o deuluoedd, a sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r cynnydd mewn rhenti.

### Cartrefi cynhesach sy'n fwy ynni-effeithlon

Mae cartrefi yng Nghymru yn tueddu i fod yn hŷn ac mewn cyflwr gwaeth nag mewn rhannau eraill o'r DU, sy'n golygu ei bod yn anoddach ac yn ddrutach eu gwresogi. Gallai cynllun effeithiol i ôl-osod ac uwchraddio cartrefi helpu aelwydydd i arbed mwy na 10% ar eu biliau tanwydd blynyddol.

Bydd llywodraeth Plaid Cymru yn sicrhau bod adnewyddu stoc dai Cymru yn genhadaeth genedlaethol – gan fynd yr ail filltir i wella safonau byw, mynd i'r afael â thlodi tanwydd, a lleihau allyriadau carbon cartrefi yn gyflymach.

Gan ddiogelu cymorth mewn argyfwng i'r rhai mewn tlodi tanwydd difrifol, byddwn yn ehangu mynediad at gynlluniau ôl-osod drwy fabwysiadu dull gweithredu sy'n niwtral o ran deiliadaeth ac yn seiliedig ar ardal. Mae hyn yn golygu gweithio tuag at ddulliau sy'n uwchraddio cartrefi ar draws ardal benodol – cartrefi perchen-feddianwyr, cartrefi rhent a chartrefi cymdeithasol – fel bod aelwydydd yn elwa gyda'i gilydd yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar geisiadau unigol.

Bydd ein rhaglen ôl-osod newydd yn:

- Mabwysiadu safonau effeithlonrwydd ynni ymarferol a chyraeddadwy a fydd yn galluogi mwy o gartrefi i gael eu huwchraddio'n gyflymach ac yn fwy cost-effeithiol, gan ddefnyddio'r un adnoddau.
- Mabwysiadu dull cartref cyfan, gan flaenoriaethu'r mesurau inswleiddio mwyaf cost-effeithiol – fel atal drafftiau, inswleiddio'r atig, ac inswleiddio waliau ceudod – gan ychwanegu atebion gwresogi glân fel pympiau gwres lle maen nhw eisoes yn gost-effeithiol, neu baratoi cartrefi ar gyfer eu gosod yn y dyfodol pan fyddan nhw'n fwy cost-effeithiol.
- Grymuso cymunedau i gydweithio er mwyn cynllunio a gwneud cais am fentrau ôl-osod ar draws ardaloedd, gan ddefnyddio hybiau siop-un-stop fel canolbwynt – lle gall deiliaid tai gael gafael ar gymorth, arweiniad a chyngor arbenigol ar welliannau i gartrefi, ac ar optimeiddio atebion ynni cydweithredol sy'n eiddo i'r gymuned.
- Cysylltu deiliaid tai â'r opsiynau cyllido gorau ar gyfer uwchraddio eu cartrefi, gyda chymorth wedi'i deilwra i'r rhai sydd ar yr incwm isaf.
- Sefydlu proses rheoli ansawdd newydd i fonitro safonau'r gwaith a wneir gan osodwyr sy'n gweithredu gyda chyllid a gyfarwyddir gan gynlluniau'r llywodraeth ar gyfer effeithlonrwydd ynni cartrefi, gan gynnwys y gofyniad bod asesiad annibynnol yn cael ei gynnal a bod y gwaith yn cael ei ystyried yn foddhaol cyn talu.
- Cyflymu llwybrau sgiliau perthnasol – gan gynnwys drwy brentisiaethau – i dyfu'r gweithlu, a sicrhau bod mwy o wasanaethau'n cael eu darparu gan fusnesau yng Nghymru.
- Adolygu a diweddaru rheoliadau cynllunio, gan gynnwys rhoi hawliau datblygu a ganiateir cliriach ar waith ar gyfer pympiau gwres ac ynni adnewyddadwy mewn cartrefi.

Bydd y rhaglen yn gwneud cartrefi'n gynhesach ac yn rhatach i'w rhedeg, yn ogystal â thyfu'r economi werdd, lleihau allyriadau carbon, gwella canlyniadau iechyd a rhoi Cymru ar flaen y gad o ran gweithredu'n gynhwysol, yn uchelgeisiol ac yn ymarferol ar yr hinsawdd.

### Partneriaeth newydd gyda llywodraeth leol

Bydd Plaid Cymru yn adnewyddu'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol – gan sicrhau eu bod yn bartneriaid llawn yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Adolygu'r fformiwla gyllido ar gyfer llywodraeth leol fel ei bod yn adlewyrchu gwir gost darparu gwasanaethau mewn gwahanol rannau o Gymru yn well, a chyflwyno cyllid gwaelodol i sicrhau nad oes unrhyw awdurdod lleol dan anfantais.
- Darparu mwy o gyllid craidd i awdurdodau lleol ei ddyrannu i wasanaethau a blaenoriaethau a bennir yn lleol, a lleihau faint o gyllid sy'n cael ei ddyrannu i gynghorau drwy gyllid grant tameidiog a chystadleuol – gan leihau biwrocratiaeth a'r amser sy'n cael ei wastraffu ar geisiadau grant nad ydynt bob amser yn llwyddiannus.
- Cydweithio â chynghorau ar ddiwygiadau ariannol – gan gynnwys y Dreth Gyngor ac ardrethi busnes, yn ogystal â gweithredu'r ardoll Twristiaeth – gan gynnwys sicrhau bod mwy o arian yn cyrraedd gwasanaethau rheng flaen.
- Cefnogi cynghorau i ddarparu ac ehangu mynediad at wasanaethau sy'n cael eu gyrru'n ddigidol, a chyflawni Safonau Gwasanaethau Digidol.

### Cynllunio dan arweiniad y gymuned, a meithrin agwedd 'gwnaed yng Nghymru' tuag at ddatblygu rhanbarthol

Byddwn yn cyflwyno dull newydd o gynllunio'n strategol sy'n dod â thai, adfywio, cysylltedd a datblygu economaidd at ei gilydd mewn un weledigaeth gydlynol ar gyfer Cymru.

Byddwn yn diwygio prosesau cynllunio fel eu bod yn adlewyrchu anghenion lleol yn hytrach na buddiannau datblygwyr yn unig. Byddwn hefyd yn datglymu'r fframweithiau cenedlaethol a rhanbarthol sydd bellach yn we gymhleth ac aneffeithlon o flaenoriaethau anghyson ac olion traed daearyddol sy'n gorgyffwrdd.

**Cynllunio**

Wrth ddiwygio polisi cynllunio yng Nghymru, byddwn yn:

- Mabwysiadu dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac sy'n diogelu ac yn cryfhau arweinyddiaeth leol wrth bennu blaenoriaethau cynllunio.
- Diwygio prosesau ymgynghori i roi pŵer go iawn i gymunedau ddylanwadu ar gynlluniau datblygu lleol, a sicrhau bod modd diwygio'r cynlluniau hyn mewn ymateb i newidiadau amser real mewn anghenion tai lleol.
- Gwneud prosesau cynllunio yn llai cymhleth a biwrocrataidd, gan roi mwy o eglurder a sicrwydd o ran amserlenni cydsynio, ac ymestyn hawliau datblygu a ganiateir – gan gynnwys ar gyfer prosiectau tai ac ynni dan arweiniad y gymuned, ac ynni adnewyddadwy ar raddfa fach.
- Defnyddio'r arferion gorau a hybu defnydd mwy effeithiol o gytundebau Adran 106 i gryfhau'r broses gynllunio ei hun – gan wella eglurder, cyflymu'r broses gwneud penderfyniadau, a sicrhau bod datblygiadau'n esgor ar fanteision lleol amlwg.
- Gwreiddio ystyriaeth i'r Gymraeg yn y system gynllunio, gan weithio gydag awdurdodau lleol i weithredu argymhellion y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ar gynllunio gwlad a thref.

**Datblygu Rhanbarthol a Strategaeth Ofodol**
Rhwng Ardaloedd Buddsoddi, Ardaloedd Menter a Thwf Deallusrwydd Artiffisial, Porthladdoedd Rhydd, Bargeinion Twf Dinesig a Rhanbarthol, Cymdogaethau Blaengar, a rhaglenni Twf Lleol a Balchder Bro, mae Cymru wedi dod yn glytwaith o fentrau rhanbarthol sy'n gorgyffwrdd ac yn gwrthdaro o ran eu blaenoriaethau tymor byr, tymor canolig a thymor hir – rhai wedi'u llunio yng Nghymru, eraill wedi'u gorfodi arnom gan San Steffan.

Mae'r system dameidiog yma'n golygu nad yw arian cyhoeddus yn cael ei wario mor effeithiol ag y dylai. Ac mae diffyg strategaeth ofodol glir yn gwaethygu hyn. Mae gormod o ddyblygu a gorgyffwrdd rhwng Cyd-bwyllgorau Corfforedig, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a dydy ôl troed daearyddol y rhain a chyrff eraill ddim yn gydlynol.

Mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol presennol wedi methu ag integreiddio'r mentrau a'r strwythurau hyn i greu fframwaith rhesymegol ar gyfer Cymru gyfan.

Er mwyn ailwampio'r maes cynllunio gofodol a datblygu rhanbarthol yng Nghymru, byddwn yn cynhyrchu Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd, sy'n rhoi gweledigaeth a goruchwyliaeth strategol go iawn.



Bydd gweithio gyda phartneriaid mewn llywodraeth leol yn rhan ganolog o hyn, er mwyn:

- **Cytuno ar ddull cydweithio rhanbarthol mwy effeithiol sy'n cael ei arwain gan gynghorau.**
- **Creu map rhanbarthol newydd a chynllun i'w roi ar waith.**

Y nod fydd grymuso llywodraeth leol; lleihau costau, biwrocratiaeth a dyblygu; a chreu mwy o gydlyniad rhwng olion traed strwythurau rhanbarthol.

Bydd strwythurau llywodraeth yng Nghymru – gan gynnwys cynghorau tref a chymuned, awdurdodau unedol a strwythurau rhanbarthol – yn cael eu hadolygu'n barhaus i sicrhau eu bod yn dal yn addas i'r diben. A lle bo modd hybu datblygiad rhanbarthol a lleol yn effeithiol a gwella darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus, byddwn yn rhoi mwy o ryddid i awdurdodau lleol gydweithio â'i gilydd ar brosiectau ar y cyd y tu allan i strwythurau rhanbarthol presennol.

Drwy weithio gyda Llywodraeth y DU lle bo hynny'n berthnasol – gan gynnwys i sicrhau bod cyllid datblygu rhanbarthol yn cael ei ddatganoli'n llawn – byddwn yn adolygu'r holl fentrau rhanbarthol yn erbyn eu nodau eu hunain ac yn erbyn ein Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd ni, gan sicrhau y gwneir y defnydd gorau o arian cyhoeddus, a bod rhaglenni nad ydynt yn cyflawni yn cael eu disodli neu eu dirwyn i ben.

# Cyfiawnder a Thegwch Cymdeithasol

Parch. Undod. Chwarae teg. Mae'r gwerthoedd hyn wedi bod yn bwysig i bobl yng Nghymru erioed.

Byddwn yn eu defnyddio fel egwyddorion arweiniol y llywodraeth – gan siapio sut rydyn ni'n lleihau tlodi, yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac yn adeiladu cymunedau sy'n fwy teg, diogel ac unedig.



## Bydd camau ymarferol i fynd i'r afael ag anghyfiawnder tlodi plant a rhoi dechrau teg mewn bywyd i bob plentyn yn brif flaenoriaeth i lywodraeth Plaid Cymru.

Byddwn yn sicrhau bod pawb yn teimlo bod croeso iddynt a'u bod yn gallu chwarae eu rhan yn ein cymuned o gymunedau – ac nad oes unrhyw un yn wynebu gwahaniaethu nac yn cael ei drin yn annheg.

A byddwn yn brwydro am y pwerau sydd eu hangen arnom i adeiladu system gyfiawnder sy'n gweithio i Gymru.

### Torri'r cylch tlodi

Bydd codi plant allan o dlodi yn genhadaeth ganolog a thyngedfennol i lywodraeth Plaid Cymru.

Mae tlodi'n faich ar blant ac mae tynnu'r baich hwnnw yn eu helpu i berfformio'n well yn yr ysgol, yn gwella eu hiechyd hirdymor, eu llesiant a'u cyfleoedd mewn bywyd, ac yn lleihau biliau'r systemau lles ac iechyd.

Felly, mae lleihau tlodi plant yn fuddsoddiad clyfar yn nyfodol Cymru. Ac wrth wneud y buddsoddiad hwn, byddwn yn cael ein harwain gan y dystiolaeth ryngwladol ar yr hyn sy'n gweithio go iawn wrth fynd i'r afael â thlodi plant.

Yn wahanol i lywodraethau blaenorol Cymru, byddwn yn defnyddio pob arf a dull sydd ar gael i leihau tlodi plant, a byddwn yn mynd ati heb ymddiheuriad i bwyso am ddatganoli'r pwerau ychwanegol sydd eu hangen arnom i fynd ymhellach o ran cyflawni'r genhadaeth hon.

Byddwn yn pwyso ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod cael gwared ar y terfyn dau blentyn ar gyfer budd-daliadau yn arwain at newid go iawn i blant sy'n byw mewn tlodi, gan gynnwys drwy godi'r cap cyffredinol ar fudd-daliadau.

**Strategaeth tlodi plant sy'n addas i'r diben**
Fel blaenoriaeth uniongyrchol i lywodraeth newydd Plaid Cymru, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cynllun newydd i fynd i'r afael â thlodi plant, gan osod targedau, meincnodau a cherrig milltir clir i sbarduno newid sy'n uchelgeisiol, ond sy'n gallu cael ei gyflawni.

Wrth ddisodli'r dull presennol – sydd heb ffocws na chyfeiriad – byddwn yn dysgu o'r arferion rhyngwladol gorau ac yn darparu ymyriadau wedi'u targedu y gellir mesur eu heffaith yn glir.

**Trechu tlodi drwy ofal plant**
Gall gofal plant fforddiadwy o ansawdd da drawsnewid cyfleoedd bywyd plant – yn enwedig plant o'r cefndiroedd mwyaf difreintiedig. Mae hefyd yn helpu rhieni i ddychwelyd i'r gwaith ac yn rhoi hwb i incwm teuluoedd.

Pan fydd wedi'i gyflwyno'n llawn, ein cynnig gofal plant newydd fydd y cynnig mwyaf hael yn y DU, gan roi 20 awr o ofal plant am ddim yr wythnos, am 48 wythnos y flwyddyn, i blant rhwng 9 mis oed a 4 blwydd oed – gofal sy'n werth dros £30,000 i deulu ym mhedair blynedd gyntaf bywyd plentyn.

Bydd y cynnig cyffredinol hwn ar gael i bob rhiant, beth bynnag yw eu statws gwaith.

**Ehangu'r Cynllun Prydau Ysgol Am Ddim**
Byddwn yn adeiladu ar ein gwaith yn darparu prydau ysgol am ddim i bob plentyn mewn ysgol gynradd drwy sicrhau bod pob disgybl ysgol uwchradd o gartref sy'n hawlio Credyd Cynhwysol yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim – gan gael gwared ar y terfyn enillion presennol o £7,400.

Byddwn hefyd yn sicrhau bod prydau ysgol am ddim yn cael eu hymestyn i fyfyrwyr ysgolion uwchradd sydd Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus ac sy'n byw mewn cartrefi ag incwm heb fod yn uwch na throthwyon Credyd Cynhwysol cyfatebol.

**Cynnal – Taliad Plant Cymru**
Mae tystiolaeth ryngwladol yn dangos mai taliadau arian wedi'u targedu i deuluoedd incwm isel yw un o'r dulliau mwyaf effeithiol o leihau tlodi plant yn gynaliadwy.

Mae'r dull hwn eisoes yn cael ei ddefnyddio yn yr Alban drwy Daliad Plant yr Alban, sy'n helpu i godi degau o filoedd o blant allan o dlodi.

Byddwn yn treialu Cynnal, Taliad Plant Cymru, gan roi £10 yr wythnos ar gyfer plant 0-6 oed mewn aelwydydd sy'n hawlio Credyd Cynhwysol. Bydd y cynllun peilot yn cael ei gyflwyno i ddechrau mewn nifer cyfyngedig o ardaloedd awdurdodau lleol, a fydd yn cael eu dewis gan ddefnyddio meini prawf gwrthrychol fel rhan o ddyluniad y cynllun peilot.

Bydd y cynllun peilot yn cael ei ddefnyddio i adeiladu sylfaen dystiolaeth gadarn ac i lywio'r gwaith o gyflwyno'r taliad ledled Cymru.

## Rhoi System Budd-daliadau Cymru ar waith yn llawn

Dylid datganoli nawdd cymdeithasol er mwyn i ni allu dylunio a darparu amddiffyniadau cymdeithasol wedi'u gwneud yng Nghymru sy'n adlewyrchu anghenion a gwerthoedd ein pobl a'n cymunedau yn well. Bydd llywodraeth Plaid Cymru yn pwyso ar Lywodraeth y DU i wneud hyn.

Wrth i ni frwydro dros ddatganoli pwerau llawn dros les, byddwn yn gweithio i wella System Budd-daliadau bresennol Cymru – sydd ar hyn o bryd yn cynnwys Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, Bwndeli Babi, Prydau Ysgol am Ddim, y Grant Hanfodion Ysgol, y Lwfans Cynhaliaeth Addysg, Grant Dysgu Llywodraeth Cymru a Thalebau Cychwyn Iach.

Byddwn yn:

- Cadw Grŵp Llywio Budd-daliadau Cymru, i sicrhau bod gwaith yn parhau ar gyflwyno System Budd-daliadau Cymru, gan gynnwys ymgorffori Cynnal fel budd-dal newydd i Gymru.
- Adolygu effeithiolrwydd budd-daliadau unigol presennol Cymru, yn ogystal â chynlluniau cysylltiedig fel y Gronfa Cymorth Dewisol, er mwyn cael yr effaith fwyaf bosib a sicrhau gwerth am arian.
- Sicrhau bod meini prawf cymhwysedd a gwerth arian budd-daliadau Cymru yn addas i'r diben.
- Symleiddio mynediad at fudd-daliadau Cymru, gan gynnwys creu dyletswydd statudol i'w darparu'n awtomatig i aelwydydd cymwys.
- Edrych ar opsiynau ar gyfer budd-daliadau Cymru yn y dyfodol, fel Grant Babanod i helpu rhieni newydd mewn aelwydydd incwm isel i fforddio offer hanfodol.

## Gwaith Teg yn Gyntaf

Mae Plaid Cymru yn credu mewn gwaith teilwng sy'n talu'n deg. Byddwn yn mabwysiadu dull Gwaith Teg yn Gyntaf o ddyfarnu grantiau, benthyciadau a chontractau yn y sector cyhoeddus. Bydd hyn yn sicrhau bod sefydliadau sy'n elwa ar arian cyhoeddus yn talu cyflog byw, yn rhoi llais go iawn i weithwyr, yn buddsoddi mewn sgiliau a datblygu'r gweithlu, ac nad ydynt yn defnyddio contractau dim oriau yn amhriodol.



## Deddf Hawliau Dynol i Gymru

Yn rhy aml, mae pobl yng Nghymru yn meddwl am eu hawliau fel dyheadau, yn hytrach nag amddiffyniadau cyfreithiol go iawn. Nid yw ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i gynnal setiau allweddol o hawliau wedi cael eu trosi'n fframweithiau cyfreithiol a mecanweithiau atebolrwydd sydd eu hangen i sicrhau bod yr hawliau hyn yn golygu rhywbeth ym mywyd pobl o ddydd i ddydd.

Yn unol ag argymhellion gan y Cenhedloedd Unedig, pwyllgorau'r Senedd ac arbenigwyr cyfreithiol annibynnol, bydd Deddf Hawliau Dynol newydd yn ymgorffori cytundebau rhyngwladol allweddol yn llawn yng nghyfraith Cymru, gan gynnwys:

- **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl (UNCRDP)**
- **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddiddymu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod (CEDAW)**
- **Y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (ICECSR)**
- **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddiddymu Gwahaniaethu ar sail Hil (CERD)**
- **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)**

Byddwn yn sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn cael eu darparu drwy ddull cadarn sy'n seiliedig ar hawliau a bod pobl anabl, menywod, cymunedau sy'n cael eu diffinio ar sail hil, plant a phobl ifanc, a phobl sydd â phrofiad bywyd o dlodi a lloches yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o ddylunio, gweithredu a monitro polisi cyhoeddus.

## Cydraddoldeb rhwng y rhywiau, ac amddiffyn a hybu hawliau menywod

Rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau Cymru sy'n gyfartal o ran rhywedd. Dylai menywod a merched allu byw heb wynebu gwahaniaethu, trais ac anfantais economaidd, a mwynhau grym, cyflog a chyfleoedd cyfartal.

Gan ddefnyddio dull croestoriadol sy'n seiliedig ar hawliau i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhwng y rhywiau, byddwn yn:

- **Gwreiddio ac ymgorffori hawliau menywod a merched yn y gyfraith, drwy Ddeddf Hawliau Dynol newydd i Gymru.**
- **Gweithio i roi terfyn ar anghydraddoldeb rhwng y rhywiau yn economi Cymru, gan gynnwys drwy gymorth wedi'i dargedu i fenywod allu cael swyddi medrus sy'n talu'n dda, cyllidebu ar sail rhywedd, a chasglu, dadansoddi a chyhoeddi data economaidd cadarn wedi'i ddadgyfuno yn ôl rhywedd fel mater o drefn, gan gynnwys data ar y bwlch cyflog.**
- **Gwella mynediad at ofal plant fforddiadwy drwy ein cynnig gofal plant newydd, cefnogi gofalwyr di-dâl, a sicrhau bod gweithwyr gofal yn cael eu talu'n deg.**
- **Cryfhau'r Cynllun Iechyd Menywod a Merched a gwarantu cynnyrch mislif am ddim i wella urddas mislif.**
- **Gweithio i gynyddu cynrychiolaeth menywod a merched mewn gwleidyddiaeth, a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu gwreiddio'n ystyrlon yn y gwaith o ddylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus.**

Byddwn yn gweithio ar draws pob maes llywodraeth i roi diwedd ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV), a hynny drwy ddull system gyfan, cymdeithas gyfan, sy'n seiliedig ar atal.

Bydd hyn yn cynnwys siarad â phobl o bob oed mewn ysgolion, gweithleoedd a gwasanaethau cyhoeddus i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol trais a cham-drin. Byddwn yn gwreiddio addysg ar berthnasoedd iach ac yn rhoi

arweiniad i rieni, addysgwyr ac arweinwyr cymunedol i gefnogi ymyriadau cynnar.

Byddwn yn helpu cyflogwyr i greu gweithleoedd mwy diogel, heb drais na cham-driniaeth.

A byddwn yn rhoi cymorth i dioddefwyr a goroeswyr drwy ddiogelu cyllid ar gyfer gwasanaethau arbenigol sy'n canolbwyntio ar oroeswyr, a drwy eithrio llochesi ar unwaith o'r Ddeddf Rhentu Cartrefi i sicrhau mynediad at lety diogel.

### LHDTC+

Rydyn ni wedi ymrwymo i ddiogelu hawliau pobl LHDTC+ yng Nghymru a sicrhau bod pawb yn gallu byw heb ragfarn, anoddefgarwch a chasineb. Roedd Plaid Cymru wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o sicrhau bod Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru yn cael ei gyflawni, a bydd ein llywodraeth yn gwneud yn siŵr ei fod yn cael ei roi ar waith yn llawn.

Rydyn ni'n gwrthod ymdrechion i droi bywydau, profiadau a hunaniaeth pobl LHDTC+ yn fater diwylliannol cynhennus sy'n peri rhwyg. Byddwn yn sefyll dros gydraddoldeb ac urddas, ac yn gwrthwynebu pob math o homoffobia, deuffobia a thrawsffobia.

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- **Adolygu a, lle bo angen, cryfhau'r Cynllun Gweithredu LHDTC+, dal gwasanaethau cyhoeddus yn atebol, a mesur ac adrodd ar gynnydd yn erbyn y Cynllun.**
- **Sicrhau bod addysg – gan gynnwys addysg ar ryw a pherthnasoedd iach – yn gynhwysol i bobl LHDTC+, a gwreiddio mesurau gwrth-fwlio mewn ysgolion.**
- **Pwyso ar Lywodraeth y DU am waharddiad llawn, traws-gynhwysol ar 'therapi trosi', gan sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cymryd pob cam posib i fynd i'r afael â'r arferion niweidiol hyn a chefnogi goroeswyr.**
- **Cefnogi'r gwaith o ddatblygu Gwasanaeth Rhywedd Cymru, gan ddilyn yr arferion rhyngwladol gorau, i sicrhau bod pobl – gan gynnwys pobl ifanc – yn gallu cael gafael ar ofal priodol a phrydlon yng Nghymru heb orfod teithio i Loegr.**
- **Gweithio tuag at broses symlach ac anfeddygol ar gyfer cydnabod rhywedd, gan gynnwys drwy fynd ar drywydd datganoli pwerau perthnasol.**
- **Rhoi cefnogaeth barhaus i sefydliadau Pride, a chefnogi cynnig Cymru i gynnal EuroPride yn 2029.**

### Pobl Hŷn

Bydd llywodraeth Plaid Cymru yn gweithio i wneud yn siŵr bod pobl yn gallu cynnal eu hannibyniaeth a'u hurddas wrth iddynt heneiddio – gan sicrhau y gall pobl hŷn barhau i chwarae rhan lawn a gweithredol yn eu cymunedau, a bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cynllunio gyda'u hanghenion penodol mewn golwg.

Byddwn yn:

- **Hyrwyddo iechyd a lles pobl hŷn drwy Gynllun Iechyd Pobl Hŷn newydd a ffocws newydd ar fesurau iechyd ataliol.**
- **Cymryd y camau nesaf tuag at ddarparu gwasanaeth iechyd a gofal integredig i Gymru.**
- **Adeiladu ar wasanaethau presennol i gyflawni addasiadau a gwelliannau tai fel bod pobl hŷn yn gallu byw'n annibynnol ac yn ddiogel, a chyflwyno cynllun newydd i uwchraddio ac ôl-osod mwy o gartrefi yn gyflymach – gan eu gwneud yn gynhesach ac yn rhatach i'w rhedeg, a chyfrannu hefyd at ein huchelgeisiau Net Sero.**
- **Sicrhau bod mesurau i fynd i'r afael â thlodi yn ystyried anghenion pobl hŷn. Bydd hyn yn cynnwys cryfhau gwasanaethau cyngor a chymorth mewn ffordd nad yw'n eithrio pobl hŷn yn ddigidol, er mwyn helpu mwy o bobl i gael mynediad at yr ystod lawn o fudd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt.**

### System fewnfudo sy'n gweithio i Gymru

Nid yw polisi mudo yn fater datganoledig ac mae Llywodraethau olynol y DU wedi gadael cymunedau a mudwyr i lawr gyda'u polisïau.

Rydyn ni'n gwerthfawrogi'r cyfraniad pwysig mae pobl o bob cwr o'r byd yn ei wneud i'n cymunedau, ein heconomi a'n gwasanaethau cyhoeddus, ac rydyn ni'n condemnio'r rhai sy'n troi mewnfudo'n fater sy'n rhwygo pobl a chymunedau.

Dydy Plaid Cymru ddim yn cefnogi ffiniau agored na mewnfudo direolaeth. Pe bai pwerau dros fudo yn cael eu datganoli, byddai modd i ni ddarparu system mudo rheoledig deg sy'n seiliedig ar reolau, sy'n gweithio i Gymru, sy'n adlewyrchu ein hanghenion, ac sy'n cynnal ein gwerthoedd. Rydyn ni'n falch o hanes hir Cymru o groesawu pobl sy'n ffoi rhag trais neu erledigaeth gyda pharch, diogelwch a thosturi.

Er nad oes gan Gymru'r pŵer ar hyn o bryd i benderfynu pwy sy'n ceisio lloches yma, gallwn drin y rhai sy'n cyrraedd yn gwrtais, darparu cymorth a chyfleoedd iddynt gyfrannu at eu cymunedau, a sicrhau eu bod yn gallu ailadeiladu eu bywydau'n ddiogel a gydag urddas.

Byddwn yn:

- **Mynd i'r afael â chamwybodaeth a thwyllwybodaeth am geiswyr lloches, ffoaduriaid a mudwyr – gan ddiogelu'r weledigaeth ryngwladol o genhedloedd noddfa a sicrhau bod yr egwyddorion sy'n sail i'r weledigaeth hon yn cael eu gwreiddio ar draws polisi ac ymarfer y llywodraeth mewn ffyrdd sy'n hybu integreiddio a chydlyniant cymunedol.**
- **Pleidio'r achos dros greu fisa sy'n benodol i Gymru a rhestr o alwedigaethau lle mae prinder fel y camau cyntaf at ddatganoli pwerau dros fewnfudo yn llawn.**
- **Gwrthwynebu cyfyngiadau ar fisâu myfyrwyr ac annog mwy o fyfyrwyr rhyngwladol i ddewis astudio yng Nghymru.**
- **Datblygu strategaeth gydlynol i roi cymorth i fudwyr a cheiswyr noddfa sydd heb hawl i gyllid cyhoeddus, gan weithio'n agos gyda llywodraeth leol a phartneriaid yn y trydydd sector i roi diwedd ar amddifadedd.**

Rydyn ni'n gwrthwynebu model presennol Swyddfa Gartref y DU ar gyfer 'gwestai lloches', sy'n cyfrannu at densiynau cymunedol, sy'n gallu cynyddu'r pwysau ar wasanaethau lleol ac sy'n gwneud ceiswyr lloches yn ynysig ac yn agored i niwed.

Byddwn yn pwyso ar Lywodraeth y DU i ddefnyddio cymal terfynu 2026 yn ei chontractau rheoli presennol i ddisodli'r system hon sydd wedi methu, gan eirioli dros bolisi gwasgaru teg sy'n hybu integreiddio, yn cydnabod anghenion tai lleol ac yn cefnogi gwasanaethau cyhoeddus yn briodol.

## Cymru Wrth-hiliol

Mae hiliaeth yn dal yn broblem strwythurol yn ein cymunedau, ein heconomi a'n gwleidyddiaeth. Rydyn ni'n falch o'n rôl yn cyflawni'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, a bydd llywodraeth Plaid Cymru yn gweithio i'w wreiddio a'i ddatblygu.

Byddwn yn:

- **Gwreiddio Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddiddymu Gwahaniaethu ar sail Hil yng nghyfraith Cymru drwy Ddeddf Hawliau Dynol i Gymru.**
- **Parhau i adolygu'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ac adrodd ar y cynnydd, gan weithio'n agos gyda phobl sydd â phrofiad bywyd o hiliaeth, gwrth-Semitiaeth, Islamoffobia a rhagfarn yn erbyn Sipsiwn, Roma a Theithwyr i gryfhau'r ddarpariaeth a'r effaith.**
- **Gwella'r gwaith o gasglu a rhannu data i sbarduno ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnwys ar droseddau casineb a digwyddiadau hiliol mewn ysgolion.**
- **Cryfhau'r broses o adrodd troseddau casineb a'r cymorth i ddioddefwyr, gan sicrhau bod digwyddiadau'n cael sylw prydlon ac effeithiol.**
- **Gwreiddio addysg gwrth-hiliaeth ar draws y cwricwlwm.**

- Sicrhau bod strategaethau a rhaglenni i fynd i'r afael â thlodi yn rhoi sylw manwl i'r lefel uwch o dlodi ymysg cymunedau Du ac ethnig leiafrifol.
- Gweithio i gynyddu cynrychiolaeth pobl Ddu ac ethnig leiafrifol yng ngwleidyddiaeth a bywyd cyhoeddus Cymru, a chryfhau dyletswyddau i hybu amrywiaeth a chynhwysiant mewn prosesau recriwtio ar draws sefydliadau sy'n cael arian cyhoeddus.

### Cynllun Hawliau Pobl Anabl

Rydyn ni wedi ymrwymo i'r model cymdeithasol o anabledd – gan gydnabod mai rhwystrau cymdeithasol ac nid amhariadau unigol yn unig sy'n anablu pobl.

Gan fabwysiadu dull seiliedig ar hawliau o gael gwared ar y rhwystrau hyn a hybu tegwch a chynhwysiant go iawn i bobl anabl, byddwn yn:

- Ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl yng nghyfraith Cymru drwy Ddeddf Hawliau Dynol i Gymru.
- Darparu Cynllun Gweithredu cadarn ar Hawliau Pobl Anabl sy'n canolbwyntio ar gamau gweithredu, gyda llinellau atebolrwydd clir ac adroddiadau rheolaidd a thryloyw ar gynnydd.
- Cael gwared ar y rhwystrau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan, hybu mynediad cyfartal a hyrwyddo arweinyddiaeth pobl anabl mewn bywyd cyhoeddus, proffesiynol a gwleidyddol yng Nghymru.
- Sicrhau bod lleisiau pobl anabl yn cael eu clywed wrth ddylunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau cyhoeddus Cymru – a bod seilwaith ffisegol a digidol yn cael ei ddylunio i hybu hygyrchedd ac annibyniaeth.

### Niwroamrywiaeth

Mae Plaid Cymru yn credu y dylid cydnabod niwroamrywiaeth fel mater cydraddoldeb, ac y dylai gwasanaethau cyhoeddus orfod gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl ag awtistiaeth, ADHD a chyflyrau niwrowahanol eraill.

Byddwn yn:

- Sicrhau bod lleoliadau addysgol, iechyd a gofal cymdeithasol, gweithleoedd, trafnidiaeth a gwasanaethau cyhoeddus eraill i gyd wedi'u cynllunio i fod yn hygyrch i bobl niwrowahanol heb rwystrau diangen.
- Gweithio i leihau amseroedd aros ar gyfer asesiadau a chymorth niwroddatblygiadol, archwilio ffyrdd o symleiddio prosesau a sicrhau mynediad prydlon at gymorth, hyd yn oed cyn diagnosis ffurfiol – gan roi'r gorau i orfeddyginiaethu a throthwyon diagnostig anhyblyg.
- Gwella ymwybyddiaeth o niwroamrywiaeth a hyfforddiant niwroamrywiaeth, gan gynnwys ymysg athrawon, meddygon, darparwyr gwasanaethau cyhoeddus a busnesau.
- Rhoi lleisiau pobl niwrowahanol wrth galon y gwaith o ddylunio a gweithredu polisïau, er mwyn i'w profiad bywyd fod yn sail i'r gwaith o ddatblygu, darparu a gwerthuso gwasanaethau.

Byddwn yn gweithredu ar argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar yr Ymgyrch 'Cartrefi nid Ysbytai' gan Bywydau wedi'u Dwyn er mwyn creu llwybr i sicrhau bod mwy o bobl ag anableddau dysgu ac awtistiaeth yn gallu byw'n ddiogel, yn nes at adref.

### Datganoli Cyfiawnder a Phlismona

Mae'r dystiolaeth yn glir: dylid datganoli cyfiawnder a phlismona i Gymru, yn yr un modd â Gogledd Iwerddon a'r Alban. Mae yna gymhelliad newydd yn sgil diwygiadau plismona parhaus ac ar ôl i Lywodraeth y DU gael gwared ar Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu, a byddwn yn pwyso am ddatganoli hyn yn llawn gyda'r brys y mae'n ei haeddu.

Wrth i ni baratoi ar gyfer datganoli, byddwn yn gosod y sylfeini ar gyfer system gyfiawnder i Gymru sy'n gydlynol, yn ataliol ac yn addas i Gymru.

Byddwn yn:

- Cyflwyno Bil Tribiwnlysoedd Cymru yn gynnar yn nhymor y Senedd, i greu system tribiwnlysoedd fwy clir, cydlynol ac annibynnol – gyda gweithdrefnau mwy modern, atebolrwydd cryfach, a ffocws cliriach ar ddefnyddwyr.
- Ehangu prentisiaethau cyfreithiol yng Nghymru a gweithio gyda'r proffesiwn, rheoleiddwyr a darparwyr hyfforddiant i ddatblygu llwybrau lefel uwch, gan gynnwys llwybrau ar lefel cyfreithwyr, er mwyn i fwy o bobl allu cymhwyso a datblygu gyrfaoedd ym maes y gyfraith yng Nghymru.

A phan fydd pwerau'n cael eu datganoli, byddwn yn adeiladu system gyfiawnder yng Nghymru lle:

- Mae cyfiawnder ieuenctid yn cael ei drawsnewid – gan godi oedran cyfrifoldeb troseddol, rhoi'r gorau i garcharu troseddwyr yn ganolog a'u hadsefydlu'n lleol yn lle, a gwreiddio cyfiawnder adferol ac ymarfer sy'n ystyriol o drawma.
- Mae anghenion penodol pobl niwrowahanol yn cael eu cydnabod ac mae iechyd meddwl, dibyniaeth, a gwasanaethau cymdeithasol eraill yn cael eu hintegreiddio'n llawn i'r gwasanaeth prawf, gan ddarparu cymorth mwy effeithiol ar gyfer adsefydlu a lleihau aildroseddu.
- Mae plismona yng Nghymru yn seiliedig ar hawliau ac yn atebol i'r Senedd, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch cymunedol drwy ddulliau atal sy'n cael eu harwain gan ddata, a phartneriaeth â chymunedau lleol.

Yn y lle cyntaf, byddwn yn gwneud mwy i fynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi troseddu. Byddwn yn sefydlu Asiantaeth Genedlaethol ar gyfer Atal Troseddu er mwyn:

- Cryfhau data penodol i Gymru ar droseddu, dedfrydu, plismona, carchardai a chanlyniadau, i gefnogi'r gwaith o lunio polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Cydlynu'r gwaith o atal a dargyfeirio troseddau ar draws heddluoedd, y GIG, awdurdodau lleol, ysgolion a phartneriaid yn y trydydd sector – gan rannu'r arferion gorau a mynd i'r afael â'r pethau sylfaenol sy'n achosi troseddu.
- Cefnogi strategaethau ymyrraeth gynnar, cyfiawnder adferol a dargyfeirio i leihau troseddu a gwneud cymunedau'n fwy diogel.
- Ehangu Model Caerdydd yn genedlaethol, gan ddefnyddio data dienw o ysbytai mewn perthynas ag anafiadau treisgar i dargedu camau ataliol mewn mannau lle ceir llawer o droseddu treisgar, ac i archwilio sut y gellir cymhwyso hyn a dulliau arloesol eraill i ystod ehangach o droseddau.

Byddwn yn cynnal cymorth Llywodraeth Cymru i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs).

Byddwn yn ceisio ymestyn Safonau'r Gymraeg a gweithio i sicrhau mwy o integreiddio rhwng addysg, gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd datganoledig mewn carchardai, gan sicrhau mynediad at wasanaethau yn Gymraeg, a gwella'r cymorth sydd ar gael i bobl sy'n gadael y carchar.

Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i leihau'r effaith anghymesur y mae'r 'ffin arw' rhwng cyfrifoldebau datganoledig a chyfrifoldebau heb eu datganoli yn ei chael ar fenywod yn y system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys sicrhau bod llai o fenywod sy'n cael eu dedfrydu yng Nghymru yn cael eu cadw mewn carchardai yn Lloegr, ymhell o'u teuluoedd a'u rhwydweithiau cymorth.

### Cyn-filwyr a Chyfamod y Lluoedd Arfog

Rydyn ni wedi ymrwymo i gynnal egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog a sicrhau mynediad teg at ofal iechyd, tai a chyflogaeth, yn ogystal ag addysg, sgiliau a hyfforddiant i gyn-filwyr a'u teuluoedd.

# Diwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

Diwylliant yw curiad calon Cymru. Mae celf a cherddoriaeth, ein hiaith, ein treftadaeth, a'n traddodiadau chwaraeon yn hanfodol i bwy ydyn ni fel cenedl.

Mae Cymru angen llywodraeth sydd wir yn gwerthfawrogi diwylliant ac sy'n deall ei rôl o ran datgloi mwy o'n potensial economaidd, cynnal cymunedau bywiog a chydlynol, a gwella llesiant ein pobl.



## O ystyried mai gwlad fach yw Cymru, mae hi wedi cael llwyddiant rhyfeddol o fawr ar y llwyfan rhyngwladol ers tro byd – yn y celfyddydau, y cyfryngau a chwaraeon. Gydag arweinyddiaeth gref a gweledigaeth newydd ar gyfer diwylliant, chwaraeon a'r iaith Gymraeg, byddwn yn cryfhau safle Cymru fel grym diwylliannol.

Gwyddom yn iawn am fanteision y celfyddydau, treftadaeth a chwaraeon i iechyd a llesiant. Rydyn ni eisiau i bobl o bob oed a gallu gael mwy o gyfleoedd, a gwell cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol, celfyddydau cymunedol, theatr a cherddoriaeth.

A byddwn yn gwarchod ac yn cryfhau'r Gymraeg ym mhob rhan o Gymru – drwy ein system addysg, ac yn ein cymunedau a'n gweithleoedd.

### Strategaeth ddiwylliannol newydd ar gyfer Cymru fwy iach, cyfoethog a gwydn, a lefel newydd o fuddsoddiad mewn celf, diwylliant a chwaraeon

Bydd llywodraeth Plaid Cymru yn disodli'r 'Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant' amwys a gwan gyda strategaeth ddiwylliannol bwrpasol a real.

Byddwn yn sicrhau bod y strategaeth hon yn cael ei hariannu'n briodol, gan gynyddu'r gyllideb ar gyfer diwylliant, treftadaeth, y celfyddydau a chwaraeon o un flwyddyn i'r llall dros dymor nesaf y Senedd. Ynghlwm wrth hyn, bydd newid ehangach tuag at wariant ataliol sy'n cydnabod rôl ganolog diwylliant a chwaraeon o ran hybu iechyd da a chadw pobl yn iach.

Bydd ein strategaeth yn:

- Seiliedig ar ailasesu'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r sector o'r bôn i'r brig, gan gydweithio ac ymgynghori'n llawn ag artistiaid, sefydliadau diwylliannol a threftadaeth, a rhanddeiliaid perthnasol eraill.
- Hyrwyddo'r diwydiannau creadigol fel sbardun allweddol ar gyfer twf, arloesedd a chyfleoedd yn economi Cymru, ac fel maes sy'n darparu swyddi a hyfforddiant o ansawdd da sy'n talu'n dda.
- Defnyddio prosesau comisiynu a chaffael cyhoeddus yn fwy strategol i gefnogi artistiaid, pobl greadigol a gwneuthurwyr o Gymru.
- Gwneud y celfyddydau, diwylliant a chwaraeon yn rhan ganolog o hybu llesiant unigolion a chymunedau, ffyrdd egnïol ac iach o fyw, a chanlyniadau gwell ar gyfer iechyd corfforol a meddyliol.
- Blaenoriaethu mynediad cyfartal at y celfyddydau, diwylliant a chwaraeon i bobl o bob oed, cefndir a gallu, a gwreiddio cyfleoedd diwylliannol mewn ysgolion a chymunedau lleol.
- Sicrhau bod yr hyn rydyn ni'n ei gynnig o ran twristiaeth ddiwylliannol yn rhan ganolog o'r ffordd rydyn ni'n hyrwyddo Cymru i'r byd; cefnogi datblygiad parhaus Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol Cymru; a datblygu cynlluniau ar gyfer 'angorfa' sy'n cryfhau gallu Cymru i gynnal partneriaethau ac arddangosfeydd o bwys.



Byddwn yn adolygu rôl cyrff cyhoeddus fel Cymru Greadigol, Cyngor Celfyddydau Cymru, Cadw a Croeso Cymru a pha mor addas i'r diben ydyn nhw i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r strategaeth newydd hon.

Byddwn yn cefnogi un calendr blynyddol o ddigwyddiadau treftadaeth ddiwylliannol ar gyfer Cymru, er mwyn helpu trigolion a thwristiaid i ymgysylltu â'r cynnig llawn o amgueddfeydd, safleoedd treftadaeth, a gwyliau.

Byddwn yn archwilio opsiynau i wneud darpariaeth ddiwylliannol yn ofyniad statudol i gyrff cyhoeddus – gan gynnwys awdurdodau lleol, byrddau iechyd a pharciau cenedlaethol – drwy Ddeddf Diwylliant newydd, a sicrhau bod diwylliant wrth galon bywyd cyhoeddus yng Nghymru.

### Ehangu mynediad

Dylai pawb yng Nghymru gael mynediad at y celfyddydau a'n treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog, waeth beth fo'u cefndir na ble maen nhw'n byw. Er mwyn sicrhau bod diwylliant yn hygyrch i bawb, byddwn yn gwneud y canlynol:

- **Parhau i roi mynediad am ddim i bawb i'n Hamgueddfeydd Cenedlaethol, a pharhau i gefnogi mynediad am ddim i Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol i deuluoedd incwm isel.**
- **Cynnal y consesiynau a'r prisiau mynediad gostyngol presennol i'n safleoedd treftadaeth, gan gynnwys ar gyfer pobl anabl, pobl ifanc, ymwelwyr hŷn, cyn-filwyr a phobl sy'n hawlio Credyd Cynhwysol – gan weithio i ehangu mynediad am ddim ar draws holl safleoedd Cadw a chyflwyno ein treftadaeth i gymunedau drwy allgymorth, teithiau, a mynediad digidol.**
- **Adnewyddu addysg ddiwylliannol a sicrhau bod hanes Cymru yn cael ei addysgu'n effeithiol fel rhan graidd o'r Cwricwlwm i Gymru, er mwyn cyflwyno celfyddydau, diwylliant a threftadaeth Cymru i blant o oedran cynnar.**
- **Parhau i gefnogi'r Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol, i sicrhau bod cyfleoedd cerddorol ar gael i blant a phobl ifanc rhwng 3 ac 16 oed yng Nghymru, waeth beth fo'u cod post neu incwm eu teulu.**
- **Hyrwyddo perchnogaeth gymunedol a chydweithredol i ddiogelu a chreu mannau diwylliannol, cynnal hybiau cymunedol, a sicrhau eu hyfywedd hirdymor – gan gynnwys drwy Hawl y Gymuned i Brynu.**

### Cefnogi'r diwydiannau creadigol

Mae diwylliant yn sbardun allweddol ar gyfer tyfu, arloesi a bod yn ddeinamig yn economi Cymru. Fel rhan o'n cynlluniau ehangach i drawsnewid cymorth i fusnesau, bydd y diwydiannau creadigol yn cael cefnogaeth lawn gan lywodraeth Plaid Cymru.

Byddwn yn:

- **Sicrhau bod gan ein Hasiantaeth Datblygu Cenedlaethol newydd yr arbenigedd sydd ei angen i ddarparu cymorth pwrpasol i fusnesau ar draws y cyfryngau, y maes digidol, diwylliant a'r celfyddydau.**
- **Cefnogi datblygiad y gweithlu yn y diwydiannau creadigol fel rhan o strategaeth sgiliau genedlaethol ehangach – drwy hyrwyddo llwybrau gyrfa gynnar, prentisiaethau, a chysylltiadau cryfach rhwng addysg a diwydiant, gan ganolbwyntio ar gynhwysiant ac amrywiaeth.**
- **Hyrwyddo hybiau adnoddau a rennir ac atebion cydweithredol ar gyfer gweithwyr hunangyflogedig a llawrydd, gan ddarparu mwy o sefydlogrwydd, cydweithio, a chyd-gefnogaeth i weithlu creadigol Cymru.**
- **Sefydlu Fforwm Creadigol a Diwylliant traws-sector, gan ddod ag undebau, sefydliadau diwylliannol a chyrff cyhoeddus at ei gilydd i ddatblygu blaenoriaethau cyffredin a gwthio am gyflog teg ac amodau gwaith gwell yn y sector.**

- **Sicrhau bod mwy o wariant cyhoeddus ar wasanaethau digidol, creadigol a chyhoeddi yn mynd i gwmnïau yng Nghymru, yn cefnogi swyddi o ansawdd uchel sy'n talu'r cyflog byw, ac yn gwarantu bod anfonebau'n cael eu talu'n brydlon.**
- **Cynnwys lleoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad mewn cynlluniau i ddiwygio ardrethi busnes er mwyn cefnogi busnesau bach yn well ym meysydd manwerthu, hamdden a lletygarwch.**
- **Cryfhau cysylltedd digidol ym mhob rhan o Gymru – gan wella'r seilwaith sydd ei angen ar fusnesau creadigol a chyfryngau, ac ehangu mynediad at dreftadaeth a diwylliant ar-lein.**

## Darlledu a'r cyfryngau

Bydd Plaid Cymru yn gweithio tuag at ddatganoli pwerau dros ddarlledu, gan gynnwys pwerau i reoleiddio, goruchwylio a sicrhau atebolrwydd dros ddarlledu a chyfathrebu yng Nghymru.

Fel cam dros dro, cyn datganoli'r pwerau hyn, byddwn yn bwrw ymlaen â chynlluniau i sefydlu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol i Gymru, er mwyn diogelu a chryfhau llwyfannau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus lleol a chenedlaethol yng Nghymru.

Byddwn yn adeiladu ar y mesurau cymorth cyhoeddus sydd eisoes ar waith ar gyfer newyddiaduraeth yng Nghymru, gan gynnwys y Gronfa Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd a swydd gohebydd penodedig y Senedd. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar opsiynau ar gyfer mecanweithiau cyllido hirdymor cynaliadwy, a dynodi newyddiaduraeth er budd y cyhoedd yn wasanaeth cyhoeddus, er mwyn diogelu darpariaeth newyddion o ansawdd uchel ledled Cymru.

Byddwn hefyd yn cefnogi llwybrau hyfforddi a diogelwch proffesiynol i newyddiadurwyr, ac yn hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau a dulliau moesegol o ymdrin â thechnolegau newydd sy'n effeithio ar gynhyrchu a lledaenu newyddion.

## Cadw Cymru'n iach drwy chwaraeon a gweithgarwch corfforol gydol oes

Bydd gwella cyfranogiad, mwynhad, a mynediad pobl at chwaraeon ar bob lefel mewn cymunedau ledled Cymru yn rhan annatod o'n dull o gadw pobl yn iach. Mae hyn yn cyd-fynd â'n cred bod yn rhaid i ni fuddsoddi'n raddol mewn iechyd cyhoeddus ac ataliol, gyda chwaraeon ac ymarfer corff yn ffactorau allweddol yn hyn o beth.

Bydd llywodraeth Plaid Cymru yn:

- **Cynyddu'r cyllid ar gyfer diwylliant a chwaraeon o un flwyddyn i'r llall drwy gydol tymor nesaf y Senedd.**
- **Hybu iechyd a llesiant corfforol a meddyliol ar draws holl weithgarwch Llywodraeth Cymru, ac fel maes gwaith allweddol i Weinidog Plaid Cymru dros Iechyd Cyhoeddus.**
- **Buddsoddi mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol fel rhan o'r agenda iechyd ataliol, a hyrwyddo gwaith partneriaeth newydd rhwng byrddau iechyd, gwasanaethau gofal sylfaenol a sefydliadau chwaraeon, gan gynnwys cyrff llywodraethu cenedlaethol.**
- **Cynnal archwiliad o gyfleusterau chwaraeon cymunedol a rhanbarthol er mwyn deall yn well sut mae targedu buddsoddiad cyfalaf dros dymor y llywodraeth, er mwyn rhoi'r cymorth gorau posib i chwaraeon cymunedol ac ar lawr gwlad.**

### Chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn ysgolion

Bydd llywodraeth Plaid Cymru yn hybu ac yn gwreiddio mwy o gyfranogiad a mwy o fynediad at chwaraeon ac ymarfer corff ar draws y cwricwlwm ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru, gyda phwyslais penodol ar lythrennedd corfforol o'r blynyddoedd cynnar ymlaen fel rhan hanfodol o ddatblygiad iach plant.

Byddwn yn:

- **Gweithio gyda Chwaraeon Cymru i ddatblygu cynnig Bywiog Bob Dydd fel rhan o ddull ysgol gyfan o ymdrin â gweithgarwch corfforol, gyda'r nod o gynyddu nifer y plant oed ysgol sy'n egnïol am 60 munud neu fwy bob dydd. Byddwn yn defnyddio'r arferion gorau a thystiolaeth ryngwladol, gan gynnwys y rhaglen *School on the Move* yn y Ffindir a'r rhaglen *Healthy Active Learning* yn Seland Newydd.**
- **Ehangu'r cynllun Milltir y Dydd i bob ysgol gynradd yng Nghymru, lle mae plant yn rhedeg, loncian, olwyno neu gerdded er mwynhad ac ar eu cyflymder eu hunain am 15 munud yn yr awyr agored o leiaf dair gwaith yr wythnos. Mae hyn yn datblygu arferion iach drwy wneud mwy o weithgarwch corfforol yn ystod yr wythnos ysgol.**

Mae nofio'n ffordd dda o ymarfer y corff – ond mae hefyd yn sgìl achub bywyd nad oes gan y rhan fwyaf o blant ifanc yng Nghymru. Yn 2024, dim ond 35% o blant ym mlynyddoedd ysgol 3-6 yng Nghymru oedd yn gallu nofio.

Byddwn yn cyflwyno rhaglen genedlaethol Nofio a Diogelwch Dŵr newydd i ysgolion, gyda chyllideb benodol i ddarparu isafswm o brofiadau nofio drwy'r ysgol i bob disgybl yng Nghymru, sy'n cynnwys 20 o wersi nofio a diogelwch dŵr i bob disgybl ym Mlynyddoedd 4 a 5.

### Chwaraeon Cymru ar lwyfan y byd

Bydd llywodraeth Plaid Cymru yn cydnabod rôl chwaraeon – o glybiau lleol i lefelau elît a rhyngwladol – o ran twf economaidd cynaliadwy a meithrin ein hyder a'n proffil fel cenedl, a bydd yn gwneud y gorau o hynny. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid allweddol gan gynnwys Chwaraeon Cymru a sefydliadau chwaraeon cenedlaethol i ganfod a chefnogi cyfleoedd i ddatblygu.

Byddwn yn darparu cymorth strategol a hirdymor i gyrff llywodraethu cenedlaethol er mwyn denu digwyddiadau rhyngwladol i Gymru a'u cynnal yng Nghymru – gan ennyn diddordeb mwy o bobl o bob oed mewn chwaraeon a chynnig cyfleoedd i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan o'r radd flaenaf ar gyfer teithio a diwylliant.

Byddwn hefyd yn sicrhau bod cynlluniau gwaddol effeithiol yn cael eu datblygu pan fydd Cymru'n cynnal digwyddiadau fel y Tour de France ac Ewro 28, neu pan fydd ein timau cenedlaethol yn cyrraedd cystadlaethau rhyngwladol.

Mae Plaid Cymru yn credu y dylai digwyddiadau chwaraeon sydd o bwys cenedlaethol i Gymru, fel Rygbi'r Chwe Gwlad, barhau i gael eu darlledu am ddim ar y teledu.

### Yr Iaith Gymraeg

Mae'r Gymraeg yn iaith i bawb yng Nghymru, a byddwn yn sicrhau bod pawb yn cael cyfle i'w dysgu, ei defnyddio, a byw eu bywydau drwyddi.

#### Trochi yn y Gymraeg yn ystod y blynyddoedd cynnar

Mae'r blynyddoedd cynnar yn gyfnod hollbwysig ym mywyd plentyn i gaffael iaith, boed hynny fel iaith gyntaf neu fel iaith ychwanegol.

Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn gofal plant ac addysg y blynyddoedd cynnar hefyd yn borth hanfodol i addysg gynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg, sy'n cefnogi plant a theuluoedd ym mhob cwr o Gymru i gael mynediad at ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Drwy ein cynnig gofal plant newydd ac uchelgeisiol, bydd Plaid Cymru yn ehangu'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn sylweddol.

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Creu lleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg newydd a helpu i sefydlu a thyfu lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg ledled Cymru, gan weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol fel y Mudiad Meithrin.
- Buddsoddi mewn rhaglenni i hybu a datblygu sgiliau Cymraeg ymarferwyr blynyddoedd cynnar a gweithwyr gofal plant, gan gynnwys cynlluniau a chymhellion i gefnogi gweithwyr i ddysgu Cymraeg a chryfhau eu sgiliau iaith presennol.

Byddwn hefyd yn adolygu ac yn ehangu cynlluniau i annog a gwella trosglwyddiad iaith o fewn teuluoedd, gan gefnogi rhieni i ddewis defnyddio'r Gymraeg gyda babanod a phlant ifanc, a hyrwyddo mentrau sy'n cryfhau'r defnydd o'r Gymraeg yn y cartref drwy wasanaethau iechyd cyn ac ar ôl geni.

**Addysg cyfrwng Cymraeg**
Bydd llywodraeth Plaid Cymru yn sicrhau bod gan bob plentyn hawl i fod yn siaradwr Cymraeg hyderus. Addysg cyfrwng Cymraeg yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni hyn.

Byddwn yn cynyddu cyfran a nifer y plant a phobl ifanc sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg, fel rhan ganolog o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg o leiaf erbyn 2050 – gan sicrhau bod y ddarpariaeth hon yn hygyrch, yn gynhwysol, ac yn gallu manteisio ar adnoddau digonol.

Gan wneud defnydd llawn o'r pwerau yn Neddf y Gymraeg ac Addysg, byddwn yn:

- Cyflwyno targed o gael o leiaf 50% o ddisgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2050.
- Gosod targedau lleol i sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg yn tyfu'n gyson ym mhob ysgol, gan symud ysgolion yn raddol ar hyd y continwwm ieithyddol.
- Ymyrryd drwy ddarparu cymorth wedi'i dargedu ac, os oes angen, cymryd camau unioni os nad yw targedau addysg cyfrwng Cymraeg yn cael eu cyrraedd.
- Sicrhau bod Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru yn cynnwys hyfforddiant Cymraeg gorfodol, gyda'r nod hirdymor bod pob athro yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cyflwyno cynllun ar gyfer gweithlu addysg Gymraeg, datblygu cyfleoedd sabothol newydd, a darparu cymhellion i athrawon hyfforddi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Byddwn hefyd yn gwella mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg drwy:

- Adolygu'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr i fynd i'r afael â rhwystrau rhag cael mynediad i ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- Cryfhau'r ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys gwell hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer y gweithlu addysg.

**Darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn colegau a phrifysgolion**
Bydd llywodraeth Plaid Cymru yn cryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg bellach ac uwch – gan gydnabod yn llawn bwysigrwydd addysg trydedd lefel o ran rhoi'r sgiliau a'r hyder sydd eu hangen ar bobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn fedrus, yn broffesiynol ac yn dechnegol.

Byddwn yn:

- Buddsoddi i gefnogi a datblygu gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, gan gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n gallu dilyn llwybrau trydedd lefel – gan gynnwys prentisiaethau – drwy gyfrwng y Gymraeg.

- Gweithio gyda darparwyr trydedd lefel i gynyddu cyfran y cyllid sy'n cael ei ddarparu ar gyfer addysg a hyfforddiant Cymraeg, gan roi sylw penodol i brentisiaethau.
- Diogelu'r Gymraeg fel pwnc trydedd lefel, gan weithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Medr i gynyddu nifer y cyfleoedd i astudio'r Gymraeg ar lefel Safon Uwch a'r tu hwnt.

Fel rhan o'n hadolygiad cynhwysfawr a thrawsbleidiol ehangach o strwythur a chyllid addysg uwch yng Nghymru, byddwn yn edrych ar opsiynau i gynyddu'r ddarpariaeth cyrsiau cyfrwng Cymraeg mewn prifysgolion yng Nghymru, gan gymryd arweiniad a thystiolaeth gan bartneriaid allweddol.

**Cryfhau'r Gymraeg fel iaith gymunedol**
Ochr yn ochr â datblygu'r Gymraeg drwy ein system addysg, byddwn yn ei hamddiffyn a'i hyrwyddo fel iaith fyw bob dydd, gan gryfhau ei sylfeini mewn cymunedau ar hyd a lled Cymru.

Gan weithredu ar argymhellion y Comisiwn Cymunedau Cymraeg, byddwn yn:

- Deddfu i gael mesurau diogelu newydd i ardaloedd o ddwysedd ieithyddol uwch, gan weithio gydag awdurdodau lleol i benderfynu sut a ble y dylid dynodi'r ardaloedd hyn.
- Cyflwyno pecyn pwrpasol o fesurau datblygu economaidd sy'n adeiladu ar Arfor ac sy'n cydnabod y cysylltiad cynhenid rhwng iaith, diwylliant a'r economi – o fewn fframwaith Asiantaeth Datblygu Cenedlaethol newydd i Gymru.
- Ymateb i ail adroddiad y Comisiwn a'i argymhellion ynghylch ardaloedd sydd â dwysedd canolig ac is o siaradwyr Cymraeg erbyn diwedd 2026, gan nodi cynllun clir sy'n dwyn ynghyd gamau gweithredu yn seiliedig ar holl argymhellion y Comisiwn.

Byddwn yn sicrhau bod y system gynllunio yn gwarchod y Gymraeg a diwylliant Cymru yn well, drwy weithio gydag awdurdodau lleol i weithredu argymhellion y Comisiwn ar gynllunio gwlad a thref. Byddwn hefyd yn deddfu i warchod enwau lleoedd Cymru.

Er mwyn i'r Gymraeg ffynnu, rhaid mynd ati i'w defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd – gartref, yn y gweithle ac yn y gymuned.

Byddwn yn parhau â chymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithgareddau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg a'i defnydd. Byddwn hefyd yn buddsoddi ymhellach i ehangu adnoddau Cymraeg digidol a'r defnydd o'r Gymraeg mewn gofodau digidol; creu cyfleoedd newydd i blant a phobl ifanc gael mynediad at weithgareddau cyfrwng Cymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth; a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn gweithleoedd.

**Safonau'r Gymraeg**
Byddwn yn cryfhau hawliau siaradwyr Cymraeg drwy weithio i ymestyn Safonau'r Gymraeg i gyrff ac asiantaethau Llywodraeth y DU sy'n gweithredu yng Nghymru, ac i'r sector preifat – gan gynnwys cyfathrebiadau, cyfleustodau, banciau, meysydd parcio, ac archfarchnadoedd.

Byddwn hefyd yn cryfhau Safonau'r Gymraeg ar gyfer cyrff cyhoeddus a darparwyr gwasanaethau, gan sicrhau eu bod yn gwneud mwy na dim ond cydymffurfio er mwyn hybu twf y Gymraeg, cynyddu nifer y siaradwyr, ac ehangu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd ar hyd a lled Cymru.

**Y Gymraeg yn ein gwasanaethau iechyd a gofal**
Bydd llywodraeth Plaid Cymru yn gwella darpariaeth gwasanaethau iechyd a gofal drwy gyfrwng y Gymraeg.

Byddwn yn sicrhau bod hyn yn cael ei weithredu'n llawn, a byddwn yn gweithio i adeiladu ar gynllun gweithredu *Mwy na Geiriau* – er mwyn sicrhau bod gwasanaethau iechyd a gofal ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys gwasanaethau digidol a theleiechyd.

Rydyn ni hefyd wedi ymrwymo i wella mynediad at ofal sylfaenol, gwasanaethau niwroamrywiaeth, therapi iaith a lleferydd, a chymorth iechyd meddwl – gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol – drwy gyfrwng y Gymraeg.



Hyrwyddwyd gan
**Plaid Cymru**
**Tŷ Gwynfor**
**Glanfa'r Iwerydd**
**Caerdydd CF10 4AL**

Argraffwyd gan Minuteman Press, Unit 14,
The Timberyard, Caerdydd, CF24 5EE

